



CRONFA'R HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth
i ben ar 31 Mawrth 2023





Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

DATGANIAD O GYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Atodlen 4 i Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd
a Thrafnidiaeth 2003

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 1 Gorffennaf 2023

HC 1498

SG/2023/120



© Hawlfraint Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol.

Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom yn Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, 25 Camden Road, Llundain NW1 9LN

ISBN: 978-1-5286-4122-7

E02915082

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi



CYNNWYS

1	ADRODDIAD PERFFORMIAD	6
	TROSOLWG O BERFFORMIAD	8
	Datganiad y Cadeirydd	8
	Amdanom ni: Trosolwg Strategol	10
	Ein Llwyddiannau	13
	Adroddiad Perfformiad	15
	Crynodeb o Berfformiad	15
	Dadansoddiad ariannol	21
	Adroddiad cynaliadwyedd	26
2	ADRODDIAD ATEBOLRWYDD	30
	Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	32
	Adroddiad y cyfarwyddwyr	32
	Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	39
	Datganiad llywodraethu	41
	Prif risgiau ac elfennau ansicrwydd	50
	Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth	64
	Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio	80
	Colledion / taliadau arbennig	80
	Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Dau Dŷ'r Senedd	81
3	ADRODDIAD ARIANNOL	86



ADRODDIAD PERFFORMIAD



TROSOLWG O BERFFORMIAD

Datganiad y Cadeirydd

Amdanom ni: Trosolwg Strategol

Crynodeb o Berfformiad

– Ein Llwyddiannau

ADRODDIAD ARIANNOL

Adroddiad Ariannol

Dadansoddiad Ariannol

Adroddiad Cynladwyedd



TROSOLWG O BERFFORMIAD

DATGANIAD Y CADEIRYDD

Mae'r adroddiad a'r cyfrifon a ganlyn yn rhoi trosolwg o lwyddiannau'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig dros y flwyddyn ddiwethaf o ran bodloni'r amcanion a osodwyd gan Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Er bod canfyddiad nad yw pandemig COVID-19 yn effeithio ar ein bywydau bob dydd mwyach, mae'r Awdurdod yn cydnabod ein bod yn cefnogi diwydiant sy'n dal i wella ar ôl gostyngiad yn nifer y teithwyr, refeniw a gweithgarwch ar y rhwydwaith rheilffyrdd.

Adroddodd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd gynnydd o 46% mewn teithiau tren i deithwyr yn 2022-23 o gymharu â 2021-22. Felly, nid wyf yn synnu gweld bod troseddau hysbysadwy wedi cynyddu hefyd, ac mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn newid ac yn addasu ei ffyrdd o weithio er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd hwn mewn amgylchedd gweithredu sy'n wahanol iawn ar ôl y pandemig.

Gwelodd 2022 hefyd ddwy her weithredol fawr i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig – Gemau'r Gymanwlad yn Birmingham, a welodd filoedd o gefnogwyr chwaraeon yn teithio i Orllewin Canolbarth Lloegr, ac angladd Ei Mawrhydi y Frenhines. Ar y ddau achlysur, roedd ein swyddogion yn broffesiynol, yn gymwynasgar ac yn ymroddedig i amddiffyn pawb a oedd yn gweithio ac yn defnyddio'r rhwydwaith rheilffyrdd ar yr adegau prysur, emosiynol hyn.

Roedd cynnydd o 25% yn nifer y troseddau treisgar a gofnodwyd yn erbyn menywod a merched, a allai ymddangos yn frawychus ar yr wyneb, ond credwn fod hyn i raddau helaeth oherwydd y cynnydd mewn adrodd, teithwyr yn teimlo'n fwy hyderus i godi llais, a'r gwaith codi ymwybyddiaeth llwyddiannus a wneir gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Efallai eich bod wedi gweld yr ap Railway Guardian newydd, a gafodd ei lawrlwytho nifer o weithiau, ac ymgyrch Speak Up, Interrupt yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, sy'n annog gwylwyr i chwarae eu rhan wrth atal troseddau yn erbyn menywod a merched. Mae'n rhan annatod o rôl yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig y gall yr holl deithwyr a staff weithio a theithio ar draws y rhwydwaith yn rhydd rhag aflonyddu a thrais.

Hefyd yn 2022, lansiwyd Cynllun Strategol newydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer 2022-27. Datblygwyd y cynllun mewn ymgynghoriad â'r diwydiant rheilffyrdd a phartneriaid ehangach, fel bod ein hamcanion (ar dudalen 11) yn adlewyrchu eu hadborth a'u blaenoriaethau. Dywedodd ein partneriaid wrthym eu bod yn cefnogi ein huchelgais cyffredinol i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig weithio gyda chydweithwyr yn y diwydiant rheilffyrdd ac eraill. Drwy wneud hynny, mae'n sicrhau bod trefn dda yn cael ei chynnal ar y rhwydwaith fel y gall teithwyr a staff fynd o gwmpas eu busnes yn ddiogel a heb amhariad. Roedd cefnogaeth gref hefyd i uchelgais yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i archwilio ffyrdd o gydweithio ac arloesi i ddarparu gwasanaethau hyd yn oed yn fwy effeithlon ac i fynd i'r afael â heriau'r amgylchedd gweithredu newydd.

Mae rhywfaint o'r gwaith partneriaeth hwn eisoes wedi cychwyn gyda Strategaeth

Hefyd yn 2022, lansiodd Cynllun Strategol newydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer 2022-27. Datblygwyd y cynllun mewn ymgynghoriad â'r diwydiant rheilffyrdd a phartneriaid ehangach, fel bod ein hamcanion (ar dudalen 11) yn adlewyrchu eu hadborth a'u blaenoriaethau. Dywedodd ein partneriaid wrthym eu bod yn cefnogi ein huchelgais cyffredinol i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig weithio gyda chydweithwyr yn y diwydiant rheilffyrdd ac eraill. Drwy wneud hynny, mae'n sicrhau bod trefn dda yn cael ei chynnal ar y rhwydwaith fel y gall teithwyr a staff fynd o gampas eu busnes yn ddiogel a heb amhariad. Roedd cefnogaeth gref hefyd i uchelgais yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i archwilio ffyrdd o gydweithio ac arloesi i ddarparu gwasanaethau hyd yn oed yn fwy effeithlon ac i fynd i'r afael â heriau'r amgylchedd gweithredu newydd.

Atal Troseddau newydd yr heddlu – sy'n ymgorffori tactegau atal trosedd yng ngwaith beunyddiol swyddogion a staff yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig – a'r Prosiect Diogelwch a Phlisma Integredig. Cyflwynodd y prosiect hwn ddull mwy cydgysylltiedig ar gyfer diogelwch gorsafoedd ar safleoedd mawr, fel King's Cross St Pancras a Birmingham New Street, er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a chanlyniadau gwell. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ystyried y camau nesaf tuag at integreiddio pellach a gweithio mewn partneriaeth.

Mae rhai datgeliadau ysgytwol ac adroddiadau dilynol ar ymddygiad a diwylliant plismona wedi herio hyder y cyhoedd mewn plismona yn ddifrifol dros y flwyddyn ddiwethaf a mwy. Mae'r Awdurdod yn benderfynol o gefnogi a herio arweinyddiaeth yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig mewn perthynas â'i gwaith i ddileu ymddygiad annerbyniol a moderneiddio'r diwylliant. Rwy'n credu bod cynnydd yn cael ei wneud ond credaf hefyd y bydd angen i'r gwaith hwn fod yn flaenoriaeth glir i'r Heddlu a'r Awdurdod fel ei gilydd am beth amser i ddod.

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi diweddaru ei Strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth pum mlynedd yn ogystal ag ymgorffori Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu ar draws yr Heddlu. Mae uwch-arweinwyr yn cymryd rhan yn llawen yn y ffyrddau gwaith cysylltiedig i sicrhau bod yr egwyddorion yn rhan annatod o DNA'r Heddlu. Bydd Awdurdod yr Heddlu yn mynnu bod yr Heddlu

Trafnidiaeth Prydeinig yn atebol, ac ar yr un pryd hefyd yn herio ei hun ar y materion hyn, sy'n mynd at wraidd ymddiriedaeth, cyfreithlondeb, a phlisma trwy gydsyniad.

I gloi, hoffwn ddiolch i holl staff a swyddogion yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig am eu gwaith caled dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Rydym wedi gweld sawl her, fel diwydiant ac ym maes plismona o ddydd i ddydd, ond mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i fod yn Heddlu a ddisgrifir yn gywir fel "Gwarcheidwaid y Rheilffordd", ac mae'r Awdurdod yn falch o'r holl swyddogion heddlu a staff sydd wedi cyfrannu'n anhunanol at y gwaith o gyflawni amcanion yr Heddlu yn 2022-23.



Ron Barclay-Smith
Cadeirydd

AMDANOM NI: TROSOLWG STRATEGOL

Pwy ydym ni

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol o'r Adran Drafnidiaeth a sefydlwyd ar 1 Gorffennaf 2004 o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Yr hyn yr ydym yn ei wneud

Rydym yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am oruchwyllo gwaith yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig – yr heddlu penodedig ar gyfer y rheilffyrdd sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban. Roedd nifer aelodau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn amrywio rhwng deg ac 14 drwy gydol 2022–23, a bu iddynt ddarparu gwybodaeth a phrofiad o faterion sy'n ymwneud â theithwyr, y diwydiant rheilffyrdd a gweithwyr y rheilffyrdd. Ar hyn o bryd, mae'r aelodau'n cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn i osod strategaeth yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, llunio cynlluniau ariannol tymor canolig a chyllidebau blynyddol, monitro ei weithrediadau, a dyrannu arian. Mae aelodau hefyd yn cynnal busnes ategol trwy bwyllgorau a gweithgorau. Mae'r strwythur presennol (ar 31 Mawrth 2023) yn cynnwys y canlynol:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Pwyllgor Penodiadau, Tâl Cydnabyddiaeth ac Arfarnu
- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio
- Pwyllgor Perfformiad a Chyflawni
- Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban
- Gweithgor Pensiynau
- Panel Adolygu Cwynion
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Ein gweledigaeth

Heddlu o safon fyd-eang yr ymddiriedir ynddo i ddarparu rheilffordd ddiogel a dibynadwy.

Ein cenhadaeth

Cydweithio i amddiffyn y gymuned rheilffyrdd, gan greu amgylchedd gelyniaethus ar gyfer trosedd

Ein huchelgais a'n hamcanion

- Atal troseddau a diogelu i leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn cael niwed ar y rheilffyrdd
- Targedu ein hymdrechion plismona arbenigol i sicrhau llai o ddioddefwyr y troseddau mwyaf niweidiol
- Arloesi a chydweithio â'n partneriaid i leihau tarfu
- Ennill ymddiriedaeth a hyder teithwyr a staff rheilffyrdd i drechu troseddoldeb gyda'n gilydd
- Cynhyrchu gwerth trwy dechnoleg a buddsoddiadau cynaliadwy, gan addasu i gwrdd â'r dyfodol
- Adeiladu Heddlu modern a chynhwysol lle mae gan ein pobl gyfarpar da, maent yn cael eu harwain yn dda, maent yn derbyn gofal da, ac maent yn adlewyrchu'r gorau o'n cymunedau

Disgrifir ein prif risgiau ac elfennau ansicrwydd yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.

Ein gwerthoedd

Mae gwerthoedd yn hanfodol i sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd, yn gwasanaethu'r cyhoedd, ac yn ymgysylltu â phartneriaid. Maent yn sylfaen i heddlu yr ymddiriedir ynddo, a berchir, ac y teimlir bod ei weithredoedd plismona yn gyfreithlon. Mae ein pobl wedi ystyried ein gwerthoedd yn ofalus trwy ymgysylltu ar draws yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Bydd ein gwerthoedd yn ein galluogi i ddangos tystiolaeth bob dydd ein bod NI AR EIN GORAU.

Ein gwerthoedd yw fel a ganlyn:

- Rydym yn falch o amddiffyn
- Rydym yn gofalu
- Rydym yn un Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Rydym yn gwneud y peth iawn
- Rydym yn ymdrechu i fod yn well bob dydd






PENAWDAU PERFFORMIAD

Heddlu
Trafnidiaeth
Prydeinig

**DATRYYS 9,336
TROSEDDAU HYSBYSADWY**



a oedd **20% yn fwy**
nag yn 2021/22 (7,808)




**19,615
YMGYRCH
RHYBUDD**

Patrolau (Gwelededd Uchel)
ers mis Tachwedd



170,000

616016
testunau a
dderbyniwyd
(2021/22: 130,000)



Yr oedd a

46% CYNHYDDU

yn nifer y teithiau
rheilffordd teithwyr yn
2022/23 gymharu a 2021/22
(ffynhonnell: ORR)




**66%
CYNHYDDU**

wrth adrodd am ddrwgweithredu
trwy'r Ymgyrch **"Speak Up,
Interrupt"**.



Ap Gwarcheidwad
Rheilffordd lansio, gyda

**27,000 AP
LAWRLWYTHIADAU**



25% o'n fflyd yn awr yn **drydanol**



**NIFER Y
SWYDDOGION:
3,198** – y nifer
uchaf o swyddogion a
gofnodwyd



ADRODDIAD PERFFORMIAD

CRYNODEB O BERFFORMIAD

Cynllun Strategol 2022-27

Hon oedd blwyddyn gyntaf ein strategaeth newydd, sy'n cwmpasu'r cyfnod 2022-27. Nod y Cynllun Strategol hwn yw darparu lle diogel i deithwyr, lle gelyniaethus i'r rhai a fyddai'n gwneud niwed, a lle diogel i bobl agored i niwed y deuir ar eu traws ar y rhwydwaith. Byddwn yn gwneud hyn mewn partneriaeth â'r diwydiant rheilffyrdd a thanddaearol, cyrff gorfodi'r gyfraith ehangach, asiantaethau diogelu, a grwpiau teithwyr.

Ein hamcanion strategol ar gyfer 2022-27 yw fel a ganlyn:

- **Atal troseddau a diogelu i leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn cael niwed ar y rheilffyrdd**
- **Targedu ein hymdrechion i sicrhau bod nifer llai yn dioddef y troseddau mwyaf difrifol**
- **Arloesi a chydweithio â'n rhanddeiliaid i leihau tarfu**
- **Meithrin ymddiriedaeth a hyder teithwyr a staff rheilffyrdd i drechu troseddoldeb gyda'n gilydd**
- **Sicrhau gwerth am arian trwy fanteisio ar dechnoleg, gan addasu i gwrdd â'r dyfodol**
- **Adeiladu Heddlu modern a chynhwysol lle mae gan ein pobl gyfarpar da, maent yn cael eu hyfforddi'n dda, maent yn cael eu harwain yn dda, maent yn derbyn gofal da, ac maent yn adlewyrchu'r gorau o'n cymunedau**

Atal troseddau a diogelu i leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn cael niwed ar y rheilffyrdd

Bydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gweithio gydag asiantaethau diwydiant, diogelwch a llesiant i sicrhau bod pawb sy'n gweithio ar y rheilffyrdd neu'n eu defnyddio i deithio ar gyfer hamdden neu waith yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i wneud hynny.

Roedd cynnydd o 30% yn nifer y troseddau hysbysadwy a gofnodwyd gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn 2022/23 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 51,847 i 67,625) a chynnydd o 1% yn nifer y digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd (o 30,636 i 30,838). Gostyngodd nifer y troseddau fesul miliwn o deithiau teithwyr o 27.4 yn 2021/22 i 24.4 ar gyfer 2022/23. Mae hyn yng nghydestun y cynnydd parhaus yn nifer y teithiau rheilffordd gan deithwyr ers dechrau pandemig COVID-19. Mae ystadegau dros dro gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR) yn dangos y bu cynnydd o 46% yn nifer y teithiau trên gan deithwyr yn 2022/23 o gymharu â 2021/22¹.

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ceisio gwella canlyniadau barnwrol yn barhaus. Yn 2022/23, datrysodd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 9,336 o droseddau hysbysadwy, a oedd 20% yn fwy nag yn 2021/22 (7,808). Fodd bynnag, mae'r cynnydd o 30% yn nifer y troseddau a gofnodwyd yn golygu bod y gyfradd a ddatrwyd wedi gostwng ychydig, o 15.1% i 13.8%.

¹ Cynnydd o 990,050,962.01 o deithiau teithwyr yn 2021/22 i 1,445,932,511.90 o deithiau teithwyr yn 2022/23. Ffynhonnell: Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, Tabl 1220 – Teithiau teithwyr. Ar gael o <https://dataportal.orr.gov.uk/statistics/usage/passenger-rail-usage/table-1220-passenger-journeys/> [Cyrcwyd 13.06.2023]

Ym mis Ionawr 2023, lansiodd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ei Strategaeth Atal Troseddau, sy'n nodi'r rôl sydd gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o ran atal troseddau a digwyddiadau ar y rheilffyrdd trwy wreiddio egwyddorion atal trosedd yng ngweithgareddau beunyddiol gweithwyr. Nod y strategaeth yw lleihau troseddau a niwed ar y rheilffyrdd, lleihau'r galw drwy ddull datrys problemau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a chyflawni newid diwylliannol drwy gynyddu plismona ataliol i'r eithaf.

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi bod yn treialu menter 'Peilot Diogelwch a Phlismona Integredig' mewn pum gorsaf reilffordd sy'n dod â phartneriaid plismona a phartneriaid nad ydynt yn blismona ynghyd bob dydd ar gyfer sesiwn frifio ar y cyd. Yna daw darlun gwybodaeth cyffredin i'r amlwg o'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y diwrnod i ddod, mae troseddau rheolaidd yn cael eu holrhain yn fwy effeithlon, a cheir cyd-destun cyfannol 24 awr sy'n gwella plismona yn y lleoliadau hyn. Disgwylir adroddiad gwerthuso terfynol yn gynnar yn 2023/24.

Targedu ein hymdrechion i sicrhau bod nifer llai yn dioddef y troseddau mwyaf difrifol

Mae ein pobl a'n partneriaid yn cydweithio i gadw'r rheilffordd yn ddiogel; ein nod yn y pen draw yw cael llai o bobl sy'n defnyddio'r rheilffordd i ddod yn ddioddefwyr trosedd.

Cofnododd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 12% yn fwy o droseddau trais yn erbyn yr unigolyn a chynnydd o 36% mewn lladrad yn 2022/23 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol². Fodd bynnag, gwelodd y ddau fath o drosedd ostyngiad yn nifer y troseddau fesul miliwn o deithiau teithwyr. Roedd 4.7 o droseddau trais yn erbyn yr unigolyn fesul miliwn o deithiau teithwyr a 0.5 o droseddau lladrata fesul miliwn o deithiau teithwyr yn 2022/23, i lawr o 6.1 a 0.6 yn y drefn honno.

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi parhau â'i ymdrechion i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Eleni gwelwyd cynnydd o 25% mewn troseddau treisgar a gofnodwyd

yn erbyn menywod a merched, cynnydd o 99% mewn troseddau yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol, a chynnydd o 2% mewn troseddau rhywiol.³ Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu cynnydd yn nifer yr achosion o'r troseddau hyn ond bod dioddefwyr yn fwy hyderus a pharod i adrodd amdanynt oherwydd y negeseuon a'r ymdrechion ar draws y rhwydwaith. Mae sawl menter newydd wedi cyfrannu at hyn, gan gynnwys ymgyrchoedd yn y cyfryngau a lansio ap Railway Guardian ochr yn ochr â'r sianeli presennol i wneud adrodd yn fwy hygyrch. Hefyd, lansiodd yr Heddlu ei ymgyrch 'Speak Up, Interrupt', sy'n annog gwylwyr/tystion i adrodd am ddigwyddiadau, a darparodd hyfforddiant gwell i swyddogion, a chanolbwyntiodd y Tasglu Troseddau â Blaenoriaeth ei batrolau rhagweithiol ar leoli troseddau rhyw.

Mae gallu plismona gwrthderfysgaeth yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i gadw'r rhwydwaith tanddaearol a rheilffyrdd yn ddiogel. Er mwyn sicrhau'r model cywir ar gyfer y dyfodol, mae'r Heddlu wedi cynnal adolygiad o'i strwythur a gallu gwrthderfysgaeth yn erbyn asesiad bygythiad y DU. Disgwylir i'r gwaith o weithredu model newydd gael ei gwblhau i raddau helaeth erbyn dechrau 2023 a bydd yn sicrhau arbedion ariannol o £1.75 miliwn y flwyddyn.

Arloesi a chydweithio â'n rhanddeiliaid i leihau tarfu

Mae effaith tarfu ar wasanaethau teithwyr a chludo nwyddau ar y rhwydwaith rheilffyrdd yn bellgyrhaeddol ac mae gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ran hanfodol i'w chwarae wrth atal a chyfyngu ar ddigwyddiadau tarfu fel y rhai a achosir gan farwolaethau a thresmasu wrth ymdrin â'r canlyniad gyda thosturi a phroffesiynoldeb.

Roedd cyfartaledd o 25.8 munud o oedi sylfaenol fesul digwyddiad tarfu cysylltiedig â'r heddlu yn 2022/23, i fyny o gyfartaledd o 21.9 yn 2021/22. Gwelwyd gostyngiad o 0.5% yn nifer yr achosion o darfu yn ymwneud â'r heddlu yn 2022/23 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 27,361 i 27,237. Fodd bynnag, cynyddodd nifer y munudau oedi sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r

2 Cynyddodd trais yn erbyn yr unigolyn o 11,599 yn 2021/22 i 12,977 yn 2022/23. Cynyddodd lladrad o 1,088 yn 2021/22 i 1,475 yn 2022/23.

3 Cynyddodd troseddau treisgar yn erbyn menywod a merched o 7,561 yn 2021/22 i 9,438 yn 2022/23. Cynyddodd troseddau yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol o 873 yn 2021/22 i 1,736 yn 2022/23. Cynyddodd troseddau rhywiol o 2,235 yn 2021/22 i 2,285 yn 2022/23.



digwyddiadau hyn 17% (o 600,009 i 701,551).⁴

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i gydweithio â'r diwydiant rheilffyrdd i leihau aflonyddwch, gan gynnwys drwy ganolbwyntio ar fannau problemus a chynlluniau datrys problemau. Yn ogystal, mae'r Heddlu'n parhau i weithio trwy amrywiol grwpiau partneriaeth trosedd, gweithgorau tarfu, a chyrrff allanol fel y Samariaid a Railway Children.

Mae canolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed a/neu mewn perygl yn parhau i fod yn rhan allweddol o waith yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Roedd 2,254 o ymriadau achub bywyd ar y rheilffordd yn 2022/23, sef 5% yn llai na'r llynedd (2,376). Yn ystod y cyfnod hwn, roedd 3% yn llai o achosion o hunanladdiad a amheuir (o 276 i 268).⁵ Mae'r amser dychwelyd cyfartalog i'r diwydiant rheilffyrdd yn dilyn marwolaeth yn parhau i fod yn elfen bwysig o ran atal oedi ar y rheilffordd. Parhaodd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i fethu'r targed y cytunwyd arno ar gyfer dychwelyd marwolaethau diamheus o fewn 90 munud. Fodd bynnag, gostyngodd yr amser cyfartalog ychydig, o 97 munud yn 2021/22 i 95 munud yn 2022/23.

Mae gwaith hefyd ar y gweill o fewn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i ddeall yn well sut mae'r Heddlu yn darparu gwerth am arian i'r diwydiant rheilffyrdd, yr economi, a chymdeithas yn gyffredinol. O ystyried rôl yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn y diwydiant rheilffyrdd, mae rhan fawr o'r ffocws hwn wedi bod ar aflonyddwch

sy'n gysylltiedig â'r heddlu, gan gynnwys oedi yn ymwneud â marwolaethau ac ymriadau achub bywyd, tresmasu iechyd meddwl, lladrad ceblau, a phecynnau heb oruchwyliaeth a bygythiadau bom.

Meithrin ymddiriedaeth a hyder teithwyr a staff rheilffyrdd i drechu troseddoldeb gyda'n gilydd

Mae plismona trwy gydsyniad yn dibynnu ar ffydd y cyhoedd bod ein gweithredoedd yn gyfreithlon ac yn gymesur. Rydym yn parhau i herio ein hunain ar hyn ac i weithio gyda'n cymunedau i ddeall niwed posibl a mynd i'r afael â'r peth.

Canfu arolwg blynyddol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o agweddau'r cyhoedd yn 2022 fod 66% o ymatebwyr yn 'teimlo'n ddiogel wrth deithio ar y rheilffyrdd', sef cynnydd o 54% yn arolwg y llynedd. Canfu hefyd fod 70% a fu mewn cysylltiad â swyddog heddlu yn ystod y 12 mis diwethaf yn cytuno bod 'yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn trin pawb yn ôl eu hanghenion', i fyny o 55% yn 2021. Ychwanegwyd cwestiwn newydd eleni ar deimladau'r cyhoedd wrth deithio ar y rheilffordd, gyda 28% o bobl 'bob amser' a 59% 'weithiau' yn 'hapus' wrth deithio ar y rheilffordd. Fodd bynnag, canfu

⁴ Mae ystadegau tarfu sy'n ymwneud â'r heddlu yn destun mân newidiadau hyd at 30 diwrnod yn dilyn y digwyddiad.

⁵ Ar adeg ysgrifennu hwn, roedd chwe digwyddiad o 2021/22 gyda dosbarthiad yn yr arfaeth, a saith o 2022/23. Mae ffigurau ymyrraeth achub bywyd yn destun mân newidiadau.

hefyd fod 8% 'bob amser' yn teimlo'n 'agored i niwed', 5% 'bob amser' yn teimlo'n 'ofnus', ac 8% 'bob amser' yn teimlo'n 'bryderus'. Y prif flaenoriaethau plismona a nodwyd yn yr arolwg oedd troseddau rhywiol, trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae sylw wedi bod ar ymddygiad yr heddlu yn dilyn nifer o weithredoedd ffiaidd, annifyr a throseddol a gyflawnwyd gan bobl sy'n gwasanaethu yn yr heddlu, ac mae'r sylw yn parhau. O'r herwydd, mae'n hollbwysig ein bod yn gweithio mor galed â phosibl i adfer ymddiriedaeth a hyder lle y gallwn. Mae nifer o weithgareddau'n cael eu cynnal ar draws Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig sy'n canolbwyntio'n rhagweithiol ar sicrhau bod swyddogion a staff na ddylai fod mewn plismona yn cael eu symud, adolygu a lle bo'n briodol gwneud diwygiadau i brosesau camymddwyn, ac archwilio trefniadau fetio a gwrthlygredd. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi atgyfnerthu'r negeseuon o amgylch ei wasanaeth adrodd cyfrinachol 'Speak Up' ac ymgyrch 'trust your gut' i annog pobl i godi llais a rhoi sicrwydd y gwrandewir arnynt. Mae Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i fod yn brysur gyda llif cyson o wrandawiadau camymddwyn yn cael eu cynnal. Bu cynnydd sylweddol hefyd yn Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu ac adolygiad hanesyddol o Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu i nodi a oes unrhyw swyddogion a staff wedi cael unrhyw gysylltiadau â'r heddlu y dylid bod wedi'u datgan neu fod unrhyw achosion o gudd-wybodaeth wedi'u cofnodi yn eu herbyn ers eu gwiriad fetio diwethaf.

Cytunwyd ar Strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth pum mlynedd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac mae'n cynnwys targedau uchelgeisiol sy'n herio'r Heddlu i fod yn flaengar. Yn yr un modd, mae Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu yn cael ei wreiddio ar draws yr heddlu, ac mae uwch-arweinwyr yn ymgysylltu'n frwd â'r ffrydiau gwaith i sicrhau bod yr egwyddorion wedi'u gwreiddio yn ein DNA. Yn cefnogi hyn, mae fframwaith newydd ar gyfer craffu allanol a fydd yn sicrhau ein bod yn defnyddio ystod ehangach o safbwyntiau a phrofiadau i wella ymddiriedaeth a chyfreithlondeb. Nod hyn yw sicrhau bod gwir annibyniaeth, dysgu sefydliadol, a chynnydd clir ac effeithiol ar gyfer craffu allanol.

Sicrhau gwerth am arian trwy fanteisio ar dechnoleg, gan addasu i gwrdd â'r dyfodol

Mae gennym ddyletswydd i ddefnyddio ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon. Yn ein strategaeth ar gyfer 2022-27, gwnaethom ymrwymo i herio aneffeithlonrwydd, gan sicrhau bod 'pob ceiniog yn cyfrif' tuag at ein nodau strategol, ac i gyflawni arbedion effeithlonrwydd mesuradwy i'w hailfuddsoddi lle byddant yn cael yr effaith fwyaf ar ein strategaeth. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi datblygu rhaglen newid uchelgeisiol, sef 'A Force on the Move'.

Hyd yn hyn, mae hyn wedi cynnwys adolygiadau strwythurol o 'Haenau a Rhychwantau' rheolaeth ymhlith rheolwyr i edrych ar sut y gallai'r Heddlu weithio mewn ffordd fwy darbodus a mwy effeithlon, a gallu gwrthderfysgaeth yr



Heddlu. Mae gan y rhaglen hon uchelgais i gydweithio â phartneriaid yn y diwydiant i fanteisio ar dechnoleg newydd a rhannu data er mwyn sicrhau bod ein dull gweithredu cyfunol wedi'i dargedu ac yn effeithiol. Mae archwiliadau o hyfforddiant a darpariaeth gwasanaethau cyfreithiol wedi arwain at ostyngiadau cost o tua hanner miliwn o bunnoedd. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig hefyd wedi sicrhau dros £1 miliwn o arbedion drwy symud ystadau strategol i Baskerville House yn Birmingham ac ailstrwythuro ein gallu Cynllunio Dyletswyddau a Digwyddiadau.

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi ymrwmo i gyflawni statws carbon sero net erbyn 2035 drwy ei Strategaeth Carbon Sero Net, a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2022. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi dewis 2019 fel y flwyddyn sylfaen i adrodd yn ei herbyn, gan nad yw data 2020 a 2021 yn adlewyrchu blwyddyn weithredol arferol. Mae nifer o feysydd cynnydd wedi'u gwneud yn 2022/23 a ddisgrifir mewn man arall yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cyrraedd targed Fflyd Werdd y Llywodraeth o 25% o fflyd ceir i fod yn ddi-allyriadau erbyn Rhagfyr 2025, sy'n cyfateb i ostyngiad o 1,122 tonnall o CO₂ a arbedir bob blwyddyn.
- Prynu meddalwedd i awtomeiddio'r broses o gasglu data, gwneud cyfrifiadau cymhleth, ac olrhain, mesur ac adrodd ar ein hól troed carbon blynyddol.
- Mabwysiadu safiad Swyddfa'r Cabinet i garbon sero net ar gyfer cystadlaethau mawr gwerth £5 miliwn a mwy. Aeth yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig â hyn i lawr i drothwy is lle roedd cystadlaethau o fwy na £500k yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gadarnhau eu hymrwymiad i garbon sero net a chael strategaeth ar waith erbyn 2025.
- Cydweithio â chyflenwyr i ddarparu cynhyrchion carbon sero net o ffynonellau cynaliadwy, er enghraifft lifrai wedi'i chynhyrchu o ddeunyddiau adnewyddadwy, wedi'u hailgylchu a chynaliadwy, dim lifrai i safleoedd tirlenwi, a menter ailgylchu i aildefnyddio.

- Cyflwynwyd categori gwobr cyflenwr cynaliadwy yng ngwobrau blynyddol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 'ni ar ein gorau' i gydnabod y cyflenwr sydd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf i gefnogi'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ein taith carbon sero net.

I gefnogi ymrwymiad y llywodraeth i 25% o'r fflyd ceir fod yn gerbydau allyriadau isel iawn erbyn 31 Rhagfyr 2022 a 100% o'r fflyd ceir a faniau i fod yn allyriadau sero yn y bibell fwg erbyn 31 Rhagfyr 2027,⁶ mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi bod yn gweithio i drawsnewid ei fflyd a sefydlu'r seilwaith codi tâl angenrheidiol. Mae cyfanswm o 85 o 290 o geir bellach yn gwbl drydanol, sydd wedi rhagori ar darged Fflyd Werdd y Llywodraeth. Bellach mae gan yr Heddlu ddau safle a deg pwynt gwefru wedi'u sicrhau a chwe safle arall wedi'u hamserlennu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Uchelgais yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yw i weddill y fflyd symud drosodd i gerbydau trydan erbyn targed 2027 Llywodraeth y DU.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi rhoi ystod o ddatblygiadau technoleg ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys lansio ap Railway Guardian, sicrhau mynediad i'r Gronfa Ddata Delweddau Cam-drin Plant genedlaethol i wella gallu ymchwilio'r Heddlu, a chwblhau'r gwaith o weithredu modiwl NICHE Property sydd wedi integreiddio rheoli tystiolaeth gyda'n system cofnodion trosedd mewn swydd. Cyflawnwyd hyn ochr yn ochr â 'Fixing the Fundamentals' i ddarparu Adran Dechnoleg wedi'i hailstrwythuro sy'n addas i'r diben.

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig hefyd wedi cyflwyno 3,500 o ddyfeisiau fideo a wisgir ar y corff newydd sbon gyda swyddogaethau gwell, gan gynnwys uwchlwythiadau wrth fynd, gwefru USB, sgrin gyffwrdd gyda'r gallu i weld ffilm cyn ei huwchlwytho, a gwelededd oes batri. Fel rhan o'r cyflwyniad sylweddol hwn, profodd yr Heddlu rai problemau cynnar ond bu gweithgor dyfeisiau fideo a wisgir ar y corff yn goruchwyllo diweddariadau cadarnwedd, sesiynau cymorth wyneb yn wyneb ledled y wlad, a chyfathrebu cyson ar newid busnes.

⁶ Ffynhonnell: Gov.UK (2022) Greening Government Commitments 2021 to 2025, Diweddarwyd 15 Rhagfyr 2022. Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/publications/greening-government-commitments-2021-to-2025/greening-government-commitments-2021-to-2025> [Cyrchwyd 21.04.2023]

Adeiladu Heddlu modern a chynhwysol lle mae gan ein pobl gyfarpar da, maent yn cael eu hyfforddi'n dda, maent yn cael eu harwain yn dda, maent yn derbyn gofal da, ac maent yn adlewyrchu'r gorau o'n cymunedau

Rydym yn falch o fod yr heddlu arbenigol ar gyfer y rheilffyrdd. Mae plismona llwyddiannus yn gofyn am alluoedd ffres a modern sy'n cadw ar y blaen i fygythiadau a throseddau; ond yn y bôn mae'n ymwneud â phobl.

Ym mis Gorffennaf 2022, gwahoddodd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yr holl weithwyr i gwblhau ei 'Arolwg Pawb' i gasglu barn am yr hyn y mae'r Heddlu yn ei wneud yn dda, a materion y mae angen mynd i'r afael â nhw. Y gyfradd ymateb oedd 63%, i fyny o 50% y llynedd. Canfu'r arolwg fod 69% yn falch o weithio i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, gyda 71% yn gwybod sut mae eu gwaith yn cyfrannu at ddiben yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Fodd bynnag, canfu hefyd nad yw uwch-arweinwyr ar draws y sefydliad yn ennyn ymddiriedaeth nac yn rhoi gwaith timau yng nghyd-destun ein strategaeth ehangach / cysylltiad â chenhadaeth, ac er bod 76% yn gweld eu hunain yn dal i weithio yn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig mewn dwy flynedd, dim ond 52% sy'n argymhell yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig fel lle gwyh i weithio.

Mae Adroddiad yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2022 yn adrodd bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi gostwng am y bumed flwyddyn yn olynol, gyda bwlch cymedrig o 5.74% a bwlch canolrif o 14.72% (2021: 6% cymedrig a 12.28% canolrif). Mae adroddiad 2022 yn nodi bod 31.78% o weithwyr yn fenywod, o gymharu â 31.3% ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Roedd y gynrychiolaeth fenywaidd yn 22.2% ar gyfer swyddogion heddlu, a oedd yn gynydd bychan ar y gyfradd gynrychiolaeth o 21.2% ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Rhoddodd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ymrwymiad fel rhan o'i Gynllun Gweithredu Hil i gyhoeddi adroddiad bwlch cyflog ethnigrwydd, a wnaeth am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2023. Sefydlodd Adroddiad Bwlch Cyflog Ethnigrwydd

2022 fod bylchau cyflog cymedrig o 5.64%, 5.64% a 4.05% ar gyfer y rhai a nododd eu grŵp ethnig fel Asiaidd, Du a Chymysg yn y drefn honno. Y bylchau cyflog canolrifol ar gyfer grwpiau Asiaidd, Du a Chymysg oedd 10.78%, 11.20% a 6.76% yn y drefn honno, o gymharu â'r gyfradd cyflog fesul awr ganolrifol uchaf. Dywed yr adroddiad fod 2.75% o weithwyr wedi dewis peidio â rhannu eu data ethnigrwydd.

Mae'r Adroddiad Bwlch Cyflog Ethnigrwydd hefyd yn amlinellu'r cyfraddau cynrychiolaeth ethnigrwydd ar gyfer gweithwyr yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae hyn yn dangos mai'r cyfraddau cynrychiolaeth ar gyfer pob gweithiwr oedd fel a ganlyn:

Pob gweithiwr	
Grŵp ethnig	Canran %
Gwyn	82.29
Asiaidd	7.88
Du	3.88
Cymysg	3.30
Heb ei nodi	2.75

Ar gyfer swyddogion heddlu, y cyfraddau cynrychiolaeth ethnigrwydd oedd fel a ganlyn:

Swyddogion heddlu	
Grŵp ethnig	Canran %
Gwyn	85.92
Asiaidd	5.64
Du	2.69
Cymysg	3.03
Heb ei nodi	2.73

Yn dilyn sefydlu hwb newydd yn llwyddiannus yn Birmingham, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i sefydlu hwb gweithredol newydd ar gyfer Llundain. Mae hyn yn mynd rhagddo'n dda ac, yn amodol ar sicrhau'r cymeradwyaethau perthnasol, mae'r Heddlu'n disgwyl cyfuno nifer o swyddogaethau mewn adeiladau newydd erbyn diwedd 2024.

ADRODDIAD ARIANNOL

DADANSODDIAD
ARIANNOL

Y diffyg ariannol net ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd £107.2 miliwn (2021-22: £109.9 miliwn), y mae £105.4 miliwn (2021-22: £106.6 miliwn) ohono yn ymwneud ag IAS 19: Addasiad cyfrifo pensiynau buddion cyflogaeth (gweler y Datganiad llif arian). Y diffyg ariannol net wedi'i addasu ar ôl dileu'r addasiad IAS 19 yw diffyg ariannol o £1.8 miliwn (2021-22: diffyg ariannol o £3.3 miliwn).

Mae diffyg yn parhau ar ôl yr addasiad hwn yn bennaf o ganlyniad i ddau fater. Nid yw unrhyw ddibrisiant a godir ar asedau a ariennir y tu allan i fecanwaith codi tâl Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu yn cyd-fynd yn union â phryd y ceir cyllid, ac yn aml mae'r cyllid yn llifo drwy'r datganiad o newidiadau mewn ecwiti yn hytrach nag fel incwm. Yn ogystal, codir costau prydlesu ar ddeiliaid Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu ar sail arian parod yn hytrach nag ar sail cost IFRS16, sy'n creu gwahaniaeth mewn amseriad incwm a gwariant. Mae'r ddwy senario yn dal i arwain at adennill gwariant yn llawn dros amser.

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £'000	Cyllideb 2023-24 £'000
Incwm	305,262	319,838	331,123	350,662	365,303
Gwariant	(384,978)	(386,460)	(441,006)	(457,861)	(387,849)
Diffyg net Gan gynnwys costau pensiwn IAS19	(79,716)	(66,622)	(109,883)	(107,199)	(22,546)
Gwarged/(diffyg) net wedi'i addasu Dileu costau pensiwn IAS19	(5,726)	(10,132)	(3,313)	(1,809)	(3,556)
Asedau anghyfredol	68,043	67,690	89,826	98,310	N/A
Cyfanswm asedau	126,661	125,612	154,049	164,740	N/A
Rhwymedigaethau cyfredol	(55,011)	(58,194)	(62,546)	(65,376)	N/A
Rhwymedigaethau anghyfredol	(596,237)	(1,054,862)	(938,016)	(75,128)	N/A
Ecwiti trethdalwyr	(524,587)	(987,444)	(846,513)	24,236	N/A

Perfformiad Ariannol Pum Mlynedd

Mae'r tabl yn dangos ffigurau alldro ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 hyd at y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 a'r gyllideb ar gyfer 2023-24.

Cafodd Cynllun Ariannol Tymor Canolig newydd ar gyfer 2023-24 hyd at 2027-28 ei adolygu gan yr Awdurdod yn ystod 2022-23. Cymeradwywyd cyfanswm y gyllideb rheoli gwariant ar gyfer 2023-24 yn ogystal â chynnydd i daliadau Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu o 4.5%.

Mae'r tabl yn dangos mai elfen gyfnewidiol allweddol yr incwm a gwariant blyneddol yw costau pensiwn IAS 19. Felly mae ffigur diffyg wedi'i addasu sy'n dileu cost IAS 19 wedi'i ddarparu i ganiatáu cymaroldeb dros y pedair blynedd a sefyllfa ariannol sylfaenol gliriach. Yr addasiad IAS 19 yw swm y llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net a chostau gweinyddu a gwasanaeth, wedi'i leihau gan gyfraniadau cyflogwr.

Y rhwymedigaeth pensiwn net hefyd yw elfen gyfnewidiol allweddol asedau a rhwymedigaethau. Ar ôl mabwysiadu IAS 19: Buddiannau Cyflogeion, mae'r sefyllfa ariannol agoriadol ar 1 Ebrill 2022 yn dangos rhwymedigaethau pensiwn net o £912.5 miliwn. Rhwymedigaeth net y cynllun ar 31 Mawrth 2023 oedd £49.4 miliwn, sef gostyngiad o £863.1 miliwn yn y flwyddyn. Mae cyfradd ddisgownt uwch wedi lleihau'r rhwymedigaeth budd-daliadau yn sylweddol yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r Adran Drafnidiaeth, fel adran noddi'r Awdurdod, yn gwarantu unrhyw ddiffygion pensiwn. I gael rhagor o fanylion, cyfeiriwch at Nodyn 23 yn y Datganiadau Ariannol.

Perfformiad y Flwyddyn Gyfredol

Mae gwariant a gafwyd o ganlyniad i COVID-19 yn 2022-23, yn benodol prynu cyfarpar diogelu personol a gwasanaethau glanhau, wedi'i amsugno o fewn y cyllidebau presennol ac ni chafwyd unrhyw arian cymorth grant ar gyfer gwariant COVID-19. Roedd cyllid cymorth grant yr Adran Drafnidiaeth a dderbyniwyd yn 2022-23 yn ymwneud ag angladd Ei Mawrhydi y Frenhines. O ganlyniad i'r pwysau gweithredol a brofwyd yn ystod pandemig COVID-19

yn 2020-21, cytunwyd ar bolisi i ganiatáu i weithwyr gario gwyliau blyneddol o hyd at 20 diwrnod drosodd i'w defnyddio dros y ddwy flynedd ganlynol, yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Effeithiodd hyn ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol gyda mwy o wyliau blyneddol heb eu cymryd yn cael eu cario drosodd i'r flwyddyn ganlynol ac, o ganlyniad, cynyddodd y rhwymedigaeth gwyliau blyneddol yn 2020-21 £4.7 miliwn. Gostyngodd y rhwymedigaeth gwyliau blyneddol yn 2022-23 £2.7 miliwn wrth i'r gweithwyr gymryd y gwyliau blyneddol a gronwyd yn ystod 2020-21.

Cynyddodd incwm a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn £19.6 miliwn, o £331.1 miliwn yn 2021-22 i £350.7 miliwn yn 2022-23. Mae'r cynnydd hwn yn bennaf oherwydd cynnydd chwyddiannol mewn taliadau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Roedd yr Awdurdod eisoes wedi cymeradwyo cynnydd i daliadau Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu yn unol ag RPI ac 1% i ganiatáu ar gyfer yr Uned Cydlynu Trais yn y Gweithle ac adnoddau ar gyfer llinell Elizabeth ar gyfer 2022-23.

Bu cynnydd o £7.1 miliwn mewn costau staff, o £343.2 miliwn yn 2021-22 i £350.4 miliwn yn 2022-23. Cynyddodd costau cyflogres safonol oherwydd dyfarniad cyflog 2022-23 a chynnydd pwyntiau ar y golofn gyflog, a wrthbwyswyd yn rhannol gan ostyngiad yng ngwerth y rhwymedigaeth gwyliau blyneddol o £2.7 miliwn. Mae costau staff dros dro wedi cynyddu eleni oherwydd yr adnoddau cynyddol sydd eu hangen mewn Strategaeth a Newid, Technoleg, a Safonau Proffesiynol.

Gostyngodd gwariant arall £4.8 miliwn, o £58.9 miliwn yn 2021-22 i £54.1 miliwn yn 2022-23. Bu gostyngiad o £8.0 miliwn mewn rhenti o dan brydlesi gweithredu o ganlyniad i ailasesu'r holl brydlesi yn erbyn meini prawf IFRS16, a wrthbwyswyd yn rhannol gan gynydd mewn costau llety/adeiladau o £1.3 miliwn a chynnydd o £1.4 miliwn yng nghostau gwasanaethau proffesiynol. Mae effaith addasiadau pensiwn IAS 19 ar y datganiad o incwm cynhwysfawr, sef £109.1 miliwn, yn is na'r flwyddyn flaenorol (2021-22: £113.8 miliwn) o ganlyniad i'r gostyngiad mewn rhwymedigaeth yn y flwyddyn flaenorol. Er mwyn cael rhagor o fanylion am y dadansoddiad o'r costau, cyfeiriwch at Nodyn 23 yn y Datganiadau Ariannol.

Yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol, cynyddodd gwerth cario asedau anghyfredol o £8.5



miliwn, o £89.8 miliwn yn 2021-22 i £98.3 miliwn yn 2022-23. Gwnaethpwyd ychwanegiadau ac addasiadau o £18.0 miliwn yn y flwyddyn gyfredol, gan gynnwys dyfeisiau fideo a wisgir ar y corff, Cam 2 Cyfrifiadura'r Defnyddiwr Terfynol, a gorchudd ac inswleiddio to Brewery Road, yn ogystal ag ychwanegiadau ac addasiadau eiddo hawl i ddefnyddio ar werth o £13.7 miliwn. Achos yr ychwanegiadau eiddo hawl i ddefnyddio oedd ailasesu pob prydles yn erbyn meini prawf IFRS16. Cynyddodd yr ailbrisio asedau hefyd gyfanswm gwerth asedau anghyfredol o £7.7 miliwn. Lleihawyd hyn gan daliadau dibrisiant ac amorteiddio o £29.2 miliwn.

Cynyddodd cyfanswm yr asedau cyfredol £2.2 miliwn, o £64.2 miliwn yn 2021-22 i £66.4 miliwn yn 2022-23. Cynyddodd symiau derbyniadwy £6.0 miliwn, er bod hyn wedi'i wrthbwysu'n rhannol gan ostyngiad o £3.5 miliwn mewn arian parod a gostyngiad o £0.3 miliwn mewn stocrestrau. Prif achos y symudiad net oedd cynnydd mewn rhagdaliadau ac incwm cronedig o £6.2 miliwn. O gymharu â 2021-22, roedd nifer uwch o anfonebau a gymeradwywyd ac a dalwyd cyn diwedd 2022-23 a oedd yn cwmpasu cyfnodau yn y dyfodol a arweiniodd hefyd at ostyngiad yn y balans arian parod.

Cynyddodd cyfanswm y rhwymedigaethau presennol £2.8 miliwn, o £62.5 miliwn yn 2021-22 i £65.4 miliwn yn 2022-23. Mae hyn yn deillio

o gynnydd yn y balans masnach a symiau taladwy eraill a achoswyd gan gynnydd mewn anfonebau llai na 30 diwrnod oed yn aros i gael eu talu yn y cyfriflyfr cyfrifon taladwy. Mae gwerth darpariaethau wedi cynyddu £0.6 miliwn drwy lefel uwch o ddarpariaethau newydd neu ymgodiadau o gymharu â gwerth y darpariaethau a ddefnyddiwyd neu a adferwyd. Mae'r symudiadau hyn wedi digwydd ar draws ystod o fathau o ddarpariaeth.

Gostyngodd gwerth rhwymedigaethau anghyfredol £862.9 miliwn, o £938.0 miliwn yn 2021-22 i £75.1 miliwn yn 2022-23. Sbardunwyd hyn gan ostyngiad yn y rhwymedigaeth bensiwn net yn dilyn cyfradd ddisgownt uwch a gymhwyswyd ym mhrisiadau IAS 19. Er bod ymadael yr Undeb Ewropeaidd wedi cael effaith sylweddol ar lawer o sefydliadau sector cyhoeddus yn ystod 2021-22 a 2022-23, nid yw wedi cael yr un effaith ar y sefydliad hwn. Nid oes unrhyw wariant ychwanegol sylweddol wedi'i achosi o ganlyniad i'r digwyddiad hwn.

Sicrhau Effeithlonrwydd a Buddion

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i fod yn ymrwymedig yn ei Gynllun Strategol 2022-2027 i ddarparu buddion ac arbedion effeithlonrwydd y gellir eu profi a'u mesur i'w hailfuddsoddi lle byddant yn cael

yr effaith fwyaf ar ein hamcanion er budd holl randdeiliaid y sector rheilffyrdd. Mae'r ymrwymiad hwn yn adeiladu ar y ddarpariaeth o dros £36 miliwn o arbedion ariannol dros y chwe blynedd diwethaf. Mae ein partneriaid a'r cyhoedd eisiau bod yn hyderus y byddwn yn defnyddio ein cyllideb yn effeithlon a'n bod yn dangos y gallwn ddarparu gwerth am arian wrth ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i gydnabod ei sefyllfa o ran gwella'r heriau cyllidol a gweithredol y mae'r diwydiant rheilffyrdd yn eu hwynebu.

Er mwyn galluogi hyn, mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi datblygu rhaglen newid uchelgeisiol 'A Force on the Move', a fydd yn ysgogi gwelliannau effeithlonrwydd, cynhyrchiant, perfformiad a llesiant wedi'u hybu gan ailfuddsoddiadau arbed cyn i ni wario. Mae hyn wedi cynnwys adolygiadau strwythurol o haenau a rhychwantau rheoli a'n gallu gwrthderfysgaeth yn dilyn archwiliad dan arweiniad Syr Mark Rowley mewn rhinwedd annibynnol.

Bydd y rhaglen hon yn ymdrechu i gydweithio â phartneriaid yn y diwydiant drwy fanteisio ar dechnoleg newydd a rhannu data'n rhagweithiol i sicrhau bod ein dull gweithredu ar y cyd wedi'i dargedu ac yn effeithiol. Mae'r Heddlu wedi parhau i herio aneffeithlonrwydd, gan sicrhau bod 'pob ceiniog yn cyfrif' tuag at ein nodau strategol, gan gynnwys archwilio ein darpariaeth hyfforddiant a gwasanaethau cyfreithiol, gan gynhyrchu gostyngiadau cost o tua £0.5 miliwn. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig hefyd wedi sicrhau dros £1 miliwn o arbedion drwy symud ystadau strategol i Baskerville House yn Birmingham ac ailstrwythuro ein maes gallu Cynllunio Dyletswyddau a Digwyddiadau.



Mae meysydd cynnydd allweddol eleni yn cynnwys y canlynol:

Gwelliannau Digidol

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi rhoi ystod o ddatblygiadau gallu technoleg ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion a'n cynlluniau plismona. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o welliannau plismona rheng flaen ystwyth sy'n galluogi swyddogion i gofnodi digwyddiadau wrth symud ac ychwanegu at ymateb cydgysylltiedig, defnyddio mwy o welliannau i gymwysu iPatrol symudol i gynnal amlygrwydd, cael mynediad i system rheoli troseddau'r Alban, a manteisio ar swyddogaeth geoleoli symudol, gan ddarparu data lleoliad-benodol i swyddogion er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r sefyllfa a gwneud y gorau o osodiadau. I gyd-fynd â hyn, rydym wedi cychwyn rhaglen amnewid fideo a wisgir ar y corff gyda chamerau 5G wedi'u gosod ar gyfer swyddogion, cwnstabiiliaid gwirfoddol a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n cefnogi proffil cynyddol ein swyddogion.

O fewn ein Trefn Troseddu a Diogelu, rydym wedi cyflwyno ap Railway Guardian, sy'n hanfodol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, ac rydym wedi sicrhau mynediad i'r Gronfa Ddata Delweddau Cam-drin Plant (CAID) i wella ein gallu ymchwilio. Yn ogystal, rydym

wedi cwblhau gweithredu modiwl NICHE Property, a oedd yn integreiddio rheoli tystiolaeth o fewn ein system cofnodion trosedd mewn swydd, gan symud i ffwrdd o system annibynnol. Cyflawnwyd hyn i gyd ochr yn ochr â Fixing the Fundamentals i ddarparu Adran Dechnoleg wedi'i hailstrwythuro sy'n addas i'r diben.

Trydaneiddio'r Fflyd

Mae'r Heddlu wedi parhau i fabwysiadu'r ymgyrch i drydaneiddio'r fflyd yn gynnar yn unol ag uchelgeisiau ynni gwyrdd Llywodraeth y DU. Ledled y wlad, mae gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig bellach 85 o gerbydau trydan yn trosglwyddo i wasanaeth o ddiwedd Rhagfyr 2022 yn unol â tharged y Llywodraeth i 25% o'n fflyd fod yn drydanol erbyn hyn. Rydym hefyd wedi bod yn rhagweithiol wrth ddatblygu ein seilwaith gwefru i gefnogi'r fflyd cerbydau trydan gyda dau safle a deg pwynt gwefru eisoes wedi'u sicrhau a chwe safle arall wedi'u hamserlennu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Fel rhan o'r fenter hon i gyflymu ein trosglwyddiad i fflyd werdd, rydym hefyd wedi sefydlu ysgol hyfforddi gyrwyr, sydd wedi hybu cyfle i gynhyrchu incwm trwy ddarparu hyfforddiant i heddluoedd partner. Yn ogystal, mae Bwrdd Gweithredol yr Heddlu wedi cymeradwyo Cynllun Aberthu Cyflog Cerbydau Trydan ar gyfer holl weithwyr yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a fydd yn mynd yn fyw yn 2023-24.

Ffyrdd Newydd o Weithio

Mae dadansoddiad manwl o'r cyfleoedd sy'n deillio o gynnig dull gweithio hyblyg o ran sut mae ein staff heddlu yn cyflawni eu gwaith wedi pennu ystod eang o fanteision cynaliadwy. O safbwynt llesiant, mae ein Harolwg Pobl 2022 wedi nodi bod carfan argyhoeddiadol o'n staff heddlu yn cytuno eu bod yn gallu cyflawni eu rôl wrth gynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith ac yn credu eu bod yn cael eu cefnogi'n wirioneddol pan ofynnir am weithio hyblyg. Mae manteision i'n maes recriwtio a chadw wedi gweld ehangu ein tirlun dyrchafiadau staff yn genedlaethol a gostyngiadau mewn trosiant staff. Mae'r sefydliad hefyd wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn diwrnodau dyletswydd a gollwyd oherwydd salwch a gwylliau arbennig, sy'n dangos sut y gall y ffyrdd newydd o weithio ddatgloi gwelliannau cynhyrchiant. Mae ein parhad busnes wedi'i wella, gyda gostyngiad o 39% ers 2019 yn nifer yr hawliadau sy'n ymwneud â chyflyrau cyhyrsgerberbydol oherwydd gwaith swyddfa. Bydd yr Heddlu yn parhau i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio fel thema allweddol drwy gydol 'A Force on the Move' dros y blynnyddoedd i ddod.

ADRODDIAD ARIANNOL

ADRODDIAD CYNALADWYEDD

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Awdurdod wedi ymrwmo i gyflawni carbon sero net erbyn 2035¹. Mae'n elfen allweddol o Gynllun Strategol 2022-2027 ac fe'i cefnogir gan Strategaeth Carbon Sero Net 2022-2035, a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2022.

Yr elfennau allweddol a nodir yn y strategaeth i gyflawni hyn yw fel a ganlyn:

- Casglu, mesur, dilysu ac adrodd data: deall a monitro'r effaith yn erbyn llinell sylfaen o ddata 2019
- Grymuso personol a chyfraniadau: i osod carbon sero net / cynaliadwyedd wrth wraidd yr hyn a wnawn
- Mentrau cyflawni: y ffocws yn ystod 2022-23 fu rhoi'r strategaeth ar waith gyda chyfres o fentrau, gan gynnwys trosi'r fflyd ceir yn rhannol yn gerbydau trydan llawn, newid i gyflenwad trydan glân, lleihau maint yr ystad a datgarboneiddio cynlluniau i uwchraddio adeiladwaith adeiladau, ac adolygu ein darpariaeth lifrai trwy gyrchu cynhyrchion newydd o ffatrioedd carbon sero net a chynlluniau ailgylchu i aildddefnyddio a dim byd i safleoedd tirlenwi.

¹ Mae targedau dros dro wedi'u gosod, yn unol â'r Protocol Nwyon Tŷ Gwydr, ar gyfer allyriadau Cwmpas 1 a 2 i gyflawni sero carbon net erbyn 2030 gydag allyriadau Cwmpas 3 erbyn 2035. Yn dilyn targed 2035, gosodir targedau pellach i gyflawni'r gostyngiadau mwyaf erbyn 2050 i leihau'r ddibyniaeth ar nitrileiddio carbon er mwyn sicrhau y gellir cynnal carbon sero net ymhell i'r dyfodol.

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi dewis 2019 fel y flwyddyn sylfaen i adrodd yn ei herbyn, gan nad yw data 2020 a 2021 yn adlewyrchu blwyddyn weithredol arferol ac mae data cadarn a chywir ar gael ar gyfer 2019 i'w gymharu ag ef. Mae meddalwedd arbenigol i awtomeiddio'r gwaith o olrhain a mesur ein hól troed carbon wedi'i chaffael ac mae'r broses weithredu ar waith gydag adroddiadau llawn erbyn hydref 2023.

Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth	Llinell sylfaen 2019-20	Targed gweithredol hyd at 2030 – Cwmpas 1/2 2035 – Cwmpas 3	Perfformiad gweithredol		Gostyngiad o'r llinell sylfaen	Gwariant gros 2022-23
			2021/22	2022/23		

Allyriadau nwyon tŷ gwydr (tunelli/CO₂)

Cwmpas 1 – Ynni uniongyrchol	4,101 tCO ₂ e	-46.2%	Amherthnasol	Amherthnasol	2022-23 fydd yr ail-fesur cyntaf gyda'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn hydref 2023. Adroddir ar hyn yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24	£77,999
Cwmpas 2 – Ynni anuniongyrchol	8,209 tCO ₂ e	-46.2%	Amherthnasol	Amherthnasol		£1,205,279
Cwmpas 3 – Teithio, fflyd, cyflenwyr, staff yn cymudo	11,080 tCO ₂ e	-67.2%	Amherthnasol	Amherthnasol		£72,268,819
Gwariant gwastraff	173t	<10%	118t	108t	-38%	£352,820
Dŵr (m ³ /FTE)	3.24m ³	<4-6m ³	2.07m ³	2.03m ³	-37%	£44,830
Papur (cyfwerth â rimiau A4)	19,778	-50%	8,241	9,453	-52%	N/A

Mae cwmpas yr adroddiad cynaliadwyedd hwn yn cynnwys gweithrediadau, gan gynnwys rhagamcanion ar gyfer Cwmpas 1 a 2 lle mae gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig adeiladau a ddarperir gan Trafnidiaeth Llundain a phob adeilad lle rydym yn talu taliadau heb fesurydd.

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn parhau i leihau o fewn ystad yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gyda llawer o fentrau'r strategaeth yn cael eu cyflawni'n gyflym. Yn ogystal, mae targed Fflyd Werdd y Llywodraeth o 25% o'r fflyd ceir i fod yn ddi-allyriadau erbyn Rhagfyr 2022 wedi'i ragori ac yn sefyll ar 29%; bydd y fenter hon yn unig yn lleihau allyriadau carbon 1,122 tunnell o CO₂ y flwyddyn.

Mae ein hystâd wedi cyfrannu'n fawr at leihau allyriadau carbon eleni. Rydym wedi gallu adleoli i eiddo llai yn Birmingham oherwydd gweithredu polisi gweithio ystwyth, sydd wedi arwain at arbediad carbon blynyddol o 180 tunnell o CO₂e.

Ar gyfer yr ystad sy'n weddill, mae gennym gynllun deng mlynedd i ddatgarboneiddio adeiladau trwy newid i oleuadau LED fel safon yn ystod gwaith adnewyddu, cynllun amnewid LED cyfan ar gyfer yr ystad sy'n weddill, ac ystod o fentrau tymor hwy megis ailosod boeleri

tanwydd ffosil, gosod araeau ffotofoltäig solar, ac uwchraddio adeiladwaith adeiladau lle bo'n berthnasol.

Gwastraff

Mae'r contract gyda Total Facilities Management (TFM) yn cwmpasu'r gwaith o gasglu a gwaredu gwastraff ar 10% o safleoedd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (er bod y rhain yn cynrychioli 39% o gyfanswm yr arwynebedd); mae'r landlord yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff ar gyfer gweddill y safleoedd. O'r gwarediad a adroddwyd, mae 108 tunnell (llai na 6%) yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi.

Dŵr

Mae'r defnydd o ddŵr yn parhau i fod yn is na'r targed gwreithredol o 4-6m³, ac mae 2m³ wedi'i gyflawni ar gyfer 2022-23. Nid yw'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi gweithredu unrhyw gynlluniau lleihau, a chredir bod y lefel is yn adlewyrchu deiliadaeth is yn y safleoedd gyda dŵr mesuredig. Disgwylir i'r duedd hon barhau

ar i lawr wrth i adleoli ystadau arbed lle a chyfleustodau, e.e. adleoli pencadlys yr Heddlu yn 2024. Y gostyngiad blynyddol presennol yw 37% yn erbyn llinell sylfaen y defnydd.

Papur

Mae defnydd papur yn parhau i fod yn is na'r targed gweithredol o <50% yn erbyn llinell sylfaen 2019, gyda gostyngiad blynyddol o 52% ar gyfer y flwyddyn 2022-23. Rydym yn parhau â'n symudiad tuag at fwy o brosesau digidol, gan gadw'r defnydd o bapur i'r lleiaf posibl, ac rydym wedi sicrhau mai dim ond papur o ffynonellau cynaliadwy y gellir ei archebu trwy ein cyflenwr deunydd ysgrifennu. Disgwylir i'r perfformiad hwn gael ei gynnal ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Teithio – Fflyd Ceir

Ar hyn o bryd, mae gan fflyd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 556 o gerbydau ac mae 290 o'r rhain yn geir. Mae cyfanswm o 85 o geir bellach yn gwbl drydanol, sy'n fwy na tharged Fflyd Werdd y Llywodraeth o 25% o'r fflyd ceir i fod yn ddi-allyriadau erbyn mis Rhagfyr 2022. Bydd hyn yn arwain at arbediad blynyddol o 1,122 tunnell o CO₂. Uchelgais yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yw i weddill y fflyd symud drosodd i gerbydau trydan erbyn targed 2027 Llywodraeth y DU.

Hedfan Domestig

Yn ystod 2022-23, cymerwyd cyfanswm o 75 o hediadau domestig (2021-22: 74 o hediadau) ac mae'n cyfateb i 27% o linell sylfaen 2019-20, sydd eto'n llawer mwy na'r gostyngiad sydd ei angen. Ni chynhaliwyd unrhyw hediadau rhyngwladol.

Addasiadau newid hinsawdd

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i fod heb unrhyw leoliadau lle mae angen addasu i newid hinsawdd. Mae safleoedd yn parhau i gael eu hasesu o ran risg o ran bod yn agored i lifogydd, ac mae ffactorau o'r fath yn cael eu hystyried wrth gynllunio parhad busnes. Mae addasu i'r newid yn yr hinsawdd wedi'i wreiddio o fewn prosesau llywodraethu, gwneud penderfyniadau a sicrwydd cyffredinol a chaiff canllawiau ac ystyriaethau sero net eu cynnwys mewn achosion busnes lle bo'n berthnasol fel rhywbeth arferol.

Caffael Cynaliadwy

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cymhwyso'r defnydd o Safonau Prynu'r Llywodraeth a rheoli effeithiau cadwyni cyflenwi, fel sy'n ofynnol gan Ymrwymadau Gwyrddu'r Llywodraeth. Rydym wedi mabwysiadu gofyniad Swyddfa'r Cabinet i bob cwmni sy'n gwneud cais am contractau'r llywodraeth gwerth mwy na £5 miliwn y flwyddyn ymrwymo i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050, a gostyngodd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig y trothwy lle bu'n ofynnol i gyflenwyr gadarnhau eu hymrwymiad mewn cystadlaethau o fwy na £0.5 miliwn i garbon sero net a chael strategaeth ar waith erbyn 2025.

Mae newid darpariaeth trydan i ffynonellau ynni glân adnewyddadwy ar fin digwydd ac rydym wedi cydweithio â chyflenwyr i ddarparu cynhyrchion carbon sero net o ffynonellau cynaliadwy, e.e. mae lifrai wedi'i chynhyrchu o ddeunyddiau adnewyddadwy, wedi'u hailgylchu a chynaliadwy, dim lifrai i safleoedd tirlenwi, a menter ailgylchu i aildefnyddio i gyd wedi'u cyflwyno. Rydym wedi newid cyflenwadau swyddfa i fod o ffynonellau cynaliadwy ac wedi cyflwyno categori gwobr cyflenwr cynaliadwy flynyddol yn y gwobrau 'Ni ar ein Gorau' i gydnabod y cyflenwr sydd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf i gefnogi'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ein taith i garbon sero net.

Caffael gwasanaethau bwyd ac arlwy

Mae caffael gwasanaethau bwyd ac arlwy yn dod o dan y contract gyda TFM. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i fodloni Safonau Prynu'r Llywodraeth a hysbysebu tendrau i fusnesau bach a chanolig i ddileu rhwystrau o'r gadwyn gyflenwi er mwyn caniatáu ar gyfer cystadleuaeth.

Cefnogi staff, recriwtio a dysgu

Er mwyn cynnwys ein pobl ar y daith i garbon sero net, rydym wedi rhoi ymgyrch gyfathrebu fewnol ar waith er mwyn creu ymgysylltu, codi ymwybyddiaeth a rhannu cynnydd. Mae hyn i'w gefnogi trwy greu a chyflwyno pecyn cynaliadwyedd, dysgu ac ymwybyddiaeth ochr yn ochr â grŵp o arwyr sero net a fydd yn hidlo negeseuon. Rydym wedi cyflwyno cynllun aberthu cyflog fel bod gan yr holl staff



a swyddogion y cyfle i gael mynediad at ffordd dreth-ffeithlon i brynu amrywiaeth o gerbydau trydan. Mae pob swydd wag allanol a mewnol bellach yn cynnwys ein negeseuon strategaeth i ddangos ein hymrwymiad i ddod yn sefydliad sero net.

Adeiladu cynaliadwy

Nid yw'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi cynnal unrhyw waith adnewyddu mawr yn ystod 2022-23 ond mae yn y camau cynllunio i adleoli Hwb Llundain. Er mai'r landlord sy'n gyfrifol am y gwaith adnewyddu, ymgynghorir yn llawn â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, ac mae'r holl ffactorau cynaliadwyedd a charbon sero net wedi'u cynnwys yn y cynlluniau.

Mae'n ofynnol i gyflenwyr gydymffurfio ag ISO 14001, sy'n mapio system rheoli amgylcheddol effeithiol sy'n rhoi sicrwydd bod effaith amgylcheddol yn cael ei mesur a'i gwella. Mewn perthynas â ffynonellau

moesegol, dilynwyd gofyniad gennym sydd yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid cadwyn gyflenwi ddangos tystiolaeth o arferion cyrchu moesegol trwy ddarparu ardystiad ffurfiol a gweithdrefnau ategol. Pan gânt eu dosbarthu, rhaid i gyflenwyr ddarparu ardystiad wedi'i ddilysu ar gyfer cynhyrchion – er enghraifft, pren a gymeradwywyd gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd.

Hugh Ind

Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad

17 Gorffennaf 2023



ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Adroddiad Y Cyfarwyddwyr

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog
Cyfrifyddu

Datganiad llywodraethu

Prif risgiau ac elfennau ansicrwydd

ADRODDIAD TÂL CYDNABYDDIAETH

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD SENEDDOL AC ARCHWILIO

Colledion / taliadau arbennig

Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac
Archwilydd Cyffredinol Dau Dŷ'r Senedd



ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Aelodau'r Awdurdod:

**RON BARCLAY-SMITH**
Chair

Ailbenodwyd 5 Mawrth 2022 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod yr Heddlu: Cadeirydd
- Pwyllgor Penodiadau, Tâl
Cydnabyddiaeth ac Arfarnu: Cadeirydd

Penodiadau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig: Aelod o'r Tribiwnlys Rheoleiddio
- Pitteadie Castle Ltd: Cyfarwyddwr a Chydberchennog

**BILL MATTHEWS**

Ailbenodwyd 31 Hydref 2019 gyda thymor o dair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Daeth y tymor i ben 30 Ebrill 2023.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban: Cadeirydd
- Gweithgor Pensiynau: Cadeirydd

Penodiadau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Cofrestr Genedlaethol yr Alban: Cynghorydd Anweithredol
- Hunan-gyflogedig: Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA) a'r Cyngor Meithrin a Bydwreigiaeth (NCM)
- Bwrdd Unedol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu: Aelod Anweithredol
- Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol yr Alban: Cadeirydd
- Ymddiriedolaeth Dyfodol yr Alban: Cyfarwyddwr
- Redress Scotland: Cadeirydd Dros Dro



BEVERLEY SHEARS

Penodwyd 26 Ionawr 2017 gydag estyniad o dri mis wedi'i ganiatáu. Ailbenodwyd 3 Ebrill 2020 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Perfformiad a Chyflawni
- Gweithgor Pensiynau
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant: Cadeirydd

- Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid (o Chwefror 2023)

Penodiadau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Anglia: Cyfarwyddwr Anweithredol a Dirprwy Gadeirydd
- Prifysgol De Montfort: Llywodraethwr Annibynnol
- De Montfort University Students' Union DSU Ltd: Cyfarwyddwr
- Blue Amaranth Consulting Ltd: Perchennog



MARTIN RICHARDS

Penodwyd 26 Ionawr 2017 gydag estyniad o dri mis wedi'i ganiatáu. Ailbenodwyd 11 Mawrth 2021 gyda thymor o ddwy flynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Daeth y tymor i ben 25 Ionawr 2023.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod yr Heddlu
- Gweithgor Cynllun Plismona: Cadeirydd
- Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: Cadeirydd (tan Ionawr 2023)
- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio

- Pwyllgor Penodiadau, Tâl Cydnabyddiaeth ac Arfarnu
- Panel Adolygu Cwynion

Penodiadau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Ymddiriedolaeth Partneriaeth Iechyd Meddwl Sussex: Cyfarwyddwr
- Esgobaeth Chichester: Cyfarwyddwr (Diogelu)
- Sussex Cricket Limited: Aelod Bwrdd (Di-dâl)
- Mentoriaid Elusen Sussex: Ymddiriedolwr (Di-dâl)



WILLIE GALLAGHER

Penodwyd 26 Ionawr 2017 gydag estyniad o dri mis wedi'i ganiatáu. Ailbenodwyd 11 Mawrth 2021 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod yr HeddluGweithgor

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: Cadeirydd (o Ionawr 2023)Pwyllgor Perfformiad a Chyflawni

- Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban

Penodiadau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- TSL Scotland Ltd: Cyfarwyddwr
- PWE Solutions Ltd: Cyfarwyddwr



ANDREW COOPER

Penodwyd 20 Mai 2019 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Penodwyd Dirprwy Gadeirydd Dros Dro ar 1 Rhagfyr 2020 am dymor o flwyddyn. Estynnodd penodiad y Dirprwy Gadeirydd Dros Dro chwe mis arall, tan 31 Mai 2022, ac yna ei ymestyn ymhellach i 19 Mai 2023. Ailbenodwyd 20 Mai 2023 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis, gan gynnwys estyniad fel Dirprwy Gadeirydd Dros Dro i 30 Medi 2023.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio: Cadeirydd
- Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid (o Chwefror 2023)

Penodiadau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Permanent Way Institution Ltd: Cyfarwyddwr Anweithredol (dim tâl cydnabyddiaeth)



GRAHAM EVANS

Penodwyd 20 Mai 2019 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Gadawodd 29 Rhagfyr 2022.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

- Pwyllgor Perfformiad a Chyflawni

Penodiadau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- UKHospitality: Uwch-gwnsler (contractiwr nid gweithiwr)
- Parkdean-Resorts Ltd: Uwch-gwnsler (contractiwr nid gweithiwr)
- GTE Consultants: Cyfarwyddwr
- Political Insight UK Ltd: Cyfarwyddwr



KENNA KINTREA

Penodwyd 20 Mai 2019 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Ailbenodwyd 20 Mai 2023 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: Cadeirydd

- Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban
- Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid (o Chwefror 2023)

Penodiadau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Akroa Ltd: Perchennog ac unig gyfarwyddwr
- NNB Generation Company (HPC) Limited: Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol



SYR CRAIG MACKAY

Penodwyd 20 Mai 2019 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Ailbenodwyd 20 Mai 2023 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Perfformiad a Chyflawni: Cadeirydd
- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio

Penodiadau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil: Cadeirydd Dros Dro (tan Ragfyr 2022), Aelod Annibynnol (o Ionawr 2023)
- Awdurdod Heddlu Dinas Llundain: Aelod Annibynnol
- CTM Strategy and Consulting Ltd: Cyfarwyddwr (Busnes ar raddfa fach – gwaith ymgynghorol)



FIONA BRUNSKILL

Penodwyd ar 23 Chwefror 2022 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Penodiadau, Tâl Cydnabyddiaeth ac Arfarnu

- Gweithgor Pensiynau
- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio: Dirprwy Gadeirydd

Penodiadau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Trafnidiaeth Llundain: Cyfarwyddwr, Pobl a Newid Diwylliannol (hyd at Hydref 2022), Cyfarwyddwr Prif Swyddog Pobl Dros Dro (o Hydref 2022)



EMIR FEISAL

Penodwyd ar 28 Chwefror 2022 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod yr Heddlu
- Archwilio a Sicrwydd Risg: Dirprwy Gadeirydd
- Gweithgor Pensiynau
- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio

Penodiadau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- YMCA London City & North: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (Rhan Amser)
- Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron: Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Archwilio
- Bwrdd Safonau'r Bar: Cyfarwyddwr Anweithredol
- Yr Ombwdsmon Pensiynau: Cyfarwyddwr Anweithredol
- Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau, Berkeley House: Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Archwilio

- Y Swyddfa Twyll Difrifol: Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Archwilio (tan Awst 2022)
- Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Archwilio (o Ebrill 2023)
- Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, Clive House: Comisiynydd
- Pwyllgor Anrhydeddau Gwasanaeth Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet: Aelod pwyllgor
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Ynad, a Barnwr y Llys Teulu
- Elusen Henry Smith: Ymddiriedolwr a Chadeirydd yr Is-bwyllgor Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol: Aelod o'r Panel Disgyblu
- Gwobr y Frenhines am Wasanaethau Gwirfoddol: Aelod o'r Pwyllgor (tan Awst 2022)
- Abaty Wycombe, Ysgol Merched Annibynnol: Llywodraethwr (o fis Rhagfyr 2022)
- Ymddiriedolaeth Greenseas: Ysgrifennydd Cwmni



MIKE GALLOP

Penodwyd ar 23 Chwefror 2022 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Gadawodd 14 Ionawr 2023.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Perfformiad a Chyflawni:

Dirprwy Gadeirydd

- Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: Dirprwy Gadeirydd
- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio

Penodiadau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Network Rail Infrastructure Ltd: Cyfarwyddwr Llwybr: Llwybr Gorllewinol



NICK HAWKINS

Penodwyd ar 28 Chwefror 2022 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Penodiadau, Tâl Cydnabyddiaeth ac Arfarnu
- Panel Adolygu Cwynion
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant: Dirprwy Gadeirydd

Penodiadau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau: Cadeirydd Cymhwyster Cyfreithiol Rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr, Rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr a Rhanbarth De-ddwyrain Lloegr
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig: Cadeirydd Lleyg ac Aelod, Tribiwnlys Rheoleiddio
- Anghytundebau Chwaraeon: Cyflafareddwr Cyfreithiol (y telir ffi iddo)
- Siambrau Normanton: Bargyfreithiwr (hunangyflogedig fel tenant mewn siambrau)
- The Hawkins Consultancy Ltd: Cyfarwyddwr
- Cymdeithas Chwaraeon TRUSTEESHIP UK ar gyfer Pobl ag Anabledd Dysgu: Gwirfoddol



ARGLWYDD STEWART JACKSON

Penodwyd ar 28 Chwefror 2022 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Panel Adolygu Cwynion
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Penodiadau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Arglwydd sy'n Gweithio yn Nhŷ'r Arglwyddi, Arglwydd Oes: Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Jackson o Peterborough
- Yr Adran Drafnidiaeth: Comisiynydd Preswylwyr annibynnol HS2 (o Ebrill 2022)
- Elusen Wheelpower: Cadeirydd, Pwyllgor Codi Arian a Marchnata
- Regen Aspire Limited: Cyfarwyddwr
- UK Political Insight Ltd: Cyfarwyddwr a Chadeirydd Anweithredol

Swyddogion yr Awdurdod

Prif Swyddog Gweithredol - Hugh Ind

Prif Swyddog Ariannol a Thrysorydd - Sarah Church

Prif Swyddog Ariannol a Thrysorydd (dros dro o Awst 2022) - Rubeela Qayyum

Grŵp Prif Swyddogion yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Prif Gwnstabl - Lucy D'Orsi CVO QPM

Dirprwy Brif Gwnstabl - Alistair Sutherland QPM

Prif Gwnstabl Cynorthwyol: Cyswllt Cyhoeddus a Throseddau Arbenigol - Charlie Doyle

Prif Gwnstabl Cynorthwyol: Gweithrediadau Arbenigol - Sean O'Callaghan

Prif Gwnstabl Cynorthwyol: Plismona Rhwydwaith (penodiad parhaol Mawrth 2023 yn dilyn penodiad dros dro i'r rôl ym mis Awst 2021) - Allan Gregory

Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Masnachol - Tracey Martin

Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant - Rachael Etebar

Trefniadau pensiwn

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn dilyn IAS 19: Buddion Cyflogaeth, sydd wedi arwain at gofnodi rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ("cynllun Swyddogion Heddlu") ac Adran Costau a Rennir yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o'r Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd ("cynllun Staff") ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Cyfeiriwch at nodyn 23 am ddatgeliad pellach sy'n ymwneud â'r ddau gynllun pensiwn. Cyfeiriwch at nodyn 2.19 ar gyfer polisi cyfrifyddu Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer pensiynau.

Cynhaliwyd prisiad llawn diwethaf y cynllun Swyddogion Heddlu ar 31 Rhagfyr 2021. Roedd ganddo sylfaen asedau o £1,746 miliwn a lefel ariannu Darpariaethau Technegol o 104%.

Cynhaliwyd prisiad llawn ddiwethaf y cynllun Staff ar 31 Rhagfyr 2019. Roedd ganddo sylfaen asedau o £191.5 miliwn a lefel ariannu Darpariaethau Technegol o 103%. Roedd lefel ariannu seiliedig ar reolau o 97%.

Twyll, llwgrwobrwyo a llygredd

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn dilyn Safonau Gweithredol Atal Twyll Swyddfa'r Cabinet ac yn cymryd agwedd dim goddefgarwch os bydd unrhyw dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd. Ymchwiliir yn egniol i unrhyw achosion a amheuir o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd yn unol â Pholisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae'r polisi ar gael i'w ddarllen ar wefan Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Yn unol ag arferion gorau, mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Awdurdod yn rhagweithiol wrth atal a chanfod twyll, llwgrwobrwyo a llygredd, gan ddefnyddio asesiadau risg i bennu ffrydiau gwaith a meysydd ffocws.

Mae gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Awdurdod bolisi chwythu'r chwiban sydd wedi cael cyhoedduswydd da. Mae mecanwaith dienw lle gall gweithwyr roi gwybod am unrhyw amheuron neu bryderon. Cyflwynir adroddiadau chwythu'r chwiban i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Archwilwyr

Mae cyfrifon Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003. Cost yr archwiliad yw £143,500 (2021-22: £127,000). Mae'r gwaith o ddarparu'r archwiliad hwn wedi'i is-gontractio'n rhannol i KPMG LLP. Ni wnaeth KPMG LLP na'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol unrhyw waith nad oedd yn waith archwilio ar gyfer Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (2021-22: £dim).

Cyn belled ag y gŵyr y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae'r holl wybodaeth archwilio berthnasol ar gael i'r archwilwyr. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam angenrheidiol i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Datgeliadau Seneddol Eraill

Yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin ym mis Chwefror 2022, mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi gweld cynnydd mewn costau tanwydd a chyfleustodau yn ogystal ag aflonyddwch yn y gadwyn gyflenwi, a disgwylir i ansicrwydd economaidd sylweddol barhau trwy gydol 2023-24.

Digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau i'w hadrodd. Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar ddyddiad llofnod y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.



Hugh Ind

Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad
17 Gorffennaf 2023



ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

O dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth wedi cyfarwyddo Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail cronïadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac o'i incwm, gwariant, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gwneud fel a ganlyn yn benodol:

- Cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol

- Datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u hamlinellir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes parhaus
- Cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r Adran Drafnidiaeth wedi dynodi'r Prif Swyddog Gweithredol yn Swyddog Cyfrifyddu Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Yn ogystal, mae'r Prif Swyddog Gweithredol, gyda chytundeb yr Adran Drafnidiaeth, wedi penodi'r Prif Gwnstabl yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, i fod yn atebol am yr adnoddau a ddaw o dan ei rheolaeth. Nid yw'r penodiad hwn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Mae gan y Prif Gwnstabl gyfrifoldeb statudol am gyfeiriad a rheolaeth yr Heddlu ac mae'n ofynnol iddi ystyried y cynlluniau a'r strategaethau a gyhoeddir gan yr Awdurdod. Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod yn nodi'r berthynas rhwng cyfrifoldebau statudol a chyfraith gyffredin y Prif Gwnstabl, annibyniaeth mewn materion plismona, a chyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli a gwariant yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, a chyfrifoldeb ar y cyd am baratoi'r cyfrifon hyn. Mae'r penodiad hwn yn adlewyrchu'r ymreolaeth a roddir gan

Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wrth wario'r gyllideb a roddwyd iddo gan yr Awdurdod, ac annibyniaeth lawn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig mewn materion plismona. Fodd bynnag, rôl Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o hyd yw arfer goruchwyliaeth briodol o'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, ac nid yw'r penodiad yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Swyddog Gweithredol fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y cyfrifon.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir, a diogelu asedau Awdurdod yr Heddlu

Trafnidiaeth Prydeinig, fel y nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus, sef dogfen a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni. Rwy'n fodlon bod y cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.



ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

DATGANIAD LLYWODRAETHU

Cyflwyniad y Swyddog Cyfrifyddu i lywodraethu corfforaethol

Fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, rwy'n gyfrifol am gynnal system gref o lywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, wrth ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r dyletswyddau a roddwyd i mi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth.

Penodir y Prif Gwnstabl yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol gyda chyfrifoldeb am gyllideb yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, trafodion, a materion cysylltiedig yn ymwneud â rheolaeth ariannol, polisïau, nodau ac amcanion yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Fel Corff Hyd Braich yr Adran Drafnidiaeth, mae Cadeirydd a Thîm Gweithredol Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion. Mae gan yr Awdurdod a'r Prif Gwnstabl fynediad at y tîm Gweinidogol, i drafod plismona a strategaeth.

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ymdrechu i wella llywodraethu yn barhaus, i sicrhau bod ein dyletswyddau i gyflawni trosolwg o'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn effeithiol a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn adeiladol, mewn diwylliant sy'n meithrin didwylledd a thrafodaeth. Caiff hyn ei ailadrodd yn strwythur llywodraethu'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac mae gweithio effeithiol rhwng y ddau sefydliad. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi cefnogi gwelliant parhaus o ran adrodd i bwyllgorau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae'r ddau sefydliad wedi cydweithio'n agos i ddeall a monitro risgiau strategol. Daeth adolygiad o'r

Cod Llywodraethu, sy'n manylu ar lywodraethu rhwng Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, i ben yn ystod y flwyddyn gyda nifer o newidiadau y cytunwyd arnynt rhwng yr Awdurdod a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i gryfhau llywodraethu. Mae'r Cod Llywodraethu presennol ar gael ar wefan Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi parhau i ganolbwyntio ar wella'r diwylliant ac atebolrwydd yn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, gan arwain at fwy o rymuso i weithwyr a pherchenogaeth gryfach ar feysydd allweddol gan uwch-reolwyr. Mae canlyniadau rhai o archwiliadau mewnol yr Heddlu, yn enwedig adolygiad o wydnwch TG a thechnoleg, yn adlewyrchu'r gwelliant hwn. Mae mecanweithiau llywodraethu yn cynnal trosolwg o feysydd i'w gwella ac yn sicrhau bod cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau yn y meysydd hyn.

Mae llywodraethu yn y sector plismona yn fwyfwy hanfodol yng ngoleuni'r craffu cynyddol ar yr amgylchedd allanol yn dilyn rhai adroddiadau cyhoeddus iawn, proffil uchel o fethiannau ledled y DU a chyhoeddi adolygiad y Farwnes Casey ym mis Mawrth 2023. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Awdurdod, trwy eu strwythurau llywodraethu, wedi sicrhau bod meysydd allweddol yn cael eu goruchwyllo'n effeithiol gan bwyllgorau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac uwchreolwyr yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae cyfreithlondeb yn elfen allweddol o'r strategaeth, o ran cynllunio ymlaen llaw a gweithgareddau llywodraethu o ddydd i ddydd. Mae cyfreithlondeb wedi'i wau ym mhob un o bwyllgorau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i sicrhau ei fod yn cael ei ystyried o wahanol safbwyntiau. Cafwyd sicrwydd ynghylch yr ymagwedd at gyfreithlondeb trwy reolaethau'r rheolwyr eu



hunain yn ogystal ag archwiliadau mewnol, a defnyddir y canlyniadau gan reolwyr i sicrhau bod arferion gorau a dysgu gan eraill yn cael eu defnyddio i wella ein prosesau a'n rheolaethau.

Mae tair cyfrol o Ymchwiliad Arena Manceinion bellach wedi'u cyhoeddi. Mae'r rheolwyr yn parhau i fonitro ac adrodd yn erbyn argymhellion yr Ymchwiliad i sicrhau bod ymateb yr Heddlu yn arwain at welliant amlwg. Ar draws yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Awdurdod, mae nod a rennir i leihau'r posibilrwydd y bydd digwyddiadau trasig 22 Mai 2017 yn digwydd eto. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn parhau i ddarparu trosolwg annibynnol, gwrthrychol parhaus o'r ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad. Yn ystod y flwyddyn, comisiynwyd adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer nodi, rheoli a chyflwyno'r gwersi / camau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yng Nghyfrol 1 Ymchwiliad Arena Manceinion.

Yn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, mae sicrwydd a ysgogir gan risg yn allweddol i weithgarwch goruchwyllo effeithiol. Mae rheolaethau mewnol yn destun archwiliadau ar sail risg ar draws y tair llinell amddiffyn. Mae adroddiadau cryfach i fyrdau'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a phwyllgorau Awdurdod yr Heddlu

Trafnidiaeth Prydeinig yn galluogi trafodaethau cydweithredol ar reolaethau mewnol a throsolwg o unrhyw gamau adferol sydd eu hangen. Mae defnyddio archwiliadau dwfn o risgiau strategol wedi hwyluso dealltwriaeth well o'r risgiau sy'n rhoi'r bygythiad mwyaf i'r sefydliad, ac mae'r sicrwydd ar waith i ddilysu bod y prosesau a rheolaethau lliniaru wedi'u cynllunio ac yn gweithredu'n effeithiol.

Bydd risgiau a heriau yn parhau i esblygu yn y flwyddyn i ddod, yn enwedig o ganlyniad i'r amgylchedd economaidd (gan gynnwys effaith rhyfel Wcráin–Rwsia), newidiadau i'r diwydiant rheilffyrdd yn dilyn cynlluniau'r llywodraeth i ddiwygio'r rheilffyrdd, a sylw parhaus gan y cyhoedd a'r cyfryngau ar gyfreithlondeb ac ymddygiad yr heddlu. Bydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio rheolaethau mewnol a mesurau llywodraethu a rheoli risg cryf, a'u haddasu lle bo angen, i sicrhau cydymffurfedd ac atebolrwydd.

Strwythur Llywodraethu ar 31 Mawrth 2023

Yr Awdurdod

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gyfrifol am sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer y rheilffyrdd. Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Tîm Gweithredol yr Awdurdod Mae tîm Gweithredol yr Awdurdod yn cefnogi'r Aelodau drwy wneud y canlynol:

- sicrhau bod prosesau effeithlon ac effeithiol ar waith i fodloni dyletswyddau statudol yr Awdurdod
 - datblygu cynlluniau a strategaethau
- i ategu'r strwythur llywodraethu ffurfiol megis Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
 - darparu swyddogaeth sicrwydd
- bod yn berchen ar y model dyrannu costau a'i redeg i dalu costau plismona

Dyletswyddau Statudol

- Sicrhau y cynhelir heddlu effeithlon ac effeithiol
 - Sicrhau plismona effeithlon ac effeithiol ar y rheilffyrdd
 - Penodi'r Prif Gwnstabl, y Dirprwy Brif Gwnstabl a'r Prif Gwnstabliaid
- Cynorthwyl
 - Gwneud Cytundebau Gwasanaeth Heddlu gyda gweithredwyr rheilffyrdd
 - Cyflogi cwnstabliaid a staff yr heddlu
 - Rheoleiddio llywodraeth, gweinyddiaeth ac amodau'r rhai a
- gyflogir gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
 - Pennu strategaeth, amcanion a chyllideb ar gyfer plismona'r rheilffordd
 - Cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus

Is-bwyllgorau a Grŵp Prif Swyddogion yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Penodiadau, Tâl Cydnabyddiaeth ac Arfarnu

- Cymeradwyo recriwtio uwch-swyddogion yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Phrif Weithredwr a Phrif Swyddog Ariannol Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Monitro perfformiad blynyddol uwch-aelodau staff yn y Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Arwain ar faterion y gweithlu, gan gynnwys amodau gwasanaeth swyddogion, staff a swyddogion gwirfoddol yr heddlu

Plismona Rheilffyrdd yr Alban

- Darparu atebolrwydd a thryloywder ar gyfer plismona'r rheilffyrdd yn yr Alban
- Darparu trosolwg a chraffu ar reolaeth ddiogel ac effeithiol plismona'r rheilffyrdd yn yr Alban
- Asesu ac adrodd i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar werth am arian mewn perthynas â'r elfennau hynny o Gronfa Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a fuddsoddwyd mewn plismona rheilffyrdd yn yr Alban

Audit and Risk Assurance

- Adolygu a chynghori ar faterion sy'n ymwneud ag archwiliad mewnol ac allanol Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Rhoi argymhelliaid i'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu lofnodi'r datganiadau ariannol a'r datganiad llywodraethu
- Cynghori'r Awdurdod ar effeithiolrwydd cynlluniau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu

Gweithgor Pensiynau

- Darparu trosolwg o gynlluniau pensiwn swyddogion heddlu a staff heddlu
- Cymeradwyo argymhellion ar bensiynau i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Perfformiad a Chyflawniad

- Monitro a herio perfformiad gweithredol a busnes a chyflawni cynlluniau strategol a blynyddol

Pobl a Diwylliant

- Goruchwyllo ac arfarnu ymagwedd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig tuag at faterion sy'n ymwneud â phobl, diwylliant, arweinyddiaeth ac ymddygiad

Strategaeth a Chynllunio

- Sicrhau dull integredig o ddatblygu'r Strategaeth, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Cynllun Plismona a'r Gyllideb Flynyddol

Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

- Goruchwyllo a chynghori ar gyfathrebu ac ymgysylltu'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig â diwydiant, y cyhoedd a rhanddeiliaid pwysig eraill yn
- ogystal ag alinio ymgysylltiad rhanddeiliaid yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Awdurdod
 - Goruchwyllo'r gwaith o adnewyddu'r Cynllun Plismona

Panel Adolygu Cwynion

- Adolygu'n annibynnol ymchwiliadau i gwynion sy'n cael eu trin yn lleol gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gais aelod o'r cyhoedd, gan ganolbwyntio ar y modd yr ymdrinwyd â'r gŵyn a chanlyniad y gŵyn ac a oedd hyn yn rhesymol a chymesur
- Ystyried dysgu sefydliadol a thueddiadau sy'n codi

Grŵp Prif Swyddogion yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

- Gosod naws a chyfeiriad strategol ar gyfer yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
 - Gweithredu fel yr uwch-fforwm gwneud penderfyniadau ar gyfer yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
 - Ystyried adroddiadau ar y prif bwyntiau gan fyrdau
- llywodraethu'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a rhoi cymeradwyaeth neu gyfarwyddyd pellach fel y bo'n briodol
 - Ystyried risgiau lefel uchel a champau gweithredu i liniaru risg
 - Darparu trywydd archwilio ar benderfyniadau allweddol

Awdurdod yr Heddlu

Mae'r Awdurdod yn cyfarfod hyd at chwe gwaith y flwyddyn ac mae'n ofynnol iddo wneud penderfyniadau penodol yn unol â'r dyletswyddau statudol a nodir uchod.

Penodir cadeirydd ac aelodau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Daw'r aelodau o blith pobl sydd â phrofiad o'r diwydiant rheilffyrdd, staff y rheilffyrdd, y cyhoedd sy'n teithio, ac eraill sydd â phrofiad dynodedig ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Ni fwriedir i aelodau gynrychioli'r buddiannau hynny ond maent i gyd yn cydweithio ac yn gweithredu fel un corff corfforaethol.

Mae manylion yr aelodau presennol wedi'u cynnwys yn adroddiad y cyfarwyddwyr, gan gyfeirio hefyd at yr is-bwyllgorau y maent yn gwasanaethu arnynt. Mae manylion presenoldeb cyfarfodydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon.

Is-bwyllgorau

Mae'r is-bwyllgorau a restrir isod wedi'u hamserlennu'n ffurfiol drwy gydol y flwyddyn. Nid yw hyn yn ystyried cyfarfodydd pwyllgor arbennig ychwanegol, sesiynau briffio brecwast rheolaidd, sesiynau hyfforddi a sesiynau aelodau yn unig.

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei gadeirio gan Kenna Kintrea. Ar hyn o bryd, mae ganddo bedwar aelod, cyfarfu bum gwaith yn 2022-23, ac ymgwymerodd ag ystod eang o weithgareddau sicrwydd, gan gynnwys goruchwyllo'r canlynol:

- Gweithgareddau rheoli risg a gwrth-dwyll
- Cydymffurfedd ariannol, gan gynnwys paratoi cyfrifon a chydymffurfio â safonau a rheoliadau
- Y rhaglenni archwilio mewnol ac archwilio allanol
- Rhaglen arolygu Arolygiaeth Gwasanaethau Tân ac Achub Cwnstabliaeth Ei Fawrhdy ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhdy yn yr Alban

- Cyflwyno'r Ffurflen Sicrwydd Rheoli i'r Adran Drafnidiaeth
- Goruchwyllo'r gwaith o weithredu'r camau adferol sy'n deillio o archwiliadau, adolygiadau allanol a chyflwyniadau i'r Adran Drafnidiaeth
- Monitro ac asesu cydymffurfedd a pherfformiad yn erbyn dyletswyddau statudol
- Archwiliad dwfn o risgiau ym maes seiber (digwyddodd archwiliadau dwfn o risgiau ym maes technoleg ac ar gyfer digwyddiadau mawr yn 2021-22)

Pwyllgor Penodiadau, Tâl Cydnabyddiaeth ac Arfarnu

Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau, Tâl Cydnabyddiaeth ac Arfarnu yw Ron Barclay-Smith. Ar hyn o bryd, mae ganddo dri aelod, cyfarfu dair gwaith yn 2022-23, ac ystyriodd faterion a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Recriwtio Prif Gwnstabl Cynorthwyl
- Adolygiadau Perfformiad Uwch-swyddogion a Staff

Pwyllgor Perfformiad a Chyflawni

Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad a Chyflawni yw Craig Mackey. Ar hyn o bryd, mae ganddo dri aelod, cyfarfu bedair gwaith yn ystod 2022-23, ac mae'n bodoli i graffu ar gynllun plismona'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a pherfformiad ariannol a masnachol, ynghyd â'i berfformiad ar draws meysydd allweddol cyfreithlondeb. Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd amrywiaeth o faterion sefydlog a thematig fel y'u hamlinellir yn ei gynllun gwaith blynyddol, gan gynnwys:

- Monitro perfformiad y Cynllun Plismona a pherfformiad ariannol a masnachol yn chwarterol
- Monitro cyfreithlondeb yn chwarterol, gan gynnwys arestio, carcharu, defnyddio grym, a stopio a chwilio
- Eitemau thematig ar bynciau, gan gynnwys plismona pêl-droed, stopio a chwilio, carcharu a defnyddio grym, taserau a defnyddio grym
- Archwiliadau dwfn o risgiau ym meysydd cyfreithlondeb ac incwm

Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio

Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio yw Andy Cooper. Ar hyn o bryd, mae ganddo bedwar aelod, cyfarfu bedair gwaith yn ystod 2022-23, ac mae'n bodoli i sicrhau dull integredig o ddatblygu'r Strategaeth, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Cynllun Plismona a'r Gyllideb Flynyddol. Drwy gydol y flwyddyn, ystyriodd y canlynol:

- Hepgor proses Golchi Model Dyrannu Costau 2021-22
- Argymell achosion busnes i'r Awdurdod Llawn, gan gynnwys canolbwynt newydd yn Llundain ac adleoli data Pencadlys y Llu
- Diweddariadau ar raglen drawsnewid A Force on the Move
- Dyrannu taliadau Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu i ddiwydiant ar gyfer 2023-24
- Adolygiad blynyddol o Gynllun Plismona 2022-25
- Peilot Diogelwch a Phlismona Integredig
- Archwiliadau dwfn o risg ym meysydd gweithio mewn partneriaeth a rheoli newid

Goruchwyliodd y pwyllgor hefyd y gwaith o ddatblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/28.

Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban

Cadeirydd Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban oedd Bill Matthews yn ystod 2022-23, a daeth ei dymor i ben ar 30 Ebrill 2023, ac mae bellach yn cael ei gadeirio gan Ron Barclay-Smith. Mae ganddo dri aelod o Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a dau aelod o Awdurdod Heddlu'r Alban (SPA). Cyfarfu bedair gwaith yn 2022-23. Mae'r pwyllgor yn rhoi sicrwydd i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, Awdurdod Heddlu'r Alban a Gweinidogion Llywodraeth yr Alban ynghylch darparu plismona rheilffyrdd yn yr Alban. Drwy gydol y flwyddyn, ystyriodd y canlynol:

- Monitro perfformiad Cynllun Plismona'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn yr Alban yn chwarterol
- Monitro enghreifftiau o gydweithio rhwng yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Heddlu'r Alban yn chwarterol
- Monitro gweithgarwch archwilio ac arolygu'r

Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn chwarterol, gan gyfeirio at yr Alban

- Adolygiad Blynyddol o Gynllun Plismona 2022-25 mewn perthynas â'r Alban
- Eitemau thematig ar gynaliadwyedd / carbon sero net yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, rhaglen drawsnewid A Force on the Move, stopio a chwilio, proffesiynoldeb, a Pholisi Asesu a Dyrannu Troseddau'r Heddlu
- Strategaeth Plismona Bro'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 2022-25
- Ymgysylltu â phartneriaid diwydiant o'r Alban
- Adroddiad gwerth am arian blynyddol ar gyfer yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn yr Alban

Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant yw Bev Shears. Ar hyn o bryd, mae ganddo bedwar aelod. Cyfarfu bum gwaith yn 2022-23 ac ystyriodd amrywiaeth o faterion, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Monitro data perfformiad pobl yn chwarterol
- Proffesiynoldeb
- Strategaeth Pobl 2022-25
- Denu, recriwtio a chadw
- Canlyniadau'r Arolwg Pawb
- Cynllun Gweithlu Strategol
- Dysgu a datblygu
- Dyfarniad cyflog staff a swyddogion heddlu
- Dadansoddiad o fuddiannau gweithio'n hyblyg
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yr Heddlu
- Mentrau i hyrwyddo diwylliant mewnol priodol o fewn yr Heddlu
- Adroddiadau bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd
- Adroddiad Blynyddol ar Adolygiadau o Gŵynion
- Llesiant, iechyd a diogelwch
- Archwiliadau dwfn o risg ym meysydd cyfreithlondeb, recriwtio a chadw, ac iechyd a diogelwch

Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Sefydlwyd y Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar 29 Mehefin 2022 a'i gadeirydd yw Willie Gallagher. Disodlodd y Gweithgor Cynllun Plismona blaenorol, a gadeiriwyd gan Martin Richards. Mae'r Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn adrodd i'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio. Ar hyn o bryd, mae ganddo bedwar aelod a chyfarfu dair gwaith yn 2022-23. Mae'n gyfrifol am oruchwylio a chynghori ar gyfathrebu ac ymgysylltu â diwydiant, y cyhoedd a rhanddeiliaid pwysig eraill gan yr Heddlu a'r Awdurdod, yn ogystal ag unrhyw adnewyddiad o'r Cynllun Plismona.

Gweithgor Pensiynau

Mae'r Gweithgor Pensiynau yn adrodd i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Cafodd ei gadeirio gan Bill Matthews yn ystod 2022-23 ac mae ganddo bedwar aelod ar hyn o bryd. Cyfarfu ddwywaith yn 2022-23. Mae'n gyfrifol am oruchwylio materion pensiwn sy'n ymwneud â'r Heddlu a'r Awdurdod, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i brisiad(au) Cynllun Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu, y cynlluniau eu hunain, a pholisi pensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Panel Adolygu Cwynion

Mae'r Panel Adolygu Cwynion yn bodoli'n annibynnol i adolygu'r modd yr ymdriniwyd â chwynion a chanlyniad y cwynion ac i benderfynu a ymdriniwyd â'r gŵyn dan sylw yn rhesymol ac yn gymesur a bod y canlyniad yn llifo'n rhesymegol o'r canfyddiadau. Yn ogystal â rhoi sicrwydd i'r cyhoedd o ran sut yr ymdriniwyd â'i gwynion, mae'r panel hefyd yn ystyried unrhyw themâu neu dueddiadau a dysgu sefydliadol ehangach o ran cwynion. Mae hyn yn unol â Rheoliadau Cwynion a Chamymddwyn 2020 a Chanllawiau Statudol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Mae'n cynnwys dau aelod a'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, a chyfarfu 11 o weithiau i ystyried 34 o adolygiadau yn 2022-23. Cyflwynwyd ei adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ym mis Mawrth 2023.



Presenoldeb mewn Pwyllgorau


Enw'r aelod	Nifer y cyfarfodydd Awdurdod a fynychwyd / nifer y cyfarfodydd Awdurdod ar gael	Nifer y Pwyllgorau Penodiadau, Tâl Cydnabyddiaeth ac Arfarnu a fynychwyd / nifer y dyddiadau pwyllgor ar gael	Nifer y cyfarfodydd Panel Adolygu Cwynion a fynychwyd / nifer y dyddiadau pwyllgor ar gael	Nifer y Pwyllgorau Pobl a Diwylliant a fynychwyd / nifer y dyddiadau pwyllgor ar gael	Nifer y Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg a fynychwyd / nifer y dyddiadau pwyllgor ar gael
Ron Barclay-Smith	5/5	3/3			
Andrew Cooper	5/5			5/5	4/5
Fiona Brunskill	4/5	3/3			
Graham Evans ¹	4/4				4/4
Emir Feisal	4/5				1/5
Mike Gallop ²	3/4				
Willie Gallagher	4/5				
Nick Hawkins	5/5	3/3	11/11	5/5	
Stewart Jackson	5/5		9/11	4/5	5/5
Kenna Kintrea	5/5				5/5
Syr Craig Mackey	3/5				
Bill Matthews	4/5				
Martin Richards ³	4/4	2/3	7/9		
Beverley Shears	4/5			5/5	

1 Ymddiswyddodd Graham Evans ar 29 Rhagfyr 2022
2 Ymddiswyddodd Mike Gallop ar 14 Ionawr 2023
3 Daeth tymor Martin Richards i ben ar 25 Ionawr 2023

Presenoldeb mewn Pwyllgorau

Enw'r aelod	Nifer y Pwyllgorau Perfformiad a Chyflawni a fynychwyd / nifer y dyddiadau pwyllgor ar gael	Nifer y Pwyllgorau Strategaeth a Chynllunio a fynychwyd / nifer y dyddiadau pwyllgor ar gael	Nifer y Pwyllgorau Plismona Rheilffyrdd yr Alban a fynychwyd / nifer y dyddiadau pwyllgor ar gael	Nifer y Gweithgorau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a fynychwyd / nifer y dyddiadau cyfarfod ar gael	Nifer y Gweithgorau Pensiynau a fynychwyd / nifer y dyddiadau cyfarfod ar gael
Ron Barclay-Smith					
Andrew Cooper		4/4		1/1	
Fiona Brunskill		4/4			1/2
Graham Evans ⁴	3/3			2/2	
Emir Feisal		4/4			1/2
Mike Gallop ⁵	3/3	3/3		1/2	
Willie Gallagher	4/4		3/4	3/3	
Nick Hawkins					
Stewart Jackson					
Kenna Kintrea			2/4	1/1	
Syr Craig Mackey	4/4	4/4			
Bill Matthews			4/4		2/2
Martin Richards ⁶		2/3		2/2	
Beverley Shears	3/4			1/1	2/2

4 Ymddiswyddodd Graham Evans ar 29 Rhagfyr 2022
5 Ymddiswyddodd Mike Gallop ar 14 Ionawr 2023
6 Daeth tymor Martin Richards i ben ar 25 Ionawr 2023



Y Tîm Gweithredol

Mae gan Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig Dîm Gweithredol o 14, sy'n cwmpasu strategaeth a pherfformiad, llywodraethu, cydymffurfedd, cyllid, cyfathrebu, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Penodir Prif Swyddog Gweithredol Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn Swyddog Cyfrifyddu gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn yr Adran Drafnidiaeth.

Mae Prif Swyddog Ariannol Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cyflawni rôl trysorydd i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gyda'r cyfrifoldeb am reolaeth gywir Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae hyn yn galluogi Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i dderbyn cyngor ariannol annibynnol ar bob agwedd ar ei weithgarwch, gan gynnwys y broses cynllunio strategol a llunio polisi, yn ogystal ag ar faterion cyllidebol.

Ar wahân i hyn, mae Prif Gwnstabl yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi'i benodi'n Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Yn y rôl hon, rhoddodd y Prif Weithredwr gyfrifoldebau i'r Prif Gwnstabl mewn perthynas â holl wariant a gweithgareddau'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o fewn y gyllideb y cytunwyd arni a phrosiectau referiw neu gyfalaf penodol fel y'u diffinnir yn y Cynllun Dirprwy.

Rheoli Risg

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi gweithio i ymgorffori rheoli risg ymhellach yn eu gweithgareddau. Mae proses archwilio dwfn wedi'i chynnal ar yr holl risgiau strategol, sy'n caniatáu i berchnogion roi mwy o sicrwydd ynghylch sut mae'r risg strategol yn cael ei rheoli ac i bwyllgorau dderbyn gwybodaeth eang am y risgiau y maent yn cadw trosolwg arnynt. Mae'r broses hon wedi caniatáu i sgôr a geiriad pob risg gael eu mireinio a rhoi sicrwydd bod y risgiau'n cael eu rheoli ar y lefel gywir ac i'r pwyllgorau fonitro'r camau gweithredu a gyflawnir i liniaru'r risgiau'n fwy effeithiol.

Mae rheoli risg yn parhau i fod yn eitem sefydlog ym mhob un o bwyllgorau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac yng nghyfarfodydd Bwrdd Gweithredol yr Heddlu a chynhelir gweithdai blynyddol gydag Aelodau'r Awdurdod, y Tîm Gweithredol a Phrif Swyddogion i gynnal sganio'r gorwel, pennu lefelau parodrwydd i dderbyn risg, ac adolygu risgiau a chyfluoedd strategol yn erbyn yr amcanion strategol.

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig / Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cydnabod bod mwy i'w wneud o hyd i ymgorffori rheoli risg yn llawn ar draws y sefydliad. Bydd y broses archwilio'n ddwfn yn parhau ar gyfer 2023-24 ond bydd yn canolbwyntio mwy ar ei dull gweithredu. Bydd gwaith yn cael ei wneud i wella'r broses drwy ystyried cynllunio strategol a pherfformiad i roi mwy o fewnwelediad i'r risgiau a galluogi mwy o benderfyniadau ar sail risg.

Er mwyn gwella rheolaeth risg, mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi nodi model aeddfedrwydd i asesu ei broses risg yn ei erbyn a bydd yn cynnal asesiad yn ei erbyn o fewn 2023-24 i gynllunio sut i adeiladu ar y gwaith da a wnaed eisoes.

Asesir risgiau gan ddefnyddio matrices effaith a thebygolrwydd 5 x 5 gyda meini prawf sgorio wedi'u diffinio'n dda a dyrennir sgoriau targed yn seiliedig ar y parodrwydd i dderbyn risg. Trwy'r archwiliadau dwfn o risg strategol, gwaith y Bwrdd Archwilio, Risg, Arolygu a Chydymffurfedd, archwiliadau ac arolygiadau, a gwaith sicrwydd cyffredinol, adolygir rheolaethau risg i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol i reoli'r risg. Bydd hyn yn parhau i fod yn ffocws a chaiff ei ddatblygu ymhellach drwy'r gwaith i wella ein haeddfedrwydd risg. Mae adolygiadau chwarterol o'r risgiau strategol yn dogfennu'r mesurau lliniaru a chamau gweithredu yn y dyfodol sydd eu hangen i leihau'r sgôr tuag at ei sgôr darged.

Cyflwynir yr asesiad cyfredol o'r Gofrestr Risgiau Strategol a'r elfennau ansicrwydd sy'n wynebu'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Awdurdod ar y dudalen nesaf.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

PRIF RISGIAU AC
ELFENNAU ANSICRWYDD

Amcanion Strategol 2022-27:

-  Atal troseddau a diogelu i leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn cael niwed ar y rheilffyrdd
-  Targedu ein hymdrechion i sicrhau bod nifer llai yn dioddef y troseddau mwyaf difrifol
-  Arloesi a chydweithio â'n rhanddeiliaid i leihau tarfu
-  Meithrin ymddiriedaeth a hyder teithwyr a staff rheilffyrdd i drechu troseddoldeb gyda'n gilydd
-  Sicrhau gwerth am arian trwy fanteisio ar dechnoleg, gan addasu i gwrdd â'r dyfodol
-  Adeiladu Heddlu modern a chynhwysol lle mae gan ein pobl gyfarpar da, maent yn cael eu hyfforddi'n dda, maent yn cael eu harwain yn dda, maent yn derbyn gofal da, ac maent yn adlewyrchu'r gorau o'n cymunedau

Allwedd i Duedd yn y Dyfodol

(Tymor canolig – hirdymor, dros y 1-5 mlynedd nesaf):

Disgwylir i'r risg aros yn sefydlog:



Disgwylir i'r risg gynyddu yn 2023-24:



Disgwylir i'r risg leihau yn 2023-24:



Risg	Camau Lliniaru Allweddol yn eu Lle	Tueddiad yn y Dyfodol
Recriwtio a Chadw: Oherwydd heriau yn y farchnad recriwtio, efallai na fydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gallu denu, cadw a datblygu gweithwyr sy'n enghreifftio ein gwerthoedd, gan arwain at golli hyder ac ymddiriedaeth gan y cyhoedd  	• Cynllun buddion ar waith i weithwyr fanteisio arno, e.e. gofal iechyd, cynllun beicio i'r gwaith ac ati • Dyfarniad cyflog a chynnydd mewn lwfansau ar gyfer 2022-23 • Manteision presennol gweithio gartref/cyfunol ar waith ar gyfer rhai rolau • Adnoddau cynhwysiant ac amrywiaeth gwell ar waith i ddenu ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr • Gwiriadau pobl/cymhwysedd cychwynnol wedi'u cynnal ar gyfer ymgeiswyr cyn fetio • Atchwanegiadau marchnad ar gael ar gyfer rolau arbenigol lle mae tystiolaeth yn cefnogi eu defnydd • Bwrdd Cynllunio Gweithlu Strategol ar waith • Presenoldeb cryf ar-lein / ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n hyrwyddo gwaith da gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig • System fetio effeithlon ac effeithiol ar waith • Hwb llesiant, rheoli risg trawma, a chymorth iechyd meddwl • Adrodd ar gyfweiliadau ymadael i gael mewnwelediad • Cynllun gweithlu strategol pum mlynedd	< > Mae'r risg hon yn ymwneud â'r amcan strategol ar adeiladu gweithlu modern a chynhwysol a disgwylir iddi aros yn sefydlog dros y tair blynedd nesaf.

Cyfreithlondeb: Oherwydd arferion plismona annheg neu safonau proffesiynol aneffeithiol, efallai na fydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gallu darparu gwasanaeth dibynadwy a chyfreithlon i'r cyhoedd, gan arwain at ddiffyg hyder y cyhoedd   	• Grwpiau cymorth gweithredol ar gyfer ein gweithwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (SAME – Cymdeithas Gymorth ar gyfer Staff Lleiafrifoedd Ethnig a Chymdeithas yr Heddlu Mwslimaidd) yn ogystal ag wyth rhwydwaith arall o weithwyr sy'n ceisio cefnogi pawb o gefndiroedd amrywiol • Mae'r holl staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar "Cam-drin Swydd" • Prosesau adrodd clir ar waith i adrodd am gamweddau yn fewnol a ddefnyddir yn dda • Strategaeth ar waith i leihau trais yn erbyn menywod a merched • Prosesau sefydledig ar waith ar gyfer buddiannau busnes, anrhegion a lletygarwch, ac i staff roi gwybod am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau • Paneli craffu annibynnol ar waith ar gyfer stopio a chwilio a defnyddio grym • Gwiriadau pobl/cymhwysedd cychwynnol yn cael eu cynnal ar gyfer ymgeiswyr cyn fetio – mae hyn yn chwynnu rhai pobl nad ydynt yn bodloni safonau'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig • Bwrdd Cynhwysiant Strategol ac Amrywiaeth ar waith • Grŵp Cyngori Annibynnol Strategol ar waith i ymgysylltu â chynrychiolwyr o wahanol gymunedau • Bwrdd Defnyddio Pwerau ar waith • Proses fetio yn unol ag Arfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona • Prosesau fetio wedi'u hachredu i ISO 9001	< > Mae'r risg hon yn cysylltu â'r amcan strategol i feithrin ymddiriedaeth a hyder. Disgwylir i ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd leihau yn y tymor byr oherwydd canfyddiad presennol y cyhoedd o blismona. Wrth i'r mentrau a roddwyd ar waith ddechrau dangos canlyniadau cadarnhaol, daw'r risg yn sefydlog dros y tair blynedd nesaf. Yn gysylltiedig yn agos â'r risg recriwtio a chadw, mae rheolaethau i sicrhau bod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn recriwtio pobl addas i blismona.
--	---	---

Risg	Camau Lliniaru Allweddol yn eu Lle	Tueddiad yn y Dyfodol
Gweithio mewn Partneriaeth: Mae'n bosibl na fydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Awdurdod yn manteisio ar gyfleoedd a pherthnasoedd gyda phartneriaid allanol i ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon mewn ymateb i'r galw, gan arwain at golledion ariannol ac effeithiau gweithredol. 	- Cytundeb gan bartneriaid i symud o gylch blynyddol i gylch cynllun plismona tair blynedd i roi mwy o sicrwydd ar flaenoriaethau i annog mwy o ymrwymiadau i weithio mewn partneriaeth - Ymgysylltu rheolaidd da gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig â phartneriaid yn y diwydiant trwy nifer o fforymau presennol lle mae partneriaid lluosog yn bresennol - Rhoddir cyflwyniadau rheolaidd i gwmnïau gweithredu trenau, elusennau, yr Adran Drafnidiaeth a gweinidogion ar linellau cyffuriau i godi ymwybyddiaeth - Penodi Pennaeth Ymgysylltu Allanol penodedig i arwain a chydlyn cyfathrebu rheolaidd â rhanddeiliaid ar waith yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig - Yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ymgysylltu â phartneriaid allweddol ar reilffyrdd Prydain Fawr i ddylanwadu ar ddyfodol y ddarpariaeth diogelwch i'r rheilffordd - Cyfarfodydd rheoli perthynas rheolaidd gyda nifer o'i brif bartneriaid, gan gynnwys Network Rail, Trafnidiaeth Llundain a Rail Delivery Group - System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ar waith i reoli a thargedu cyfathrebiadau â rhanddeiliaid	< > Mae gweithio mewn partneriaeth yn elfen allweddol o'n strategaeth bresennol – i arloesi a chydweithio gyda phartneriaid. Roedd ymgysylltu cadarnhaol â rhanddeiliaid wedi lleihau'r risg hon yn flaenorol. Mae gennym gynlluniau ar waith i barhau i gryfhau partneriaethau a fydd yn cynnal sefydlogrwydd y risg hon dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys y Cynlluniau Peilot Diogelwch a Phlismona Integredig, sydd â'r potensial i newid sut rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn y dyfodol.
Seiber a Diogelwch Data: Gall methu â diogelu a rheoli ein data a'n gwybodaeth arwain at golled data sylweddol sy'n arwain at golli hyder, risg weithredol, cerydd rheoleiddio a cholled ariannol. 	- Offeryn Monitro Seiber ar waith i fynd ati'n rhagweithiol i nodi gwendidau TG / bygythiadau i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig - Tîm Seiber yn rhan o Weithgor Seiber cenedlaethol ar gyfer plismona i nodi bygythiadau a rhannu arferion gorau - Cynllun ymateb i ddigwyddiadau seiber ar waith, gan gynnwys clytio rheolaidd ar draws y rhwydwaith - Perchenogion Asedau Gwybodaeth wedi'u nodi ar gyfer holl systemau'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig - Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth ar waith i ddarparu trosolwg o brosesau a systemau gwybodaeth a thechnoleg - Asesiad Effaith Diogelu Data Cenedlaethol ar waith ar gyfer plismona ar gyfer cynhyrchion Office 365 - Prosesau rheoli bregusrwydd a chlytio a gynlluniwyd i gadw ein hasedau technoleg yn gyfredol ac yn llai agored i ymosodiadau seiber cyffredin - Mae archwiliadau a gwiriadau iechyd rheolaidd yn helpu i sicrhau parhad gwasanaeth a mynediad at adnoddau a rennir - Asesiad aeddfedrwydd diogelwch a gynhelir gan arbenigwyr yn y diwydiant i nodi statws aeddfedrwydd cyfredol a meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill - Ymgymryd ac adfer ein rhaglenni achredu ffurfiol - Fframwaith Seiberddiogelwch, strategaeth a chynllun rhaglen cysylltiedig i wella aeddfedrwydd cyffredinol seiberddiogelwch ar draws yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	< > Disgwylir i'r risg hon aros yn sefydlog dros y tymor byr a'r tair blynedd nesaf yn seiliedig ar y cynlluniau presennol i liniaru a rheoli. Er bod bygythiad ymosodiadau seiber yn parhau'n uchel yn yr hinsawdd fyd-eang bresennol, mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i fod yn wyladwrs o'r bygythiad hwn i'n gweithrediadau.

Risg	Camau Lliniaru Allweddol yn eu Lle	Tueddiad yn y Dyfodol
Incwm: Oherwydd pwysau economaidd ar gyllidwyr yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig neu fethu â dangos yn ddigonol ein bod yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon, efallai na fydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gallu sicrhau'r lefel o incwm sydd ei hangen i ddarparu lefel y gwasanaeth i fodloni'r galw presennol a galw'r dyfodol, gan arwain at effaith weithredol ac effaith ar enw da.   	• Goruchwylio adroddiadau ariannol, gan gynnwys risgiau a chyfleoedd • Cynllun Ariannol Tymor Canolig pum mlynedd wedi'i gytuno gan yr Awdurdod a'i gyfleu i'r Adran Drafnidiaeth • Polisiâu cyllid, gan gynnwys Polisi Cronfeydd, ar waith • Hyfforddiant i ddeiliaid cyllideb a llythyrau dirprwyo • Fframwaith caffael Gwasanaeth Masnachol y Goron yn cael ei ddefnyddio • Bwrdd Sicrwydd Cyllid ar waith i ddarparu trosolwg o reolaethau ariannol • Mae'r tîm cyllid yn darparu adolygiad gwerth am arian ar gyfer pob achos busnes • Gwell meddalwedd cyllid i ddarparu mwy o arolygiaeth o bryniannau • Cyfarfodydd/ymgysylltu rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol (Grŵp Cyflawni'r Rheilffyrdd, cwmnïau gweithredu trenau, tîm noddi'r Adran Drafnidiaeth) • Ymchwil i ffrydiau ariannu newydd posibl	✓ Mae gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig amcan strategol i gynhyrchu gwerth am arian. Er bod y pwysau economaidd allanol presennol yn peri mwy o risg, o ran rheoli cyllidebau a risg uwch o dwyll, bydd rheolaethau ariannol a goruchwyliaeth gryfach yn lleihau'r risg dros yr un i dair blynedd nesaf. Mae ffocws parhaus ar y cyd ar lywodraethu a rheolaethau ariannol yn parhau.

Risg	Camau Lliniaru Allweddol yn eu Lle	Tueddiad yn y Dyfodol
Trawsnewid: Oherwydd y dylanwadau sy'n dod i'r amlwg ar ein strategaeth a'n cynllun polisi, mae'n bosibl na fydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig / Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn dylunio a darparu portffolio trawsnewid strategol wedi'i ariannu'n gynaliadwy ac ag adnoddau i ddarparu gwasanaeth fforddiadwy, effeithiol ac effeithlon, gan arwain at effeithiau gweithredol ac ariannol ac i enw da.   	• Swyddfa rheoli prosiect wedi'i sefydlu i olrhain ac adrodd ar gyflawniad y rhaglen/prosiect • Strategaeth newid a rhae adru dan arweiniad y Prif Gwnstabl a Grŵp y Prif Swyddogion, gyda chefnogaeth arweinyddiaeth sefydliadol • Pensaerniaeth rhaglen ddatganoledig ar waith sy'n rhoi perchnogaeth i Brif Swyddogion fel Uwch-berchnogion Cyfrifol dros newid o fewn eu rhychwant rheolaeth, wedi'i chefnogi gan adnoddau prosiect a newid pwrpasol. Partner Busnes Cyllid penodedig yn ei swydd ar gyfer y portffolio newid • Methodoleg rheoli prosiect a rhaglen MENTER ar waith i lywodraethu cylch oes y prosiect a darparu cyfres lawn o reolaethau prosiect • Proses cynllunio buddsoddiad a Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar waith i alinio buddsoddiad gyda fforddiadwyedd a blaenoriaethau strategol • Bwrdd Newid a Buddsoddi Portffolio ar waith i adolygu cynnydd portffolio a chymeradwyo achosion busnes / adroddiadau trosglwyddo / adolygiadau ôl-weithredu a rheoli newid • Adolygiadau cyflawni portffolio Uwch-berchnogion Cyfrifol rheolaidd dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Gwnstabl • Cynllun dirprwyo ar waith i sicrhau bod achosion busnes buddsoddi gwerth uchel yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo ar fyrddau uwch yn olynol, gan gynnwys ar lefel Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig • Diweddariadau rheolaidd ar gynnydd trawsnewid i'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio	✓ Mae'r portffolio trawsnewid yn alluogwr allweddol i gyflawni'r strategaeth. Mae llywodraethu cryf yn dal i fod ar waith o ran rheoli rhaglenni a phrosiectau a rhagwelir y bydd y risg hon yn lleihau dros y tair blynedd nesaf.



Risg	Camau Lliniaru Allweddol yn eu Lle	Tueddiad yn y Dyfodol
Llesiant, Iechyd a Diogelwch: Oherwydd diffyg dealltwriaeth o gyfrifoldebau iechyd, diogelwch a llesiant ac adnoddau iechyd a diogelwch annigonol, efallai y bydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn methu ag ymgorffori diwylliant lle mae llesiant, iechyd a diogelwch staff yn rhan annatod o bopeth a wnawn. Gallai hyn arwain at niwed i'n pobl a'r cyhoedd, diffyg cydymffurfio deddfwriaethol, a chamau gorfodi. 	• System Rheoli Diogelwch wedi'i rhoi ar waith i safoni adroddiadau iechyd a diogelwch a galluogi tueddiadau i gael eu nodi'n well • Pwyllgor Iechyd a Diogelwch canolog ar waith bob chwarter i adolygu risgiau/materion iechyd a diogelwch, gan gynnwys ymosodiadau ar swyddogion a llesiant • Strwythur a fframwaith llywodraethu iechyd a diogelwch ar waith gyda pholisi iechyd a diogelwch a chanllawiau cyfredol ar waith, a threfniadau cyfredol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith • Mae trefniadau adolygu a monitro ar gael ac yn cael eu cyfleu ar yr Hwb Iechyd a Diogelwch a'u trafod yn y pwyllgorau iechyd a diogelwch rhanbarthol • Cefnogaeth rheoli risg trawma ar waith ar gyfer y rhai sydd angen cefnogaeth o ddigwyddiadau trawmatig • Hwb Llesiant ar waith i gefnogi swyddogion/staff ar ystod o faterion llesiant • Cyhoeddi Strategaeth Llesiant, Iechyd a Diogelwch • Asesiad risg addas a digonol ar waith • Prosiectau Llesiant yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cyd-fynd â phrosiectau ac ymchwil Gwasanaeth Cenedlaethol Llesiant yr Heddlu	▼ Mae llesiant yn parhau i fod yn faes ffocws pwysig i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig / Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Gwnaethpwyd llawer o waith yn y maes hwn yn 2022-23 ac mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn disgwyl gweld y risg hon yn parhau i leihau dros y tair blynedd nesaf wrth i'n rheolaethau wreiddio ac aeddfedu
Digwyddiadau Mawr: Methu â chynllunio a pharatoi'n effeithiol, gan gynnwys profi senarios, ar gyfer digwyddiad mawr, ymosodiad terfysgol, pandemig neu drychineb naturiol, a allai arwain at effaith weithredol, colled ariannol a cholli hyder y cyhoedd 	• Yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn rhan annatod o strwythurau a fforymau gwrthderfysgaeth cenedlaethol Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar lefelau strategol a thactegol ar gyfer gwersi a ddysgwyd i ddylanwadu ar barodrwydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig • Yr Asesiad Bygythiad a Risg Strategol yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac ymateb gweithredol i leoliadau a nodwyd o fewn yr Asesiad Bygythiad a Risg Strategol • Model newydd ar gyfer ymarfer a phrofi a chyfranogiad gydag ymarfer a phrofi gyda heddluoedd/sefydliadau eraill • Gwell dealltwriaeth o awdurdodaeth yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer ymatebion i ddigwyddiadau mawr • Mae ap SABRE, sef y porth i gynlluniau brys a chymorth cof, ar gael i swyddogion ei ddefnyddio ar ddyfeisiau symudol • Cyfarfod Cydlynu Strategol Argyfyngau Sifil bob deufis wedi'i sefydlu i ganolbwyntio'n glir ar y gwaith o gynllunio a phrofi • Mewnbyn gwrthderfysgaeth pum niwrnod ar waith ar gyfer swyddogion dan hyfforddiant newydd gyda phwyslais ar 'wylidwriaeth' • Calendr ymarfer a phrofi wedi'i sefydlu i sicrhau bod cynhwysedd mwyaf posibl yr hyfforddiant presennol yn cael ei ddefnyddio	▼ Mae llawer o waith wedi'i wneud yn y maes hwn i gynnal gallu ac adeiladu ar yr argymhellion o Ymchwiliad Arena Manceinion. Er bod hyn yn parhau i fod yn fygythiad effaith uchel, mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn disgwyl i'r risg hon leihau dros y tair blynedd nesaf wrth i'n rheolaethau ychwanegol wreiddio ac wrth i'n gallu gynyddu o ganlyniad.

Risg	Camau Lliniaru Allweddol yn eu Lle	Tueddiad yn y Dyfodol
Technoleg: Methu â darparu gwasanaeth heddlu digidol priodol ac effeithiol oherwydd diffyg cynllun strategol cadarn sydd wedi'i reoli'n dda, cyllid, capasiti a gallu, gan arwain at ymddieithrio staff, heriau gweithredol a cholled ariannol. 	• Cymeradwyo Strategaeth 'Fixing the Fundamentals' i sefydlogi a gwella'r seilwaith TG • Buddsoddiad parhaus yn ein dyfeisiau cyfrifiadura defnyddiwr terfynol o amgylch rheoli meddalwedd, ac ailosod caledwedd cylchol • Tîm Plismona Digidol penodol ar waith i reoli uchelgais digidol a mesur budd darpariaeth ddigidol • Bwrdd Newid TG ar waith i ystyried effaith newidiadau i systemau TG • Gwiriad Iechyd TG blynyddol ar waith i alluogi achrediad i systemau allweddol y Swyddfa Gartref, e.e. Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu, Airwave • Rhagolwg a chynllun adnewyddu cylchol TG wedi'u cytuno a'u cyllidebu • Rheolaeth ragweithiol o gyflenwyr TG craidd i sicrhau rheolaeth ariannol ac optimeiddio • Cytunwyd ar Strategaeth TG a Chynllun Cyflawni ar gyfer 'Fixing the Fundamentals' • Strategaeth recriwtio a datblygu i gefnogi Strategaeth a Chynllun Cyflawni TG	✓ Mae technoleg yn alluogwr allweddol ar gyfer yr holl amcanion strategol. Mae llawer o waith wedi'i wneud yn rhaglen 'Fixing the Fundamentals'. O ganlyniad, disgwylir i'r risg hon barhau i leihau wrth i faes technoleg yr Heddlu ddod yn fwy sefydlog a gallu cefnogi amcanion ein strategaeth yn fwy effeithiol.



Datganiad risg gwybodaeth

Rhaid i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gynnal cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd ei wybodaeth i weithredu'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddiogel. Mae angen cydymffurfio â rheolaethau Swyddfa'r Cabinet, gofynion y Swyddfa Gartref a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, deddfwriaeth diogelu data'r DU, a'r holl gyfraith a chanllawiau perthnasol ar gyfer y gymuned blismona.

Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn, rhaid i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gael polisïau a mesurau rheoli ar waith i sicrhau bod mynediad at wybodaeth yn cydymffurfio a bod yr wybodaeth honno'n cael ei rheoli a'i diogelu'n gywir drwy gydol ei chylch bywyd. Mae strwythur llywodraethu ar waith i sicrhau bod gan bob cyfrifoldeb statudol berchnogion cyfrifol, a thîm ymroddedig sy'n asesu risgiau gwybodaeth ac yn lliniaru'r rhain i lefel dderbyniol.

Mae'r holl bolisïau allweddol yn gyfredol ac wedi'u cyhoeddi. Mae'r Bwrdd Gwybodaeth a'r Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth yn gweithredu fel cyfarfodydd llywodraethu, cydymffurfio a sicrwydd ar draws yr heddlu, gan adrodd i Fwrdd Archwilio, Risg, Arolygu a Chydymffurfio (ARIC).

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i gefnogi mentrau digidol allweddol i sicrhau diogelwch a chydymffurfedd, ac i weithio gydag unedau arbenigol i gynnal rheolaethau ar draws meysydd amrywiol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae'r mentrau hyn yn cyfrannu at flaenoriaethau strategol yr Heddlu o alluogi gweithio ystwyth a buddsoddi mewn technoleg sy'n helpu i leihau dyblygu gwybodaeth, yn creu gallu hunanwasanaeth, ac yn gwrthio gwybodaeth i swyddogion rheng flaen.

Mae archifo gwybodaeth yn faes goruchwyllo allweddol i'r Bwrdd Gwybodaeth. Fel heddlu, mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wrthi'n edrych ar ffyrdd ychwanegol o ddigideiddio rheoli gwybodaeth. Mae mabwysiadu systemau newydd yn ddiweddar yn helpu'r heddlu i symud oddi wrth greu cofnodion ffisegol fel ffeiliau achos a disgiau teledu cylch cyfyng. Mae cwmplas y systemau hyn yn cael ei archwilio i symud cofnodion a gwybodaeth oddi wrth y ffisegol i'r digidol. Mae'r swyddogaeth rheoli

gwybodaeth yn parhau i ymdrechu i wella ansawdd data mewn systemau allweddol sy'n cefnogi plismona gweithredol a gwneud penderfyniadau.

Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol

Yn ystod 2022-23, roedd 46 (2021-22: 32) o ddigwyddiadau yn ymwneud â thorri data personol a aseswyd o ran bygythiad, risg a niwed i unigolion. Roedd un o'r rhain yn gofyn am adrodd rhagweithiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwn (2021-22: 0), ond ni chafwyd unrhyw gamau pellach gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i gymryd agwedd ragweithiol at adrodd o fewn y cyfnod hysbysu rhagnodedig o 72 awr o fod yn ymwybodol o ddigwyddiad posibl lle bo angen.

Derbyniwyd tri atgyfeiriad Pryder Diogelu Data gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2022-23 (2021-22: saith). Nid oedd angen unrhyw gamau pellach sylweddol y tu hwnt i gyfleu safbwynt yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Gweithgareddau sicrwydd

Archwilio Mewnol

Cyflogwyd Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth i gynnal cynllun blynyddol o archwiliadau mewnol seiliedig ar risg ar ran Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Cynhaliwyd saith archwiliad mewnol yn 2022-23 ac ymgwymerwyd ag un ymgysylltiad cynghorol gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n gyson â 2021-22. Y meysydd archwilio eleni oedd: Diogelwch Corfforol, IFRS 16 Rheolaethau Allweddol Prydlesi, Cynhwysiant ac Amrywiaeth, Llywodraethu Technoleg, Strategaeth a Llywodraethu Sero Net, Costau Teithio, rhaglen drawsnewid 'Force on the Move': sicrwydd wedi'i fewnosod, ac adroddiad cynghori gwersi Ymchwiliad Arena Manceinion. Erys y farn archwilio flynyddol yn radd sicrwydd "gymedrol", sy'n adlewyrchu, er bod rhai meysydd y gellir eu cryfhau, fod fframweithiau llywodraethu a rheolaeth Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gweithredu'n effeithiol i raddau

helaeth wrth helpu i gyflawni ei amcanion.

Er bod y farn gyffredinol yn gyson â 2021-22, rhoddodd Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth ganran ychydig yn uwch o farn gymedrol eleni a chytuno ar lai o gamau gweithredu. Mae hyn, ochr yn ochr ag arsylwi cryfhau mewn rhai meysydd allweddol – gan gynnwys technoleg a gyda blaenoriaethau strategol allweddol – yn ddangosyddion da o welliant parhaus o fewn y band cymedrol. Mae'r rheolwyr yn croesawu'r sgôr sicrwydd archwilio mewnol gyffredinol a chanfyddiadau adroddiadau unigol, sy'n cefnogi gwelliant parhaus yn amgylchedd rheoli'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Derbyniodd Llywodraethu Technoleg sgôr sylweddol oherwydd y canfuwyd ei fod yn cael ei reoli'n dda gyda goruchwyliaeth dda. Derbyniodd Diogelwch Corfforol a Threuliau Teithio sicrwydd cyfyngedig ac mae'r rheolwyr yn cydnabod yr angen am welliant yn y meysydd hyn. Mae rheoli risg yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol ac mae wedi gwella gyda fframwaith sylfaenol effeithiol ar waith ac ymagwedd sefydledig at reoli risg strategol yn ychwanegu gwerth. Fodd bynnag, mae angen ymdrechion parhaus o hyd i wreiddio rheoli risg yn effeithiol ar draws y sefydliad, yn enwedig ar lefel leol/weithredol. Maes arall a amlygwyd fel maes ffocws allweddol parhaus yw cynllunio strategol, adnoddau a newid, gyda'r angen i gymryd golwg strategol a strwythuredig ar gynllunio'r gweithlu a rheolaeth sefydliadol. Argymhellodd Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth hefyd welliannau mewn monitro buddion prosiect ac adrodd arnynt i helpu i gryfhau cynllunio strategol.

Mae ymrwymiad cadarn yn parhau gan reolwyr i fynd i'r afael â themâu, canfyddiadau a risgiau a nodwyd gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Caiff gweithredoedd archwilio eu holrhain ym Mwrdd Archwilio, Risg, Arolygu a Chydymffurfedd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth yn

gweithio gyda rheolwyr i gynnal profion dilynol ar gamau y cytunwyd arnynt y tybir eu bod wedi'u cwblhau.

Ffurflen Sicrwydd Rheolaeth

Cyflwynir y Ffurflen Sicrwydd Rheolaeth i'r Adran Trafnidiaeth bob blwyddyn i'w galluogi i gael sicrwydd ar feysydd llywodraethu a rheolaeth fewnol penodol. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Awdurdod yn ei chael yn broses werthfawr i gael sicrwydd ynghylch meysydd allweddol ar draws y sefydliad. Wrth asesu pob maes swyddogaethol, adolygir ffynonellau eraill o sicrwydd a chynhelir asesiad o lywodraethu, rheolaeth a rheoli risg ym mhob maes. Mae'r dystiolaeth yn cael ei harchwilio'n annibynnol gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Awdurdod. Ail linell o fecanwaith sicrwydd yw'r Ffurflen Sicrwydd Rheolaeth ac fe'i hadolygir bob chwarter yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae aelodau'n adolygu newidiadau chwarterol mewn graddfeydd ac felly'n goruchwyllo unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg mewn amser real.

Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi

Yn ystod 2022-23, arolygwyd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn erbyn Rhaglen Arolygu PEEL (Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu) Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) a chymerodd ran hefyd mewn arolygiadau thematig cenedlaethol. Roedd gweithgarwch arolygu'r rhaglen arolygu PEEL ar gyfer 2022-23 yn cynnwys y meysydd isod; mae cyhoeddi Adroddiad Arolygu PEEL yn dal i aros am ddyddiad cyhoeddi.

Ymgysylltodd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn llawn â'r arolygwyr yn ystod ac ar ôl yr arolygiadau ac mae wedi derbyn pob un o'u hargymhellion. Bydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gwahodd HMICFRS i ddod yn ôl i adolygu cynnydd yn erbyn yr argymhellion pan fyddant wedi'u cwblhau.

Cwestiwn Arolygu	Dyddiad yr Arolygiad
Pa mor dda yw'r heddlu am ymgysylltu â'r bobl y mae'n eu gwasanaethu ac am eu trin yn deg, yn briodol ac yn barchus?	Mai 2022
Pa mor dda yw'r heddlu am atal trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod yn agored i niwed?	
Pa mor dda yw'r heddlu am amddiffyn pobl sy'n agored i niwed?	
Pa mor dda yw'r heddlu am adeiladu, datblygu a gofalu am ei weithlu ac annog gweithle moesegol, cyfreithlon a chynhwysol?	
Pa mor dda yw'r heddlu am gynllunio a rheoli ei sefydliad yn effeithlon, gan sicrhau ei fod yn cyflawni gwerth am arian, nawr ac yn y dyfodol?	
Pa mor dda yw'r heddlu am adeiladu, datblygu a gofalu am ei weithlu ac annog gweithle moesegol, cyfreithlon a chynhwysol?	Hydref 2022
Pa mor dda yw'r heddlu am gynllunio a rheoli ei sefydliad yn effeithlon, gan sicrhau ei fod yn cyflawni gwerth am arian, nawr ac yn y dyfodol?	
Fetio a Gwrth-lygredd Pa mor dda yw'r camau rhagweithiol ac aflonyddgar a gymerir gan yr heddlu a rheolaeth fetio effeithiol o ran lleihau'r bygythiad a'r risg a achosir gan lygredd yn yr heddlu?	Hydref 2022

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig hefyd yn cael ei arolygu fel rhan o arolygiadau cenedlaethol HMICFRS. Eleni, arolygwyd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig fel rhan o arolygiad HMICFRS mewn perthynas â threfniadau ar gyfer mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfniadol. Arolygwyd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig fel partner allweddol gyda Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitaidd a Dinas Llundain fel rhan o ymateb rhanbarthol Llundain i droseddau difrifol a threfniadol. Roedd yr arolygiad yn ceisio ateb pa mor dda yw'r Heddlu am darfu ar droseddau difrifol a threfniadol a derbyniodd radd ddigonol.

Yn ogystal, ymgynghorwyd â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig fel parti â diddordeb mewn perthynas ag Arolygiad Fforensig Digidol HMICFRS. Archwiliodd yr arolygiad hwn pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth fforensig digidol mewn heddluoedd ac Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol a pha mor dda y maent yn deall ac yn cynllunio ar gyfer galw yn y dyfodol.

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn monitro argymhellion o'i arolygiadau yn rheolaidd. Cyflwynir cwblhau'r rhain i Fwrdd Gweithredol yr Heddlu bob mis a chwarterol ym Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Phwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig hefyd yn adolygu adroddiadau HMICFRS a gyhoeddwyd ar arolygu heddluoedd eraill i nodi unrhyw arferion da a risgiau i sicrhau bod y rhain yn hysbys ac y gellir mynd i'r afael â nhw yn ôl yr angen.

Ffynonellau eraill o Sicrwydd

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cyflwyno map sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sy'n amlinellu'r holl ffynonellau sicrwydd ar gyfer pob risg strategol, ar draws y tair llinell amddiffyn.

Mae nifer o fecanweithiau sicrwydd amddiffyn trydedd linell – archwiliadau ac adolygiadau annibynnol – gan gyrff rheoleiddio a chymheiriaid. Mae'r rhain yn cwmpasu

spectrwm eang o feysydd megis carcharu i reoli gwybodaeth. Eleni, mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi bod yn destun arolygiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio mewn perthynas â'i gydymffurfedd â deddfwriaeth mewn perthynas â'i ddefnydd a rheolaeth o wiliadwriaeth gudd, ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol ac ymyrraeth eiddo. Arolygiad blynyddol yw hwn a dangosodd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig lefel dda o gydymffurfedd.

Yn ogystal, mae swyddogaeth cydymffurfio ac archwilio sy'n rhan o ail linell amddiffyn o fewn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac sy'n cydlynu rhaglen o weithgarwch. Mae adolygiadau ar draws nifer o feysydd, o gofnodi troseddau i reoli eiddo, iechyd a diogelwch i reoli asedau. Mae'r tîm yn mynychu byrddau goruchwyllo'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac yn adrodd ar ganfyddiadau trwy strwythur llywodraethu'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig hyd at y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Safonau Gweithredol y Llywodraeth

Roedd cymhwyso Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth yn orfodol ar gyfer holl adrannau'r llywodraeth a chyrrff hyd braich o 2021–22. Fel sy'n ofynnol gan Safon Weithredol y Llywodraeth GovS 001: Swyddogaethau'r Llywodraeth, mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi penodi'r Prif Swyddog Ariannol fel yr uwch-swyddog sy'n atebol am oruchwyllo cydymffurfedd â'r safonau swyddogaethol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar wreiddio cydymffurfedd â'r safonau ar draws y sefydliad.

Gwerthusiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn canolbwyntio ar welliant parhaus i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol. Ffocws sylweddol y gwaith hwn yw Gwerthusiad Effeithiolrwydd Bwrdd blynyddol lle ceisir adborth gan gydweithwyr trwy holiaduron, cyfweiliadau a dadansoddiad o adolygiadau cyfarfodydd. Mae mecanweithiau eraill, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid ac enghreifftiau o arferion gorau, hefyd yn cael eu

hystyried fel rhan o'r ymarfer gwerthuso.

Yn 2022–23, canolbwyntiodd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ei adolygiad ar lywodraethu ariannol a ffyrdd o weithio drwy gomisiynu adolygiad cynghori annibynnol i ddarparu safbwynt allanol. Roedd y ffocws ar adnewyddu ein llywodraethu ariannol drwy gymharu sefydliadau tebyg, ystyried anghenion busnes, ac adolygu canllawiau / rheolaethau gwariant y llywodraeth i sicrhau eu bod yn darparu cydbwysedd priodol o rymuso a phwerau gwneud penderfyniadau a gedwir. Roedd yr elfen ffyrdd o weithio yn canolbwyntio ar foderneiddio a gwella ymhellach y ffordd y mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cydweithio yn seiliedig ar egwyddorion ymddiriedaeth, bod yn agored a thryloywder. Y bwriad yw sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn gweithio fel galluogwr i'r ddau sefydliad yn eu priod ddyletswyddau.

Roedd y gwaith hwn yn barhad o daith effeithiolrwydd bwrdd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a gwnaed llawer o gynnydd yn 2022–23. Mae'r gwelliannau yn y berthynas wedi arwain at werthusiad effeithiolrwydd bwrdd ar y cyd o lywodraethu Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, i'w gynnal yn 2023–24. Rhoddodd hyn gyfle sylweddol ar gyfer newid cadarnhaol ac aliniad, gan wella effeithiolrwydd ar draws y ddau sefydliad ac yn y pen draw plismona rheilffyrdd.

Technoleg Gwybodaeth

Eleni gwelwyd aeddfedrwydd parhaus o amgylch trawsnewid TG, a ffocws ar alluogi gallu newydd i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wrth barhau i ganolbwyntio ar ein hystad etifeddol trwy raglen 'Fixing the Fundamentals'. Mae'r tîm technoleg wedi cyflawni nifer fawr o brosiectau cyfalaf, ond mae hefyd wedi canolbwyntio ar bobl gydag ailstrwythuro sefydliadol yn digwydd yn 2022–23, gan greu sefydliad modern, medrus gyda rhaglen recriwtio ar y gweill i sicrhau'r gallu pobl gofynnol i gyflawni yn ystod 2023–24 a thu hwnt.

Eleni gwelwyd cyflwyno model sefydliad newydd, gan arwain at ddileu rolau etifeddol a phwyntiau unigol o fethiant gyda datblygu'r rolau modern, digidol sydd eu hangen i gyflawni

strategaeth yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Cafwyd llwyddiannau hefyd yn ymwneud â Phrawf Iechyd TG 2022 gyda'r holl faterion Critigol, Uchel a Chanolig wedi'u datrys yn llawn, a gostyngiad o 40% mewn eitemau risg uchel.

Roedd cyflawniadau allweddol eraill yr adran yn cynnwys y canlynol:

- Gwella profiad y defnyddiwr terfynol trwy radio tonnau awyr newydd, cyfrifiadura a dyfeisiau symudol yn ogystal ag uwchraddio systemau gweithredu
- Cyflwyno camerâu a wisgir ar y corff newydd gyda mwy o ymarferoldeb
- Rhyddhau nifer o gymwysiadau, gan gynnwys llwyfan dysgu newydd, system rheoli diogelwch, geoleoli ac ap Railway Guardian
- Uwchraddio'r system rheolaeth ariannol
- Gwella perfformiad y ddesg wasanaeth gyda chyfradd datrysiad tocynnau o 98%
- Cefnogi nifer o waith ar yr ystad, yn fwyaf nodedig Baskerville ac Albany House
- Cyfrannu at y Strategaeth Carbon Sero Net trwy ailgylchu offer a dyfeisiau segur

Wrth symud ymlaen, bydd yr adran yn parhau i ganolbwyntio ar saith maes craidd sy'n cyd-fynd â'r rhaglenni strategol allweddol o alluogi portffolio trawsnewid 'Force on the Move' yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

1. Pobl: Sicrhau bod gweithwyr ym maes technoleg yn cael eu harwain a'u cefnogi a'u bod yn gallu cyflawni amcanion allweddol gyda ffocws clir ar werthfawrogi a datblygu pobl.
2. Newid: Cyflwyno prosiectau a rhaglenni 'A Force on the Move' sy'n galluogi'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i bontio o systemau, seilwaith ac offer etifeddol i wasanaethau technoleg gwell, cyfoes a hygyrch.
3. Gwasanaeth: Gwasanaethau hygyrch, ymatebol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr wedi'u hategu gan ganllawiau ymarferol a defnydd tryloyw o ddata i ysgogi a dangos gwelliant mewn perfformiad a gwerth am arian.

4. Diogelwch: Sicrhau bod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ddiogel bob amser mewn perthynas â'r bygythiad a achosir gan ymosodiadau seiber, gyda'r achrediadau mandadol i weithredu fel Heddlu Cenedlaethol.
5. Seilwaith: Sicrhau bod yr holl systemau a rhaglenni TG yn gweithredu i ofynion busnes o ran argaeledd, gwydnwch a pharhad busnes.
6. Digidol: Datrysiadau digidol sy'n grymuso cydweithredu, cyfathrebu, cysylltedd, symudedd a chynhyrchiant.
7. Rhyngweithrededd: Ystyried cofrestru'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn y Rhaglen Galluogi Genedlaethol ar gyfer Heddluoedd y DU, gan ddod â safoni TG, gallu ac arferion gorau'r diwydiant i rhyngweithredu ar draws maes plismona.

Roedd yr adran yn destun archwiliad Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth a oedd yn canolbwyntio ar raglen 'Fixing the Fundamentals' a derbyniodd radd "sylweddol", sef y sgôr uchaf posibl.

Yn 2021-22, dangosodd yr Arolwg Pawb fod y canfyddiad o dechnoleg yn 89% negyddol. Dangosodd yr arolwg dilynol yn 2022-23 fod y canfyddiad o dechnoleg bellach yn 73% cadarnhaol.

Parhaodd Prawf Iechyd TG blynyddol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, yn ogystal ag archwiliadau annibynnol eraill a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, i ddangos cynnydd ar draws sawl elfen graidd mewn perthynas â gwydnwch a sefydlogrwydd, rheoli risg TG, seiberddiogelwch, a gallu parhad busnes TG. Cynhaliwyd archwiliad allanol yn canolbwyntio ar seiberddiogelwch gan Ernst & Young a amlygodd aeddfedrwydd gallu presennol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a sgôr darged i'w chyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf a gynhelir bellach fel rhaglen graidd. Yn anffodus, gwelwyd cynnydd mawr yn ein risgiau seiber allanol oherwydd y sefyllfa geo-wleidyddol ac yn ystod y flwyddyn bu cynnydd sylweddol yn y bygythiadau a gwendidau a nodwyd. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i reoli'r risg weithredol ac i enw da a allai godi pe bai digwyddiad seiberddiogelwch yn digwydd ac

mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i gryfhau'r gallu TG cyffredinol.

Roedd dau doriad mawr yn 2022-23 (2021-22: pedwar) yn effeithio ar wasanaethau gweithredol TG, yr oedd llawer ohonynt yn ymwneud yn bennaf â gwasanaethau TG etifeddol, cysylltedd y rhwydwaith, ac amgylcheddau canolfan ddata seilwaith ffisegol. Yn ogystal, bu nifer o doriadau parhaus llai o faint yn ystod y flwyddyn, a'r mwyafrif ohonynt i'w priodoli i hen offer rhwydwaith, meddalwedd etifeddol, a gwelliannau rhwydwaith parhaus neu waith trydydd parti. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi ymrwmo i fynd i'r afael â'r materion hyn i sicrhau bod toriadau'n cael eu lleihau wrth symud ymlaen.

Cynhaliwyd archwiliad dwfn o risgiau strategol mewn technoleg, i asesu'n fanwl achosion, effeithiau a mesurau lliniaru'r risg strategol. Roedd hwn yn nodi'r holl reolaethau ar waith sydd wedi gweld y risg weddilliol yn lleihau dros y flwyddyn, a'r camau gweithredu arfaethedig a fydd yn symud yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig tuag at y sgôr risg darged. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn nodi'r risg strategol hon a bydd yn monitro sut mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn rheoli'r risg hon.

Cyfreithlondeb

Mae ymddygiad proffesiynol yn arwain at blismona cyfreithlon, sy'n allweddol i gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn plismona. Er bod Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn arwain wrth gynnal proffesiynoldeb ar draws y sefydliad, cyfrifoldeb swyddogion a staff yw gweithredu'n broffesiynol wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae rheolwyr yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a holl bwyllgorau'r Awdurdod yn goruchwyllo proffesiynoldeb yn rheolaidd, gan gynnwys penodi Aelod Arweiniol.

Rheolir y risg yn bennaf drwy fetio swyddogion a staff newydd a phresennol, cyfathrebu am ymddygiad proffesiynol, a buddsoddi mewn moderneiddio'r diwylliant, dan arweiniad y Prif

Gwnstabl. Mae llawer o ffyrdd i gyflogaion roi gwybod am bryderon ynghylch ymddygiad amhriodol neu gamymddwyn ac mae cynnydd yn y defnydd o'r rhain wedi'i gofnodi. Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn ymchwilio i faterion ymddygiad a chafodd 30 o swyddogion ac aelodau staff na chanfuwyd eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol eu diswyddo yn 2022-23. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cynnal safonau uchel o onestrwydd a phroffesiynoldeb ac yn dangos yr ymrwymiad hwn yn weithredol.

Mae goruchwyllo a dadansoddi'r defnydd o bwerau yn flaenoriaeth allweddol i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig oherwydd yr effaith y gall pwerau o'r fath ei chael ar gymunedau lleol a'r effaith ar ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Mae gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig fframwaith llywodraethu ar gyfer defnyddio pwerau, cymorth dadansodol data pwrpasol, ac amrywiaeth o strwythurau craffu allanol i sicrhau bod y defnydd o bwerau yn effeithiol, yn foesegol ac yn agored i her. Mae'r defnydd o'r pwerau hyn yn cael ei lywodraethu gan fwrdd strategol. Ategir y craffu mewnol hwn gan Grwpiau Cyngori Annibynnol a phaneli craffu cymunedol ac arbenigol pwnc-benodol, sy'n gweithredu fel cyfeillion hanfodol wrth dynnu sylw'r Heddlu at y risgiau, y goblygiadau a'r pryderon lleol ynghylch y defnydd o bwerau. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi bod yn adolygu ei fecanweithiau craffu allanol i brofi eu cydlynid a'u hannibyniaeth ac mae'n gweithio i sicrhau eu bod yn dod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Gweithdrefnau Fetio

Dyfarnwyd achrediad ISO 9001 i'r uned fetio ar 28 Ebrill 2022. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn un o ddim ond dau Heddlu yn genedlaethol i ddal yr achrediad hwn, sy'n dangos bod y tîm wedi bod yn gweithio i 'system rheoli ansawdd' ac yn adolygu systemau a phrosesau'n rheolaidd i gynnal safonau uchel. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig hefyd yn parhau i fod yn rhan o nifer o ymgynghoriadau a gweithgorau yn genedlaethol i adolygu'r Arferion Proffesiynol Awdurdodedig presennol ar gyfer Fetio ac i gefnogi newid er gwell.

Rheolaethau Ariannol

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cael yswiriant cyllidebol gan yr Adran Drafnidiaeth ac mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu aros o fewn terfynau gwariant dirprwyedig. Yn ei dro, mae llawer o'r gyllideb hon yn cael ei dirprwyo gan Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i ganiatáu annibyniaeth weithredol wrth wario'r cronfeydd hyn. Mae gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ddeiliaid cyllidebau dirprwyedig ar draws y sefydliad ac eleni maent wedi dosbarthu llythyrau dirprwyo i bob un, yn amlinellu cyfrifoldebau ar gyfer deiliaid cyllidebau, ac wedi darparu hyfforddiant rheolaidd i sicrhau bod y rhain yn cael eu deall.

Rheoli Buddiannau Allanol

Yn adroddiad y cyfarwyddwyr, mae manylion am rolau aelodau y tu allan i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Cedwir cofrestr buddiannau yn Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer staff gweithredol ac yn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer ei reolaeth. Yn ogystal, cedwir Cofrestr Buddiannau Busnes ar gyfer yr holl staff i adrodd am gyflogaeth eilaidd (gan gynnwys gwirfoddol) a rhaid i gydweithwyr sy'n ymwneud â chaffael ddatgan unrhyw fuddiannau fel rhan o'r broses honno.

Mae rhoddion a lletygarwch yn cael eu cofnodi a'u monitro a gofynnir am gymeradwyaeth gan yr unigolyn awdurdodi perthnasol ar gyfer unrhyw eitem a gofrestrir. Anfonir nodiadau atgoffa rheolaidd i'r gweithwyr.

Adolygiad o Effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a chydymffurfedd o fewn y Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Caiff fy adolygiad ei lywio gan waith y tîm archwilio mewnol, yr adroddiadau ar sicrwydd gan reolwyr, ac adborth gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Ymhellach, rwy'n derbyn arweiniad gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, sydd yn ei dro yn cael ei lywio gan ei arolygiad o'r holl fecanweithiau sicrwydd, rheolaethau mewnol a rheoli risg.

Ar ôl adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd, rwy'n fodlon, yn unol â'm cyfrifoldebau a nodir uchod, bod Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi gweithredu system o reolaeth fewnol ar draws y cyfnod cyfan o 2022-23 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynnyddol.



Hugh Ind

Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad

17 Gorffennaf 2023

ADRODDIAD TÂL CYDNABYDDIAETH

Penodi Aelodau'r Awdurdod

Mae cyfansoddiad Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi'i osod gan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003, sy'n pennu'r ystod angenrheidiol o wybodaeth a phrofiad yr aelodau.

Penodir aelodau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, gyda'r bwriad bod Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gynrychioliadol o'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu ac yn cael gwybod am farn a buddiannau'r grwpiau hyn.

- y ffactorau penodol sy'n ymwneud â pholisïau a chanllawiau gan Gorff Adolygu Tâl yr Heddlu sy'n dylanwadu ar y trefniadau tâl cydnabyddiaeth ar gyfer rhengoedd arolygol a ffederal
- ar gyfer staff yr heddlu, cydfargeinio gyda chymdeithasau gweithwyr cydnabyddedig sy'n pennu setliadau blynyddol

Pennir cyflogau a lwfansau'r aelodau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ar ôl ymgynghori ag Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae gan aelodau hawl i hawlio costau teithio, llety a chynhaliaeth pan fyddant ar fusnes yr Awdurdod.

Polisi a gweithdrefnau tâl cydnabyddiaeth

Yr Adran Drafnidiaeth sy'n pennu'r polisi tâl cydnabyddiaeth ar gyfer aelodau'r Awdurdod.

Y Pwyllgor Penodiadau, Tâl Cydnabyddiaeth ac Arfarnu sy'n pennu'r polisi tâl ar gyfer uwchswyddogion Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Grŵp Prif Swyddogion yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn unol â chanfyddiadau'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch.

Pennir polisi tâl cydnabyddiaeth cyffredinol Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gan y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl â'r gallu a'r cymwysterau addas i arfer eu gwahanol gyfrifoldebau
- yr amrywiadau rhanbarthol neu leol yn y marchnadoedd llafur a'u heffeithiau ar recriwtio a chadw staff

Telerau penodi

Datgelir telerau penodi aelodau'r Awdurdod yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Swyddogion yr Awdurdod

Swyddogion yr awdurdod	Dyddiad dechrau'r contract	Dyddiad dod i ben y tymor	Cyfnod rhybudd gofynnol (misoedd)
Hugh Ind, Prif Weithredwr	03/06/2019	Penodiad parhaol	3
Sarah Church, Prif Swyddog Ariannol a Thrysorydd a Dirprwy Brif Weithredwr	09/04/2018	Penodiad parhaol	3
Rubeela Qayyum, Prif Swyddog Ariannol a Thrysorydd a Dirprwy Brif Weithredwr	15/08/2022	Penodiad dros dro	3

Grŵp Prif Swyddogion yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Grŵp Prif Swyddogion yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	Dyddiad dechrau'r contract	Dyddiad dod i ben y tymor	Cyfnod rhybudd gofynnol (misoedd)
Lucy D'Orsi, Prif Gwnstabl	22/03/2021	21/03/2025	6
Alistair Sutherland, Dirprwy Brif Gwnstabl	08/11/2021	09/11/2024	3
Sean O'Callaghan, Prif Gwnstabl Cynorthwyol	25/06/2018	Penodiad parhaol	3
Tracey Martin, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Masnachol	30/07/2018	Penodiad parhaol	3
Rachael Etebar, Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant	13/08/2018	Penodiad parhaol	3
Charlie Doyle, Prif Gwnstabl Cynorthwyol	20/09/2018	Penodiad parhaol	3
Allan Gregory, Prif Gwnstabl Cynorthwyol	31/03/2023	Penodiad parhaol	3

Tâl Cydnabyddiaeth Aelodau'r Awdurdod (Archwiliwyd) Cyfa nswm

	2022/23				2021/22			
	Cyflog ¹	Buddiannau mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)	Budd-daliadau pensiwn	Cyfa-nswm	Cyflog ²	Buddiannau mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)	Budd-daliadau pensiwn	Cyfa-nswm
	£'000	£	£'000	£'000	£'000	£	£'000	£'000
Aelodau								
Ron Barclay - Smith	30-35	-	-	30-35	30-35	-	-	30-35
Dominic Booth ³	0	-	-	0	5-10 (15-20)	-	-	5-10
William Matthews	15-20	-	-	15-20	15-20	-	-	15-20
Andrew Pollins ⁴	0	-	-	0	10-15 (15-20)	-	-	10-15
Stella Thomas ⁵	0	-	-	0	10-15 (15-20)	-	-	10-15
Beverley Shears	15-20	-	-	15-20	15-20	-	-	15-20
William Gallagher	15-20	-	-	15-20	15-20	-	-	15-20
Martin Richards ⁶	15-20 (15-20)	-	-	15-20	15-20	-	-	15-20
Graham Evans ⁷	10-15 (15-20)	-	-	10-15	15-20	-	-	15-20
Kenna Kintrea	15-20	-	-	15-20	15-20	-	-	15-20
Andrew Cooper ⁸	25-30	-	-	25-30	25-30	-	-	25-30
Sir Craig Mackey	15-20	-	-	15-20	15-20	-	-	15-20
Mike Gallop ⁹	10-15 (15-20)	-	-	10-15	0-5 (15-20)	-	-	0-5
Emir Feisal ¹⁰	15-20	-	-	15-20	0-5 (15-20)	-	-	0-5
Nick Hawkins ¹¹	15-20	-	-	15-20	0-5 (15-20)	-	-	0-5
Fiona Brunskill ¹²	15-20	-	-	15-20	0-5 (15-20)	-	-	0-5
Stewart Jackson ¹³	15-20	-	-	15-20	0-5 (15-20)	-	-	0-5

1 Dangosir cyfwerth â blwyddyn lawn mewn cromfachau

2 Dangosir cyfwerth â blwyddyn lawn mewn cromfachau

3 Gadawodd Dominic Booth ar 31/08/2021

4 Gadawodd Andrew Pollins ar 31/12/2021

5 Gadawodd Stella Thomas ar 31/12/2021

6 Gadawodd Martin Richards ar 25/01/2023

7 Gadawodd Graham Evans ar 29/12/2022

8 Cyflawnodd Andrew Cooper rôl Dirprwy Gadeirydd dros dro yn 2021-22 a 2022-23.

9 Ymunodd Mike Gallop ar 23/02/22 a gadawodd ar 14/01/23

10 Ymunodd Emir Feisal ar 28/02/2022

11 Ymunodd Nick Hawkins ar 23/02/2022

12 Ymunodd Fiona Brunskill ar 23/02/2022

13 Ymunodd Stewart Jackson ar 28/02/2022

Tâl Cydnabyddiaeth Swyddogion yr Awdurdod a Grŵp y Prif Swyddogion (Archwiliwyd)

	2022/23				
	Cyflog ¹⁴	Taliadau iawndal	Buddiannau mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)	Budd-daliadau pensiwn	Cyfanswm
	£'000	£'000	£	£'000	£'000
Swyddogion yr Awdurdod					
Hugh Ind	150-155	-	-	35	185-190
Sarah McGarel	125-130	-	2,100	31	160-165
Rubeela Qayyum ¹⁵	60-65 (115-120)	-	-	17	80-85
Grŵp y Prif Swyddogion					
Lucy D'Orsi ¹⁶	175-180	-	200	40	215-220
Alistair Sutherland ¹⁷	145-150	-	200	-	145-150
Adrian Hanstock ¹⁸	-	-	-	-	-
Sean O'Callaghan	130-135	-	200	27	160-165
Simon Downey ¹⁹	0-5 (150-155)	77	-	-	75-80
Tracey Martin	130-135	-	-	33	165-170
Rachael Etebar	135-140	-	200	33	170-175
Charlie Doyle	130-135	-	200	-	130-135
Allan Gregory ²⁰	110-115 (115-120)	-	200	16	125-130

14 Dangosir cyfwerth â blwyddyn lawn mewn cromfachau.

15 Ymunodd Rubeela Qayyum ar 15/08/2022 i gyflenwi cyfnod mamolaeth Sarah Church.

16 Penodwyd Lucy D'Orsi yn Brif Gwnstabl am gyfnod o bedair blynedd, gyda'r cyfnod cychwynnol yn cael ei wasanaethu fel secondiad o Wasanaeth yr Heddlu Metropolitan aidd rhwng 22 Mawrth 2021 a 19 Ionawr 2022. Y costau ar gyfer y secondiad hwn yn 2021-22 oedd £190,000 – £195,000, sy'n cynnwys cwmplas ei chyflog, lwfansau a chyfraniadau pensiwn a wnaed yn uniongyrchol gan yr Heddlu Metropolitan aidd yn cynnwys cyflog cyfwerth ag amser llawn o £155,000 – £160,000 a lwfansau o £15,000 – £20,000. Arhosodd ei threfniadau pensiwn gyda'r Heddlu Metropolitan aidd am gyfnod y secondiad. Wrth gael ei chyflogi gan Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar 20 Ionawr 2022, y cyflog a dderbyniwyd hyd at 31 Mawrth 2022 oedd £20,000 – £25,000, felly cyfanswm cost cyflog ar gyfer 2021-22 o £215,000 – 220,000. Talwyd y cyflog cyfwerth ag amser llawn i Lucy ar gyfer 2022-23.

17 Ymunodd Alistair Sutherland â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar 08/11/2021.

18 Gadawodd Adrian Hanstock yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar 31/12/2021.

19 Gadawodd Simon Downey yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar 11/03/2022. Talwyd taliadau iawndal yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.

20 Dechreuodd rôl dros dro Allan Gregory fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol ar 2 Awst 2021 a daeth i ben ym mis Mawrth 2023 ac ar yr adeg honno gwnaed y swydd yn barhaol.

Tâl Cydnabyddiaeth Swyddogion yr Awdurdod a Grŵp y Prif Swyddogion (Archwiliwyd)

	2021/22				
	Cyflog ²¹	Taliadau iawndal	Buddiannau mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)	Budd-daliadau pensiwn	Cyfanswm
	£'000	£'000	£	£'000	£'000
Swyddogion yr Awdurdod					
Hugh Ind	150-155	-	-	33	185-190
Sarah McGarel	125-130	-	2,000	29	155-160
Rubeela Qayyum ²²	-	-	-	-	-
Grŵp y Prif Swyddogion					
Lucy D'Orsi ²³	215-220	-	200	9	225-230
Alistair Sutherland ²⁴	45-50 (140-150)	-	200	-	45-50
Adrian Hanstock ²⁵	145-150 (165-170)	-	1,700	31	180-185
Sean O'Callaghan	130-135	-	200	31	165-170
Simon Downey ²⁶	150-155	-	200	24	175-180
Tracey Martin	130-135	-	200	30	160-165
Rachael Etebar	135-140	-	200	33	170-175
Charlie Doyle	130-135	-	200	-	130-135
Allan Gregory ²⁷	100-105	-	100	36	135-140

21 Dangosir cyfwerth â blwyddyn lawn mewn cromfachau.

22 Ymunodd Rubeela Qayyum ar 15/08/2022 i gyflenwi cyfnod mamolaeth Sarah Church.

23 Penodwyd Lucy D'Orsi yn Brif Gwnstabl am gyfnod o bedair blynedd, gyda'r cyfnod cychwynnol yn cael ei wasanaethu fel secondiad o Wasanaeth yr Heddlu Metropolitanaidd rhwng 22 Mawrth 2021 a 19 Ionawr 2022. Y costau ar gyfer y secondiad hwn yn 2021-22 oedd £190,000 – £195,000, sy'n cynnwys cwmpas ei chyflog, lwfansau a chyfraniadau pensiwn a wnaed yn uniongyrchol gan yr Heddlu Metropolitanaidd yn cynnwys cyflog cyfwerth ag amser llawn o £155,000 – £160,000 a lwfansau o £15,000 – £20,000. Arhosodd ei threfniadau pensiwn gyda'r Heddlu Metropolitanaidd am gyfnod y secondiad. Wrth gael ei chyflogi gan Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar 20 Ionawr 2022, y cyflog a dderbyniwyd hyd at 31 Mawrth 2022 oedd £20,000 – £25,000, felly cyfanswm cost cyflog ar gyfer 2021-22 o £215,000 – 220,000.

24 Ymunodd Alistair Sutherland â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar 08/11/2021.

25 Gadawodd Adrian Hanstock yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar 31/12/2021.

26 Gadawodd Simon Downey yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar 11/03/2022. Talwyd taliadau iawndal yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.

27 Dechreuodd rôl dros dro Allan Gregory fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol ar 2 Awst 2021 a daeth i ben ym mis Mawrth 2023 ac ar yr adeg honno gwnaed y swydd yn barhaol.

Cyflog

Mae cyflog yn cynnwys cyflog cyfeirio, goramser, pwysoliad Llundain a/neu lwfansau Llundain, hawliau neilltuedig i lwfans tai, ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n destun trethiant y DU. Nid yw'n cynnwys symiau sy'n ad-daliad o dreuliau a dynnwyd yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau unigolyn.

Taliadau bonws

Nid yw Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig fel arfer yn gweithredu cynllun bonws. Ni roddwyd unrhyw fonysau cysylltiedig â pherfformiad yn 2021-22 na 2022-23.

Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EF fel enillion trethadwy. Mae'r buddion mewn nwyddau a dderbynnir yn cynnwys gofal iechyd, y defnydd o gerbydau a buddion teithio eraill.

Tâl perfformiad

Mae trefn rheoli perfformiad ar waith, lle mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cytuno ar amcanion ar gyfer Grŵp y Prif Swyddogion. Mae'r adolygiadau datblygu perfformiad yn cael eu cychwyn ar ddiwedd y flwyddyn gan Brif Gwnstabl Grŵp y Prif Swyddogion a Phrif Weithredwr tîm gweithredol Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae Cadeirydd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn asesu'r Prif Gwnstabl a Phrif Swyddog Gweithredol Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn erbyn amcanion diffiniedig. Asesir y rhain gan Bwyllgor Penodiadau, Tâl Cydnabyddiaeth ac Arfarnu Awdurdod yr Heddlu. Yr unig gyfle ar gyfer datblygiad cyflog ar sail perfformiad yw ar gyfer Prif Gwnstabliaid Cynorthwyol (a sifiliaid cyfatebol), sy'n symud drwy raddfa gyflog pan asesir bod eu perfformiad yn foddhaol neu'n eithriadol. Mae'r Prif Gwnstabl a'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn cael cyflog ar gyfradd benodol.

Datgeliadau Cyflog Teg (Archwiliwyd)

Canran y newid yng nghyfanswm cyflog a bonysau'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf a chyfartaledd y staff

	2022/23		2021/22	
	Cyfanswm cyflog a lwfansau	Taliadau bonws	Cyfanswm cyflog a lwfansau	Taliadau bonws
Cyfartaledd staff	6.20%	22%	0.30%	15%
Cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf	2.90%	0%	(22.47%)	0%

Cymhareb rhwng cyfanswm tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf a'r chwarterl isaf, y canolrif a'r chwarterl uchaf ar gyfer tâl staff

	Chwarterl isaf	Canolrif	Chwarterl uchaf
2022-23	5.5:1	4.4:1	3.5:1
2021-22	5.7:1	4.5:1	3.6:1

Chwartzel isaf, canolrif a chwartzel uchaf ar gyfer tâl staff am gyflogau a chyfanswm tâl a buddion

	2022/23	2021/22	2022/23	2021/22	2022/23	2021/22
	Chwartzel isaf		Canolrif		Chwartzel uchaf	
Cyflog	28,932	27,030	36,852	34,950	43,032	41,130
Cyfanswm tâl a buddion	32,390	30,411	40,105	38,056	50,066	48,036

Band tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn 2022-23 oedd £177,500 (2021-22, £172,500). Roedd hyn 4.4 gwaith (2021-22: 4.5 gwaith) tâl cydnabyddiaeth canolrifol y gweithlu, sef £40,105 (2021-22: £38,056). Ni dderbyniodd y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf unrhyw daliadau bonws yn 2022-23 na 2021-22.

Yn 2022-23, roedd 0 (2021-22: 0) o weithwyr a oedd yn derbyn tâl cydnabyddiaeth a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Roedd y tâl cydnabyddiaeth yn amrywio o £15,000 – £20,000 i £150,000 – £155,000 (2021-22: £15,000 – £20,000 i £150,000 – £155,000).

Mae cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar wahân ar sail perfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Cymeradwyodd yr Awdurdod godiad cyflog o £1,902 yn ystod 2022-23 ar gyfer yr holl weithwyr, yn ogystal â chynnydd mewn nifer o lwfansau. Dyma'r achos dros y cynnydd mewn tâl cydnabyddiaeth fesul chwartzel yn 2022-23 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a'r gostyngiad yn y cymarebau. Mae'r cynnydd yng nghyfarwartaedd tâl cydnabyddiaeth staff yn 2022-23 hefyd o ganlyniad i gynnydd mewn pwyntiau ar y golofn gyflog. Ni roddwyd dyfarniad cyflog yn ystod 2021-22. Mae'r cynnydd yng nghyfarwartaedd tâl cydnabyddiaeth staff yn 2021-22 o ganlyniad i gynnydd mewn pwyntiau ar y golofn gyflog.

Cynyddodd band tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf rhwng 2021-22 a 2022-23 oherwydd y codiad o £1,902 a roddwyd i bob cyflogai. Gostyngodd band tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf rhwng 2021-22 a 2020-21 oherwydd newid yn ddeiliad swydd y Prif Gwnstabl.

Budd-daliadau pensiwn

Cynllun pensiwn rheilffyrdd – Staff yr Awdurdod a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Darperir budd-daliadau pensiwn ar gyfer staff yr Awdurdod a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig trwy Adran Costau a Rennir Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae hwn yn gynllun pensiwn cofrestredig a'i fwriad yw bod yn gynllun wedi'i ariannu'n llawn sy'n darparu budd-daliadau ar "gyflog terfynol" ar oedran ymddeol arferol o 60. Mae budd-daliadau yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o dâl cyfartalog terfynol (llai 1/40fed o bensiwn sylfaenol terfynol y wladwriaeth) ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy. Yn ogystal, mae cyfandaliad cyfwerth ag 1/40fed o dâl cyfartalog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth yn daladwy ar adeg ymddeol. Talodd aelodau gyfraniadau o 10.68% o dâl pensiynadwy (llai 1.5 gwaith pensiwn sylfaenol y wladwriaeth) hyd at ac yn cynnwys 31 Mawrth 2023. Cynyddir pensiynau sy'n cael eu talu a'u gohirio yn unol â gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf Pensiynau (Cynyddu) 1971.

Ar adeg marwolaeth, mae pensiynau'n daladwy i'r priod sy'n goroesi ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Ar adeg marwolaeth mewn gwasanaeth, mae'r cynllun yn talu cyfandaliad budd marwolaeth o bedair gwaith y cyflog cyfartalog terfynol a hefyd yn darparu ychwanegiad gwasanaeth wrth gyfrifo pensiwn y priod, sy'n dibynnu ar hyd gwasanaeth.

Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl mewn achos o salwch difrifol. Yn yr achos hwn, telir pensiynau ar unwaith heb leihad actiwaraid a chyda gwasanaeth ychwanegol fel ar gyfer pensiynau gweddwr neu ŵr gweddwr.

Cronfa Blwydd-daliadau'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig – Swyddogion Heddlu

Darperir budd-daliadau pensiwn i Swyddogion Heddlu trwy Gronfa Blwydd-daliadau'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae hwn yn gynllun pensiwn cofrestredig a bwriedir iddo fod yn gynllun wedi'i ariannu'n llawn sy'n darparu buddion ar sail "budd diffiniedig". Mae tri strwythur budd-daliadau ar waith ar gyfer aelodau, sy'n amrywio yn ôl p'un a wnaethant ymuno â'r gronfa cyn 1 Ebrill 2007, rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2015, neu ar ôl 31 Mawrth 2015.

Cyn 1 Ebrill 2015, roedd aelodau'n ennill buddion ar strwythur "cyflog terfynol", tra bod y rhai sy'n ymuno o 1 Ebrill 2015 ymlaen yn gallu ymuno â strwythur buddion Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio ("CARE"). Ar gyfer pob strwythur budd-daliadau, mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn talu 60% o gyfanswm cost flynyddol cronni buddion newydd, gydag aelodau'n talu'r 40% sy'n weddill.

Ar gyfer aelodau a ymunodd cyn 1 Ebrill 2007, gellir cymryd budd-daliadau heb eu lleihau o 55 oed (ac eithrio pan fo gan aelodau oedran pensiwn 'gwarchodedig'). Mae budd-daliadau yn cronni ar gyfradd o 1/45fed o gyflog cyfartalog terfynol (llai 1/30fed o bensiwn sylfaenol cyfartalog terfynol y wladwriaeth) ar gyfer pob blwyddyn o aelodaeth lesiannol. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i 1/30fed o'r cyflog cyfartalog terfynol ar gyfer pob blwyddyn o aelodaeth lesiannol yn daladwy ar adeg ymddeol. Ar hyn o bryd, mae aelodau'n talu cyfraniadau o 16% o enillion pensiynadwy (llai 1.5 gwaith pensiwn sylfaenol y wladwriaeth). Mae pensiynau sy'n cael eu talu a'u gohirio yn cael eu cynyddu yn unol â gorchmynion a wneir o dan Ddeddf Pensiynau (Cynyddu) 1971.

Ar gyfer aelodau'r gronfa a ymunodd rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2015, gellir cymryd budd-daliadau heb eu lleihau o 55 oed (ac eithrio pan fo gan aelodau oedran pensiwn 'gwarchodedig') os ydynt yn ymddeol o wasanaeth gweithredol a 65 oed os ydynt yn ymddeol ar ôl gadael Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae budd-daliadau yn cronni ar gyfradd o 1/70fed o gyflog cyfartalog terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad cyfwerth â 4/70fed o'r cyflog cyfartalog terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth yn daladwy ar ymddeoliad. Mae aelodau ar hyn o bryd yn talu cyfraniadau o 12% o gyflog pensiynadwy. Mae pensiynau sy'n cael eu talu a'u gohirio yn cael eu cynyddu yn unol â gorchmynion a wneir o dan Ddeddf Pensiynau (Cynyddu) 1971.

Ar gyfer aelodau a ymunodd o 1 Ebrill 2015, yr oedran ymddeol arferol o wasanaeth gweithredol yw 60 ac, ar gyfer ymddeoliad, ar ôl gadael cyflogaeth Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, mae'n 65. Mae budd-daliadau yn cronni ar gyfradd o 1/55.3 o gyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth gweithredol, gyda chyfradd ailbrisio

ar gyfer aelodau gweithredol yn seiliedig ar Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr ynghyd ag 1.25% y flwyddyn. Nid oes unrhyw fudd-daliadau arian parod ar wahân yn cronni, er bod gan aelodau'r opsiwn i gyfnewid rhywfaint o bensiwn am arian parod (yn unol â rheolau CThEM), ar delerau y cytunir arnynt rhwng yr ymddiriedolwr ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o bryd i'w gilydd. Mae aelodau ar hyn o bryd yn talu 10% o gyflog pensiynadwy. Mae pensiynau sy'n cael eu talu a'u gohirio yn cael eu cynyddu yn unol â gorchmynion a wneir o dan Ddeddf Pensiynau (Cynyddu) 1971.

Ar adeg marwolaeth, mae pensiynau'n daladwy i'r priod sy'n goroesi neu ddibynnydd cymwys ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Mae pensiynau hefyd ar gael i blant aelodau. Efallai na fydd pensiynau goroeswyr yn daladwy mewn perthynas ag aelodau a ymunodd ar ôl 1 Ebrill 2007 os oes ganddynt lai na dwy flynedd o wasanaeth. Ar adeg marwolaeth mewn gwasanaeth, mae'r gronfa yn talu cyfandaliad budd marwolaeth o bedair gwaith y cyflog pensiynadwy a hefyd yn darparu ychwanegiad gwasanaeth wrth gyfrifo pensiwn y priod, sy'n dibynnu ar hyd gwasanaeth.

Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl mewn achos o analluogrwydd. Yn yr achos hwn, telir pensiynau ar unwaith heb ostyngiad actiwaraid. Os nad yw'r aelod yn gallu gweithio mewn unrhyw swyddogaeth, (nid yn unig fel Swyddog Heddlu), gellir caniatáu pensiwn uwch iddo yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwr.

Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod

Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari o'r budd-daliadau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y budd-daliadau a brisir yw budd-daliadau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod wrth gefn o'r cynllun.

Taliad yw gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod a wneir gan gynllun pensiwn, neu drefniant i sicrhau budd-daliadau pensiwn mewn cynllun pensiwn arall, neu drefniant pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol.

Cyfrifir gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod gan yr ymddiriedolwr yn unol â deddfwriaeth a chyngor actiwaraid.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r budd-daliadau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod, ac o 2003/04 y manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn arall.

Dangosir y cynnydd mewn gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod a ariennir i bob pwrpas gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant a chyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) gan ddefnyddio ffactorau prisio marchnad safonol a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y flwyddyn.



Budd-daliadau Pensiwn (Archwiliwyd)

Swyddogion	Gwerthoedd cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/23		Gwerth cynnydd gwirioneddol ar oedran pensiwn		Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31/03/22	Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31/03/23	Cynnydd gwirioneddol mewn gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod
	Pensiwn	Cyfandaliad	Pensiwn	Cyfandaliad			
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000

Aelodau'r Awdurdod

Nid yw aelodau'r Awdurdod yn gymwys i ymuno â'r cynllun

Swyddogion yr Awdurdod

Hugh Ind	5-10	5-10	0-2.5	0-2.5	119	122	3
Sarah McGarel	5-10	10-15	0-2.5	0-2.5	96	75	21
Rubeela Qayyum	0-5	0-5	0-2.5	0-2.5	-	10	10

Grŵp y Prif Swyddogion

Sean O'Callaghan	5-10	10-15	0-2.5	0-2.5	135	127	8
Rachael Etebar	5-10	10-15	0-2.5	0-2.5	165	172	7
Tracey Martin	5-10	10-15	0-2.5	0-2.5	128	121	7
Allan Gregory	50-55	85-90	0-2.5	2.5-5	1,110	1,241	131
Lucy D'Orsi	0-5	0-5	2.5-5	0-2.5	10	46	36
Adrian Hanstock	-	-	-	-	403	-	403
Simon Downey	-	-	-	-	318	-	318
Paul Crowther	Wedi optio allan o'r cynllun						
Charlie Doyle	Wedi optio allan o'r cynllun						
Alistair Sutherland	Wedi optio allan o'r cynllun						





Adroddiad staff

Cyfanswm cyfartalog y bobl a gyflogir (archwiliwyd)

	2022/23	2021/22
Staff a gyflogir yn barhaol*	4,840	4,797
Staff dros dro**	119	116
Cwnstablaid Arbennig***	265	293
Cyfanswm	5,224	5,205

Mae niferoedd cyfartalog y staff yn seiliedig ar nifer y staff a thelerau cyflogaeth.

* Staff a gyflogir yn barhaol a ddiffinnir fel staff â contract cyflogaeth parhaol (DU).

** Staff a gwirfoddolwyr a gyflogir dros dro i fodloni amcanion yr endid.

*** Mae gan Gwnstablaid Arbennig contract gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig sydd ychydig yn wahanol i un gweithwyr eraill, felly maent wedi'u datgelu ar wahân.

Mae cyfanswm costau staff yn cynnwys (archwiliwyd):

	2022/23			2021/22
	Staff a gyflogir yn barha	Staff eraill	Cyfanswm	Cyfanswm
		£'000	£'000	£'000
Cyflogau	218,035	1,460	219,495	210,071
Costau nawdd cymdeithasol	22,863	-	22,863	20,357
Costau pensiwn eraill	109,149	-	109,149	113,826
Cyfanswm	350,047	1,460	351,507	344,254
Llai o adferiadau mewn perthynas â secondiadau allanol	(1,136)	-	(1,136)	(1,031)
Cyfanswm costau net	348,911	1,460	350,371	343,222

Cyfanswm y gwariant ar ymgynghoriaeth ar gyfer 2022-23 yw £1,167,137 (2021-22: £845,518). Mae hyn yn cynnwys £10,318 o gostau ymgynghori wedi'u cyfalafu.

Cyfanswm y gwariant ar staff dros dro ar gyfer 2022-23 yw £1,459,769 (2021-22: £1,104,637).

Adrodd ar hawliadau iawndal y gwasanaeth sifil a hawliadau eraill – pecynnau ymadael (archwiliwyd):

Band cost y pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt		Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost	
	2022/23	2021/22	2022/23	2021/22	2022/23	2021/22
£0-£25,000	16	14	4	12	20	26
£25,001-£50,000	1	3	-	5	1	8
£50,001-£100,000	-	-	1	1	1	1
£100,000-£150,000	-	-	-	-	-	-
£150,000+	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	17	17	5	18	22	35
Cyfanswm gwerth y pecynnau (£'000)	143	186	88	449	231	635

Roedd 17 o ddiswyddiadau gorfodol yn dod i gyfanswm o £143k yn 2022-23 (2021-22: 17, sef cyfanswm o £186k).

Roedd cyfanswm o bum ymadawiad arall yn 2022-23, sef cyfanswm o £88k (2021-22: 18, sef cyfanswm o £449k).

Cyfansoddiad y gweithwyr


Nifer y bobl o bob rhyw a oedd yn gyflogaion i'r endid ar 31 Mawrth 2023.

	2022/23			2020/21 (Wedi ailddatgan) ¹		
	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Aelodau'r Awdurdod	8	3	11	11	3	14
Swyddogion yr Awdurdod a'r Drefn Reoli Strategol	5	5	10	5	4	9
Staff sy'n weddill	3,562	1,691	5,253	3,562	1,613	5,175
Cyfanswm	3,575	1,699	5,274	3,578	1,620	5,198

¹ Mae cyfanswm y merched yn 2021-22 wedi'i ailddatgan i 1,620 gan fod y cyfanswm a ddatgelwyd yn y flwyddyn flaenorol (1,621) yn anghywir.

Abseoldebau oherwydd salwch

Dyddiau salwch cyfartalog fesul unigolyn 2022-23



Ar gyfer 2022-23, gostyngodd diwrnodau dyletswydd salwch cyfartalog yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig fesul unigolyn 3.71 diwrnod, i gyfartaledd o 8.69 (2021-22: 12.40) o ddiwrnodau dyletswydd salwch fesul unigolyn. Bu gostyngiad mewn diwrnodau salwch ar gyfer pob math o weithwyr – swyddogion, staff a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Mae rheoli salwch a phresenoldeb yn parhau i fod yn ffocws allweddol i bawb, gyda'r bwriad o gefnogi llesiant gweithwyr a chynyddu presenoldeb yn y gwaith i'r eithaf.

Amser Cyfleuster Undeb Llafur

O dan Reoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 (Offeryn Statudol 328), roedd gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 17 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn a oedd yn swyddogion undeb yn ystod y cyfnod. Roedd yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb yn cyfateb i 100% o gyfanswm yr amser gweithio ar gyfer un unigolyn, ac 1% – 50% ar gyfer yr 16 arall; 0.02044% o gyfanswm bil cyflog yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o £188,236k yn cael ei wario ar amser cyfleuster. Rhoddwyd cyfanswm o 0.75% o wyliau â thâl ar gyfer gweithgareddau undeb llafur lle nad oedd hawl statudol i wyliau â thâl. Mae hyn yn cyfateb i werth cyflog o £4k.

Tablau Oddi ar y Gyflogres

Mae proses lywodraethu gadarn ar waith i herio a rheoli achosion o sicrhau gwasanaethau oddi ar y gyflogres ac i sicrhau cydymffurfedd. Ystyriwyd bod pob achos o sicrhau gwasanaeth naill ai o fewn cwrpas neu heb fod yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth. I'r rhai nad oeddent yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth, cafodd eu gwasanaethau eu sicrhau drwy gwmnïau ymbarél neu ar gyflogres sefydliad yn y gadwyn gyflenwi.

Achosion o sicrhau gwasanaethau gweithwyr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel ar 31 Mawrth 2023, gan ennill £245 y diwrnod neu fwy.

	2022/23	2021/22
Nifer yr achosion presennol o sicrhau gwasanaethau ar 31 Mawrth 2023	8	8
O'r rhain, y nifer a fodolai:		
llai na blwyddyn ar y dyddiad adrodd	7	7
rhwng un a dwy flynedd ar y dyddiad adrodd	0	1
rhwng un a dwy flynedd ar y dyddiad adrodd	1	0
rhwng un a dwy flynedd ar y dyddiad adrodd	0	0
mwy na phedair blynedd ar y dyddiad adrodd	0	0

Pob gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel a gafodd ei wasanaethau eu sicrhau ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, gan ennill £245 y diwrnod neu fwy.

	2022/23	2021/22
Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gafodd eu gwasanaethau eu sicrhau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023	18	18
Ddim yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres	14	7
Yn amodol ar ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'i bennu fel un sydd o fewn cwmpas IR35	4	11
Yn amodol ar ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'i bennu fel un y tu allan i gwmpas IR35	0	0
Nifer yr achosion o sicrhau gwasanaethau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	0	2
O'r rhain: Nifer yr achosion o sicrhau gwasanaethau a welodd newid i IR35 yn dilyn adolygiad	0	0

Ar gyfer unrhyw achosion o sicrhau gwasanaethau oddi ar y gyflogres gan aelodau bwrdd, a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

	2022/23	2021/22
Cyfanswm yr unigolion yr ystyriwyd eu bod yn 'aelodau bwrdd', a/neu'n uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys achosion o sicrhau gwasanaethau ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres	10	10
Nifer yr achosion o sicrhau gwasanaethau oddi ar y gyflogres gan aelodau bwrdd a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol	0	0

Ymgysylltu â gweithwyr

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cydnabod y cymdeithasau staff canlynol:

- Ffederasiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Cymdeithas yr Uwch-arolygwyr
- Cymdeithas Staff Cyflogedig Trafnidiaeth

Mae'r grwpiau cymorth canlynol yn gweithredu yn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Rhwydwaith Anabledd a Niwroamrywiaeth
- Cymdeithas yr Heddlu Mwslimaidd
- Cymdeithas Gristnogol yr Heddlu
- Cymdeithas Heddlu Benywaidd
- Cymdeithas Heddlu Sipsiwn, Roma neu Deithwyr
- Cymdeithas yr Heddlu Iddewig
- Rhwydwaith Cefnogi LHDT+ (Cymorth Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol)
- Cymdeithas Gymorth ar gyfer Staff Lleiafrifoedd Ethnig
- Cymdeithas yr Heddlu Hindwaid

Rheoli anabledd

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn croesawu ymgeiswyr ag anabledd ac mae'r tîm recriwtio'n gweithio mewn ymgynghoriad â'r Tîm Cynhwysiant ac Amrywiaeth, lle bo'n briodol, i gefnogi cyfweiliadau cynhwysol ar gyfer ymgeiswyr ag anabledd.

Mae gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig hefyd broses ar waith i hwyluso ymgynghori

â'r Adran Iechyd Galwedigaethol ar gyfer pob cyflwr meddygol ac iechyd i sicrhau bod yr holl addasiadau a chymorth rhesymol priodol yn cael eu hystyried fesul achos.

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi sefydlu grŵp llywio anabledd a niwroamrywiaeth gyda rhanddeiliaid allweddol, wedi'i gadeirio ar lefel Prif Gwnstabl Cynorthwyol, i weithio drwy'r prosesau sydd eu hangen i sicrhau bod addasiadau yn y gweithle a darpariaethau yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi cyflogeion, gan ddefnyddio'r model cymdeithasol o anabledd a niwroamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys lansio'r pasbort addasiadau gweithle, sy'n cynnig cymorth cyfannol ar gyfer pob cyflwr anfeddygol sydd angen addasiadau. Mae'r Tîm Cynhwysiant ac Amrywiaeth yn cynnal digwyddiadau, gweminarau a sesiynau gwybodaeth yn rheolaidd i gefnogi'r gwaith hwn wrth godi ymwybyddiaeth o bynciau a themâu anabledd a niwroamrywiaeth, gyda hyfforddiant wedi'i gynllunio ar gyfer uwch-arweinwyr a rheolwyr llinell.



Hugh Ind

Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad

17 Gorffennaf 2023



ADRODDIAD ATEBOLRWYDD SENEDDOL AC ARCHWILIO

Rheoleidd-dra gwariant:

Colledion a Thaliadau Arbennig (archwiliwyd)

	2022/23	2021/22
Cyfanswm nifer y colledion a thaliadau arbennig	214	198
Cyfanswm gwerth colledion a thaliadau arbennig	£979,929	£1,407,181
Datganiad colledion		
Nifer y colledion	104	51
Gwerth colledion	£75,102	£124,604
Datganiad taliadau arbennig		
Nifer y taliadau arbennig	110	147
Gwerth taliadau arbennig	£904,827	£1,282,578

Colledion

Nid oes unrhyw golledion unigol o fwy na £300,000.

Taliadau arbennig

Talwyd cyfanswm o £822,634 (2021-22: £868,271) i setlo hawliadau cyfreithiol gan gyn-weithwyr a'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw daliad unigol o fwy na £300,000.

Mae'r holl daliadau pecynnau ymadael wedi'u datgelu yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth.

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DDAU DŶ'R SENEDD

Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Mewn perthynas â Chronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023
- Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad Llif Arian a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- y nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu arwyddocaol

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r canlynol yn wir am y datganiadau ariannol:

- maent yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar 31 Mawrth 2023 a'i diffyg ariannol net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno

Barn ar reoleidd-dra

In my opinion, in all material respects, the income and expenditure recorded in the financial statements have been applied to the purposes intended by Parliament and the financial transactions recorded in the financial statements conform to the authorities which govern them.

Sail i farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU), y gyfraith berthnasol, a Nodyn Ymarfer 10 Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2002). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynol ar Gronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw elfennau ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i barhau fel busnes hyfyw am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail cyfrifyddu busnes hyfyw Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cael ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blyneddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na'm tystysgrif a'm hadroddiad archwilydd. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol, neu'r wybodaeth a gefais yn yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos fel pe bai wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, bod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys

Materion eithriedig yr wyf yn adrodd arnynt

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd arnynt i chi os yw'r canlynol yn wir, yn fy marn i:

- Ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan Gronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â nhw gan fy staff; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw rhai datgeliadau o daliadau cydnabyddiaeth a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF wedi'u gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth

a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfedd â chanllawiau Trysorlys EF.

Cyfrifoldebau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir
- darparu mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennau a materion eraill
- rhoi gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen ar gyfer ei archwiliad
- sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath ar waith fel y bernir sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall
- sicrhau bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac yn cael eu paratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth, yn cael ei baratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003
- asesu gallu Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai fod yr Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol o ran diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Nodi ac asesu risgiau posibl sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiad sylweddol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, rwyf wedi gwneud y canlynol:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol, gan gynnwys cynllun polisiau cyfrifyddu Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisiau a gweithdrefnau Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar y canlynol:

- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau
- canfod ac ymateb i risgiau twyll
- y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys rheolaethau Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig sy'n ymwneud â chydymffurfedd Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig â Deddf Rheilffyrdd a Diogelwch Trafnidiaeth 2003 a Rheoli Arian Cyhoeddus
- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a ydynt:
 - yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau
 - yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig
- trafod ymhlith y tîm ymgysylltu a chynnwys arbenigwyr mewnol perthnasol, gan gynnwys arbenigwyr pensiwn, ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd a ganlyn: cydnabyddiaeth referniw, postio cofnodion dyddlyfr anarferol, trafodion cymhleth, rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli, gan gynnwys y rhwymedigaethau pensiwn buddion diffiniedig. Yn gyffredin â phob archwiliad o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU), mae hefyd yn ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

Cefais ddealltwriaeth hefyd o fframwaith awdurdod Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gweithredu ynddynt. Canolbwyntiais ar y deddfau a rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Roedd y deddfau a rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a

Thrafnidiaeth 2003, Rheoli Arian Cyhoeddus, a chyfraith cyflogaeth a deddfwriaeth drethiant berthnasol.

Ymateb yr archwilywyr i'r risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod, rwyf wedi gwneud y canlynol:

- adolygu'r datganiadau ariannol a'r profion i'r dogfennau ategol i asesu cydymffurfedd â darpariaethau'r deddfau a rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl
- adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol
- profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy i reolwyr ddiystyru rheolaethau; asesu a yw'r dyfarniadau ar amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol y busnes ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes

Rhannais deddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll â phob aelod o'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol, ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

Cyfrifoldebau eraill fel archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies

Dyddiad 18 Gorffennaf

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road

Victoria

London

SW1W 9SP





**ADRODDIAD
ARIANNOL**



Datganiad o incwm cynhwysfawr

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

	Nodi- adau	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2023 £'000
Incwm			
Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu	6	249,167	234,228
Incwm Arall	6	101,495	96,895
		350,662	331,123
Gwariant			
Costau staff	7	(350,371)	(343,223)
Dibrisiant ac amorteiddiad	8	(29,181)	(18,162)
Gwariant arall	8	(54,086)	(58,864)
		(433,638)	(420,249)
Diffyg gweithredu		(82,976)	(89,126)
Llog net a dderbyniwyd		279	3
Llog net taladwy ar gyfer cynlluniau pensiwn	23	(23,420)	(20,030)
Costau cyllid	8	(1,082)	(734)
Ennill ar addasu les		–	4
Diffyg net ar gyfer y flwyddyn ariannol		(107,199)	(109,883)
Incwm cynhwysfawr arall			
Eitemau na fydd yn cael eu hailddosbarthu:			
Enillion/(colledion) net ar ailbriso asedau anghyfredol	22	7,673	3,534
Enillion/(colledion) actiwaraid ar gynlluniau pensiwn â buddion diffiniedig	22	968,480	233,190
		976,153	236,724
Cyfanswm y gwarged/(diffyg) cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023		868,954	126,841

Trosglwyddir unrhyw ddiffyg neu warged net ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol i'r cronfeydd wrth gefn. Nodir y symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn nodyn 22.

Mae pob gweithrediad yn cael ei ddosbarthu fel un sy'n parhau; ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau na gwarediadau perthnasol yn ystod y flwyddyn.

Datganiad o'r sefyllfa ariannol

Ar 31 Mawrth 2023

		31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2023
	Nodi- adau	£'000	£'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peiriannau ac offer	9	96,205	87,417
Asedau anniriaethol	10	2,105	2,409
Cyfanswm asedau anghyfredol		98,310	89,826
Asedau cyfredol			
Stocrestrï	12	114	375
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	13	16,504	10,517
Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod	14	49,812	53,331
Cyfanswm asedau cyfredol		66,430	64,223
Cyfanswm asedau		164,740	154,049
Rhwymedigaethau cyfredol			
Masnach a symiau taladwy eraill	15	(57,451)	(55,194)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau	16	(7,925)	(7,352)
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol		(65,376)	(62,546)
Asedau anghyfredol ynghyd ag asedau cyfredol net		99,364	91,503
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Rhwymedigaethau pensiwn	23	(49,419)	(912,506)
Symiau taladwy eraill	15	(25,709)	(25,510)
Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol		(75,128)	(938,016)
Asedau llai rhwymedigaethau		24,236	(846,513)
(Diffyg) net trethdalwyr			
Cronfa incwm a gwariant	22	57,271	57,240
Cronfa ailbrisio	22	16,384	8,753
Cronfa bensiwn wrth gefn	22,23	(49,419)	(912,506)
		24,236	(846,513)

Cafodd y datganiadau ariannol ar dudalennau 88 i 130 eu cymeradwyo gan yr Awdurdod ar 17/07/2023 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

Hugh Ind
Swyddog Cyfrifyddu
Dyddiad 17 Gorffennaf 2023

Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

	Nodi- adau	Cronfa incwm a gwariant	Cronfa ailbriso	Cronfa benswn wrth gefn	Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn
		£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 01 Ebrill 2021		46,463	5,219	(1,039,126)	(987,444)

Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2021/22

Enillion/(colledion) net ar ailbriso eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol	9,10,22	–	4,094	–	4,094
Enillion/(Colledion) Actiwaraid	22	–	–	233,190	233,190
Diffyg net am y flwyddyn	22	(109,883)	–	–	(109,883)
Ailddosbarthu	22	381	–	–	381
Trosglwyddo i/o'r Cronfeydd Wrth Gefn	23	107,130	(560)	(106,570)	–
Cyllid grant cydnabyddedig yr Adran Drafnidiaeth		13,149	–	–	13,149
Balans ar 31 Mawrth 2022		57,240	8,753	(912,506)	(846,513)

Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2022/23

Addasiadau IFRS 16 ar ôl trosglwyddo	22	–	–	–	–
Enillion/(colledion) net ar ailbriso eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol	9,10,22	–	8,689	–	8,689
Enillion/(Colledion) Actiwaraid	22	–	–	968,480	968,480
Diffyg net am y flwyddyn	22	(107,199)	–	–	(107,199)
Ailddosbarthu	22	(521)	(42)	–	(563)
Trosglwyddo i/o'r Cronfeydd Wrth Gefn	23	106,409	(1,016)	(105,393)	–
Cyllid grant cydnabyddedig yr Adran Drafnidiaeth*	22	1,342	–	–	1,342
Balans ar 31 Mawrth 2023		57,271	16,384	(49,419)	24,236

Datganiad o lif arian
Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

	Nodi- adau	2022/23	2021/22
		£'000	£'000
Llif arian o weithgareddau gweithredu			
Diffyg net ar gyfer y flwyddyn ariannol		(107,199)	(109,883)
Llai addasiadau nad ydynt yn arian parod			
(Elw)/Colled wrth waredu asedau anghyfredol	8	(32)	(132)
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill	13	(5,987)	10,767
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn stocrestri	12	261	(308)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	15	13,220	6,838
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	15	199	9,774
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn darpariaethau	16	573	976
Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer	9	15,813	12,325
Dibrisiant asedau hawl i'w defnyddio	9	12,442	3,991
Amorteiddio asedau anniriaethol	10	926	1,846
Addasiad pensiwn IAS 19	23	81,970	86,540
Llog net taladwy ar gyfer cynlluniau pensiwn	23	23,420	20,030
Costau cyllid	8	1,082	734
Datgydnabod asedau sy'n cael eu hadeiladu	9,10	1,102	75
Datgydnabod ased hawl i ddefnyddio	9	259	326
Symudiadau mewn arian parod a atafaelwyd yn mynd i'r cronfeydd wrth gefn		(579)	380
Llai eitem arian wedi'i dosbarthu mewn man arall yn y datganiad llif arian		(279)	(3)
Llif arian net o weithgareddau gweithredu		37,191	44,276
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	9	(30,197)	(36,290)
Prynu asedau anniriaethol	10	(297)	(509)
Elw o waredu asedau		203	324
Llog a dalwyd/(derbyniwyd)		–	–
Llif arian net o weithgareddau buddsoddi		(30,291)	(36,475)
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Ad-daliad cyfalaf o rwymedigaethau hawl i ddefnyddio	19	(12,040)	(4,193)
Cyllid grant a dderbyniwyd		1,342	13,149
Llog a dderbyniwyd		279	3
Llif arian net o weithgareddau ariannu		(10,419)	8,959
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod		(3,519)	16,760
Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod		53,331	36,571
Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod		49,812	53,331

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Cyffredinol

Mae'r cyfrifon yn cynrychioli cyfrifon endid sengl ar gyfer Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, sef yr endid statudol sy'n cynrychioli Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Heddlu mewn termau ariannol. Nid oes unrhyw endidau y mae Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn eu rheoli wedi'u nodi ac felly nid oes unrhyw gyfrifon cyfunol wedi'u paratoi.

Yr arian cyfred cyflwyniadol ar gyfer y cyfrifon yw'r bunt sterling. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae symiau'n cael eu talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

2. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FRM) 2022/23 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisiau cyfrifyddu a gynhwysir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol mabwysiedig y DU fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (yr Awdurdod) er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisiau penodol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2022/23 isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

2.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i roi cyfrif am ailbrisio asedau anghyfredol.

2.2 Busnes hyfyw

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw oherwydd bod Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i fod yr unig ddarparwr gwasanaethau plismona ar y rhwydwaith rheilffyrdd o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Mae ecwiti negyddol yn codi mewn rhai blynyddoedd ariannol oherwydd ymrwymadau net sylweddol yr Awdurdod mewn perthynas â chynlluniau pensiwn buddion diffiniedig. Fel y datgelir yn Nodyn 23, mae cyfraniadau i'r cynlluniau yn seiliedig ar brisiadau actiwaraid cyfnodol, gan gynnwys cyfraniadau ar gyfer unrhyw ddifffyg gwasanaeth yn y gorffennol. Mae'r incwm sy'n dderbyniadwy o dan gytundebau gwasanaeth cyhoeddus ac o Transport for London (TfL) wedi'i gyfrifo i gynnwys cyfraniadau o'r fath. Mae'r Awdurdod felly wedi penderfynu y gall barhau i gwrdd â'i rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus ac mae'n briodol paratoi ei gyfrifon ar sail busnes hyfyw.

2.3 Safonau cyfrifyddu wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto

Mae IFRS 17, Contractau Yswiriant, yn sefydlu'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu contractau yswiriant o fewn cwrmpas y safon ac mae'n gymwys ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dod i ben ar neu ar ôl 1 Ionawr 2023. Mae'r rheolwyr wedi cynnal adolygiad rhagarweiniol o'r safon hon ac nid ydynt yn disgwyl unrhyw effaith ar yr Awdurdod gan na fyddai unrhyw un o gontractau'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn bodloni'r diffiniad o gontractau yswiriant o dan IFRS 17.

2.4 Eiddo, peiriannau ac offer

Mae eiddo, peiriannau ac offer yn cynnwys gwelliannau a gwaith cyfalaf i adeiladau lesddaliad, offer a pheiriannau, asedau hawl i ddefnyddio, offer technoleg gwybodaeth (TG), gosodiadau a ffitiadau, a cherbydau ffordd sydd eu hangen ar gyfer gweithrediadau parhaus yr Heddlu. Mae'r holl wariant ar gaffael, creu neu wella eiddo, peiriannau ac offer yn cael ei gyfalafu, yn amodol ar derfyn ariannol lleiaf o £1,000, ar sail croniadau yn unol ag IAS 16 – Eiddo, peiriannau ac offer. Mae'r asedau anghyfredol hyn yn cael eu cydnabod i ddechrau ar gost, sy'n cynnwys pris prynu (gan gynnwys treth ar werth (TAW) anadferadwy) ac unrhyw gostau o ddod ag asedau i'r lleoliad a'r cyflwr angenrheidiol er mwyn iddynt allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd. Yn dilyn cydnabyddiaeth, caiff eiddo, peiriannau ac offer

eu hailbrisio a'u hailddatgan i'w gwerth cyfredol bob blwyddyn gan ddefnyddio'r mynegeion costio hanesyddol addasedig perthnasol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).

Mae costau staff mewnol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i adeiladu ased, gan gynnwys cynlluniau adnewyddu cyfalaf, yn cael eu cyfalafu. Mae hyn yn cynnwys staff ar gyflogres yr Awdurdod sy'n gweithio'n benodol ar brosiectau cyfalaf.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu polisi grwpio ar brynu eiddo, peiriannau ac offer. Mae hyn yn golygu, pan brynir sawl eitem o natur cyfalaf gyda'i gilydd a'r gost gyfunol yn fwy na £1,000, y cânt eu cyfalafu hyd yn oed os yw'r eitemau unigol yn costio llai na £1,000.

Mae gwariant sy'n is na'r gwerthoedd hyn yn cael ei godi fel traul yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

Mae'r Awdurdod yn dadgydnabod asedau sydd â dim gwerth llyfr net pan gânt eu tynnu'n ôl o ddefnydd ac ni ddisgwyli'r unrhyw fanteision economaidd yn y dyfodol o'u gwaredu. Yr enillion neu'r colledion wrth waredu yw'r gwahaniaeth rhwng yr enillion a'r swm cario ymlaen ac fe'u cydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

2.5 Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu yn adlewyrchu prosiectau cyfalaf sy'n dal i fynd rhagddynt ac nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio a chânt eu mesur yn ôl cost hanesyddol ac yn destun adolygiad amhariad blynyddol.

2.6 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth dros gyfnodau sy'n cynrychioli oes ddefnyddiol amcangyfrifedig asedau. Mae cerbydau modur yn dechrau cael eu dibrisio unwaith y bydd y cwmni rheoli fflyd wedi cadarnhau eu bod yn cael eu defnyddio. Mae'r holl asedau eraill yn dechrau cael eu dibrisio y mis ar ôl y tybir eu bod ar gael i'w defnyddio.

Yr oes a ddefnyddir ar gyfer y prif gategorïau o asedau yw:

- Gwelliannau lesddaliad – Nifer y blynyddoedd sy'n weddill ar y les ar adeg prynu
- Offer a pheiriannau – 5 mlynedd
- Asedau â hawl eu defnyddio – Nifer y blynyddoedd sy'n weddill ar y les
- Gosodiadau a ffitiadau – 5 mlynedd
- Cerbydau modur – 5 mlynedd
- Offer TG – 4 – 5 mlynedd

Ni ddarperir dibrisiant ar asedau sy'n cael eu hadeiladu.

2.7 Asedau anniriaethol

Mae ased anniriaethol yn ased anariannol adnabyddadwy heb sylwedd ffisegol. Mae asedau anniriaethol yn cael eu cyfalafu os yw'n debygol y bydd y buddion disgwylidig yn y dyfodol sydd i'w priodoli iddynt yn llifo i'r Awdurdod ac os gellir mesur eu cost yn ddibynadwy. Mae meddalwedd a thrwyddedau cyfrifiadurol, y prosiect rhwydwaith ardal eang a gwariant ar ddatblygu gwefan yn cael eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol lle ceir gwariant o £1,000 neu fwy.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu polisi grwpio ar brynu asedau anniriaethol. Mae hyn yn golygu, pan brynir sawl eitem o natur cyfalaf gyda'i gilydd a'r gost gyfunol yn fwy na £1,000, y cânt eu cyfalafu hyd yn oed os yw'r eitemau unigol yn costio llai na £1,000.

Mae asedau anniriaethol a ddatblygwyd yn fewnol, megis meddalwedd cymhwysiadu neu gronfeydd data, gwariant ar ddatblygu mewn cysylltiad â chynnyrch neu wasanaeth sydd i'w gyflenwi ar sail adennill costau llawn, a gwariant datblygu arall yn cael eu cyfalafu os yw'n bodloni'r meini prawf a nodir yn IAS 38 – Asedau Anniriaethol. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys bod yna ased adnabyddadwy a fydd yn arwain at fanteision yn y dyfodol ac a ellir pennu'r gost yn ddibynadwy.

Mae asedau anniriaethol yn cael eu mesur i ddechrau ar gost. Yn dilyn cydnabyddiaeth, caiff asedau anniriaethol eu hailbrisio bob blwyddyn, lle bo'n briodol, gan ddefnyddio mynegeion gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes economaidd ddefnyddiol o ddwy i bum mlynedd yn dibynnu ar fanylion yr ased anniriaethol.

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn dadgydnabod asedau pan gânt eu tynnu'n ôl o ddefnydd ac ni ddisgwylir unrhyw fanteision economaidd yn y dyfodol o'u gwaredu. Yr enillion neu'r colledion wrth waredu yw'r gwahaniaeth rhwng yr enillion a'r swm cario ymlaen ac fe'u cydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysol.

2.8 Gwarediadau

Codir dibrisiant hyd at y dyddiad y gwaredir yr ased. Mae unrhyw enillion neu golledion wrth waredu eiddo, peiriannau ac offer yn y pen draw yn cael eu cydnabod yn y datganiad o incwm cynhwysol pan fydd yr ased yn cael ei ddadgydnabod.

2.9 Amhariad ar asedau anariannol

At ddibenion profi amhariad, edrychir ar eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol yn unigol. Lle nad yw hyn yn bosibl, caiff asedau eu grwpio ar y lefelau isaf lle mae llif arian adnabyddadwy ar wahân, a elwir yn unedau cynhyrchu arian.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn adolygu symiau cario ymlaen ei eiddo, peiriannau ac offer a'i asedau anniriaethol i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef colled amhariad. Os oes unrhyw arwydd o'r fath yn bodoli, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased er mwyn pennu maint y golled amhariad, os o gwbl. Lle nad yw'n bosibl amcangyfrif swm adenilladwy ased unigol, mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn amcangyfrif swm adenilladwy yr uned cynhyrchu arian y mae'r ased yn perthyn iddi.

Os amcangyfrifir bod swm adenilladwy ased neu uned cynhyrchu arian parod yn llai na'i swm cario ymlaen, gostyngir swm cario ymlaen yr ased neu'r uned cynhyrchu arian parod i'w swm adenilladwy. Mae colled amhariad yn cael ei chydabod ar unwaith yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

Pan fydd colled amhariad yn gwrthdroi wedyn, cynyddir swm cario ymlaen yr ased neu'r uned cynhyrchu arian parod i'r amcangyfrif diwygiedig o'i swm adenilladwy, i beidio â bod yn fwy na'r swm cario ymlaen a fyddai wedi'i bennu pe na bai unrhyw golled amhariad wedi'i chydabod ar gyfer yr ased neu uned cynhyrchu arian parod mewn blynyddoedd blaenorol. Mae gwrthdroi colled amhariad yn cael ei gydnabod ar unwaith yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

2.10 Cydnabod refeniw

Cydnabyddir incwm wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad gael eu cyflawni yn unol ag IFRS15 – Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid. Daw mwyafrif yr incwm o Gytundebau Gwasanaeth yr Heddlu a Chytundebau Gwasanaeth yr Heddlu Uwch. Gosodir Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu yn unol â Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003, ac maent yn nodi'r rhwymedigaethau ar gyfer yr Awdurdod a'r gweithredwyr rheilffyrdd. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i weithredwyr rheilffyrdd gynnal Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu. Seilir y taliadau ar y cynllun plismona blynyddol a luniwyd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Mae taliadau'n cael eu cydnabod yn gyfartal dros y flwyddyn ariannol flynyddol, ac mae taliadau'n digwydd mewn 13 rhandaliad cyfartal. Mae unrhyw incwm dros ben yn cael ei symud i incwm gohiriedig a'i dynnu i lawr pan fo angen. O dan y Ddeddf, mae gan Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yr hawl i dalu cost yr Heddlu, gan gynnwys unrhyw ddiffyg ariannol. Os bydd diffyg, bydd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn asesu a fydd yn cael ei adennill drwy daliadau Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu yn y dyfodol yn y flwyddyn ganlynol. Os cytunir arno, bydd balans incwm cronedig yn cael ei ddal hyd nes y cesglir yr arian. Mae'r un fethodoleg yn berthnasol os bydd tanwariant yn digwydd a bod ad-daliad yn cael ei gymeradwyo.

Mae Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu Uwch yn bodoli lle mae gweithredwr rheilffyrdd yn gofyn am wasanaeth penodol ochr yn ochr â Chytundeb Gwasanaeth yr Heddlu neu i fynd i'r afael â mater penodol. Codir cost lawn darparu'r Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu Uwch ar y gweithredwr rheilffyrdd. Codir y costau yn ystod y flwyddyn, yn unol â'r gwasanaeth a ddarperir wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad gael eu bodloni. Caiff Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu Uwch eu contractio am gyfnod penodol. Codir cost wirioneddol ar ddeiliaid Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu Uwch am y gwasanaethau a ddarperir bob cyfnod. Nid yw triniaeth Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu Uwch yn arwain at unrhyw asedau neu rwymedigaethau.

Mae taliadau London Underground (TfL) yn cael eu hanfonebu ymlaen llaw dros 13 cyfnod o fewn y flwyddyn ariannol, yna cânt eu codio gyda dyddiadau rhagdal / incwm gohiriedig fel bod yr incwm yn

cael ei gofnodi yn y cyfnod y cyflenwir y gwasanaeth. Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn negodi i adennill unrhyw ddiffyg/adenillion y swm dros ben trwy broses 'golchi' sydd fel arfer yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol ddilynol, pan fydd incwm cronedig yn cael ei ddal hyd nes y derbynnir yr arian.

2.11 Lesoedd

Mae IFRS 16 Lesoedd yn darparu model cyfrifyddu lesddeiliad unigol sy'n arwain at gynrychiolaeth fwy ffyddlon o asedau a rhwymedigaethau lesddeiliad a bydd, ynghyd â datgeliadau manylach, yn darparu mwy o dryloywder o drosoledd ariannol y lesddeiliad a'r cyfalaf a ddefnyddir. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliaid gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob les oni bai fod cyfnod y les yn 12 mis neu lai, neu fod yr ased sylfaenol yn bodloni meini prawf IFRS 16 i'w ddosbarthu fel "gwerth isel". Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau'n cael eu cydnabod i ddechrau ar werth gostyngol y taliadau les lleiaf, a bod yr asedau, a ddisgrifir fel asedau "hawl i ddefnyddio", yn cael eu cyflwyno o dan Eiddo, Peiriannau ac Offer. Mae'r asedau hawl i ddefnyddio wedi'u dibrisio ar sail llinell syth ac mae llog wedi'i gydnabod ar y rhwymedigaethau. Mae'r model cost wedi'i gymhwyso i asedau ar gyfer lesoedd heblaw lesoedd gyda rhent hedyn pupur, sydd wedi'u mesur ar werth cyfredol ar sail defnydd presennol. O ganlyniad, mae amseriad cydnabod cyfanswm costau prydesu wedi newid, gan y bydd costau llog yn uwch ar ddechrau les.

O dan IFRS 16, fel y'i haddaswyd a'i dehonglwyd gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, mae rhagdybiaeth, lle na all endidau benderfynu'n rhwydd ar y gyfradd llog sydd ymhlwg yn y les, ei bod yn ofynnol yn lle hynny iddynt ddefnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys EF a gyhoeddwyd ym mhapurau'r System Gwariant Cyhoeddus fel eu cyfradd fenthycy gynyddrannol. Y gyfradd ddisgownt a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF oedd .95% ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2022, sydd wedi'i chymhwyso gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer lesoedd sy'n cychwyn neu'n cael eu hailfesur cyn Ionawr 2023 ac ym mlwyddyn galendr 2022. Y gyfradd ddisgownt a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF yw 3.51% ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2023. Ar gyfer lesoedd a gychwynnodd neu a gafodd eu hailfesur cyn mis Ionawr 2022, roedd cyfradd ddisgownt berthnasol Trysorlys EF a gyhoeddwyd ar gyfer y flwyddyn honno wedi'i chymhwyso.

Mae gan yr Awdurdod nifer o lesoedd mewn perthynas ag eiddo nad ydynt yn dod o dan gwmpas IFRS 16. Mae'r lesoedd hyn naill ai'n cael eu hystyried yn rhai tymor byr neu lle nad oes modd rhoi tystiolaeth o ased a nodwyd. Caiff rhenti o dan y lesoedd hyn eu codi ar y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn codi ynddo.

2.12 Darpariaethau

Mae'r Awdurdod yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau yn unol ag IAS 37 – Darpariaethau, lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd presennol (h.y. rhwymedigaeth bresennol o ddigwyddiadau'r gorffennol), mae'n debygol y bydd buddion economaidd yn cael eu trosglwyddo, a gellir gwneud amcangyfrif rhesymol.

Mae darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau yn seiliedig ar amcangyfrifon dibynadwy o'r gwariant sydd ei angen i setlo rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol yn y dyfodol. Caiff darpariaethau eu codi ar y datganiad o incwm cynhwysfawr a'u rhyddhau pan wneir y trosglwyddiad budd economaidd i setlo'r rhwymedigaeth. Y darpariaethau allweddol a oedd yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn oedd hawliadau yn erbyn yr Awdurdod, dadfeiliadau ac adolygiadau rhent.

2.13 Rhwymedigaethau digwyddiadol

Yn unol ag IAS 37, mae'r Awdurdod yn datgelu fel rhwymedigaethau digwyddiadol rhwymedigaethau posibl yn y dyfodol sy'n deillio o ddigwyddiadau rhwymol yn y gorffennol, lle mae bodolaeth rhwymedigaethau o'r fath yn parhau i fod yn ansicr wrth aros am ganlyniad digwyddiadau yn y dyfodol sydd y tu allan i reolaeth Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, oni bai yr ystyrir eu bod yn annhebygol o ddigwydd.

2.14 TAW

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth allbwn yn berthnasol ac ni ellir adennill treth mewnbwn ar bryniannau. Gellir adennill TAW mewnbwn ar wasanaethau anstatudol. Codir TAW anadenilladwy i'r categori gwariant perthnasol neu, os yw'n briodol, caiff ei chyfalafu gydag ychwanegiadau at asedau anghyfredol. Lle codir treth allbwn neu lle gellir adennill TAW mewnbwn, nodir y symiau heb gynnwys TAW.

2.15 Llog taladwy/derbyniadwy / traul cyllid

Mae'r llog taladwy yn cael ei gronni fel bod y cyfnod yn talu cost lawn y llog sy'n ymwneud â benthyciadau gwirioneddol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae gwariant cyllid yn cynrychioli llog a godir ar asedau hawl i ddefnyddio o fewn cwrpas IFRS 16.

Rhoddir cyfrif am y llog sy'n dderbyniadwy yn y cyfnod y mae'n ddyledus.

2.16 Stocrestrï

Mae stocrestrï yn cynnwys lifrai yn bennaf. Nodir y stocrestrï yn ôl y gost neu'r gwerth gwiredadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

2.17 Amhariad ar asedau ariannol

"Mae pob dyled ddrwg ac amheus yn cael ei hadolygu fesul achos i asesu pa mor debygol yw hi y bydd camau adennill yn llwyddiannus. Mae pob asesiad yn cymryd i ystyriaeth natur y ddyled, cofnod talu'r dyledwr, a fu neu a oes anghydfod rhyngddo a'r Awdurdod, ac unrhyw wybodaeth briodol arall. Os yw'n ymddangos bod tâl wedi'i godi ar ddyledwr yn anghywir, yna bydd y swm hwn yn cael ei roi yn ôl yn y model codi tâl a bydd y gost yn cael ei hailgodi'n gywir.

Lle y bo'n berthnasol, adlewyrchir amhariad ar sail lwfansau colli credyd disgwylidig ar gyfer symiau masnach derbyniadwy a threfniadau tebyg sy'n cael eu mesur ar swm sy'n hafal i golledion credyd disgwylidig dros 12 mis ac a gydnabyddir lle bo'n berthnasol.

Nid oes gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig unrhyw fenthyciadau i fenthycwyr allanol.

Cydnabyddir lwfansau colled credyd lle bo'n berthnasol. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o'r farn nad yw unrhyw un o'i ddyledion wedi cynyddu'n sylweddol o safbwynt risg credyd yn 2022-23 ac nad oes unrhyw golled credyd ddisgwylidig oes wedi'i chyfrifo ar gyfer y flwyddyn."

2.18 Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod

At ddibenion y datganiad llif arian, mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon ar alwad mewn sefydliadau ariannol. Ar hyn o bryd, nid yw'r Awdurdod yn dal unrhyw eitemau sy'n bodloni'r diffiniad o symiau sy'n cyfateb i arian parod megis buddsoddiadau hylifol iawn tymor byr.

2.19 Costau staff

Buddion i weithwyr

Mae cyflogau, bonysau, cyfraniadau nawdd cymdeithasol, gwyliau blynyddol, absenoldeb oherwydd salwch, ac amser i ffwrdd yn gyfnewid am waith yn cael eu cronni yn y cyfnod y mae'r gweithwyr yn darparu'r gwasanaethau cysylltiedig.

Costau buddion ymddeol

Gall cyflogeion fod yn aelodau o gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig fel y datgelir yn Nodyn 23.

Y gost gwasanaeth gyfredol yw cost ddisgwylidig y buddion a gronnwyd yn y flwyddyn yn dilyn y dyddiad priso. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio'r buddion disgwylidig a gronnwyd dros y flwyddyn, ac ystyried y taliadau disgwylidig a wneir mewn perthynas â'r budd-dal hwn. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth unrhyw godiadau cyflog a phensiwn disgwylidig. Y gost yw'r swm sydd ei angen ar y dyddiad priso, fel bod y taliadau wedi'u cynnwys ar ôl derbyn y llog disgwylidig.

Ar gyfer y cynlluniau buddion diffiniedig, pennir cost darparu buddion gan ddefnyddio'r dull credyd uned ragamcanol, gyda phrisiadau actiwaraid llawn yn cael eu cynnal o leiaf bob tair blynedd a diweddariadau i'r prisiadau hyn yn cael eu cynnal yn y blynyddoedd rhwng hynny. Mae cost gwasanaeth cyfredol a threuliau gweinyddu'r cynllun yn cael eu cydnabod fel traul gweithredu yn y datganiad incwm cyfunol.

Cydnabyddir cyfran Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o enillion a cholledion actiwaraid yn llawn yn y cyfnod y maent yn digwydd. Cânt eu cydnabod y tu allan i'r datganiad incwm a'u cyflwyno yn y datganiad incwm cynhwysfawr.

Y gost llog net yw'r tâl yn y flwyddyn ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net. Mae'r tâl yn adlewyrchu treigl amser ac fe'i cydnabyddir fel cost ariannol yn y datganiad incwm. Cydnabyddir cost gwasanaeth a chredydau blaenorol ar unwaith yn y datganiad incwm cyfunol.

Mae'r rhwymedigaeth buddion ymddeol a gydnabyddir yn y fantolen yn cynrychioli gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig, fel y'i haddaswyd ar gyfer cost gwasanaeth blaenorol heb ei chydabod, ac fel y'i gostyngwyd gan werth teg asedau'r cynllun. Mae unrhyw ased sy'n deillio o'r cyfrifiad hwn wedi'i gyfyngu i gost gwasanaeth yn y gorffennol, ynghyd â gwerth presennol yr ad-daliadau sydd ar gael a gostyngiadau mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol.

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn adlewyrchu ei gyfran o'r diffyg yn y datganiadau ariannol. Ceir rhagor o fanylion am y cynlluniau buddion ymddeol yn Nodyn 23.

Darperir budd-daliadau pensiwn ar gyfer staff cymorth yr Awdurdod a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig trwy Adran Costau a Rennir Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae budd-daliadau yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o dâl cyfartalog terfynol (llai 1/40fed o bensiwn sylfaenol terfynol y wladwriaeth) ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy. Er ei fod yn drefniant pensiwn cost a rennir, mae'r Awdurdod yn dewis rhoi cyfrif am asedau a rhwymedigaethau yn llawn.

2.20 Cronfeydd wrth gefn

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gweithredu:

- Cronfa ailbrisiwr wrth gefn sy'n cynrychioli effaith gronol ailbrisiadau i fyny / i lawr o eiddo, peiriannau ac offer
- Cronfa bensiwn wrth gefn sy'n hafal i'r rhwymedigaeth pensiwn net a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol
- Cronfa incwm a gwariant wrth gefn

Rhoddir rhagor o fanylion am y symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn hyn yn Nodyn 22.

2.21 Cymorth grant

Grant in aid received from DfT is recognised on a cash basis through the statement of changes in taxpayers equity (SoCTE) directly because it is considered to be a controlling party contribution and capital grants are also recognised immediately except where the funder imposes a condition. This treatment is in accordance with IAS 20 as interpreted by FReM.

3. Dyfarniadau cyfrifyddu critigol

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu a nodir uchod, mae'r Awdurdod wedi nodi dwy farn gyfrifyddu hollbwysig, sef cymhwyso IFRS 15 ac IAS 19. Ystyrir IFRS 15 yn y bôn gan ei fod yn gofyn am farn i ganfod pryd y bodlonir y rhwymedigaethau perfformiad – gweler Nodyn 2.10 am fanylion pellach. Er bod prisiad IAS 19 o'r cynlluniau pensiwn wedi'i nodi isod fel ffynhonnell allweddol o ansicrwydd amcangyfrif (Nodyn 4), mae'r dewis o ragdybiaethau ac ystyriaeth o amodau economaidd hefyd yn cynnwys lefel o farn. Gweler Nodyn 23 a 2.19 am fanylion pellach. Mae effaith y ddau ddyfarniad yn bwydo i mewn i elfennau perthnasol y datganiad incwm cynhwysfawr a'r datganiad o'r sefyllfa ariannol.

4. Ffynonellau ansicrwydd amcangyfrif

Ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r cyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod am y dyfodol, neu sydd fel arall yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau yn y cyfrifon y mae risg sylweddol o addasiadau sylweddol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol i ddod fel a ganlyn:

- Eiddo, peiriannau ac offer – o ganlyniad i newidiadau mewn rhagdybiaethau am oes economaidd ddefnyddiol. Byddai unrhyw leihad mewn oes economaidd ddefnyddiol yn lleihau'r asedau ac yn cynyddu gwariant.
- Rhwymedigaethau pensiwn – o ganlyniad i ragdybiaethau ar gyfraddau disgownt, codiadau cyflog a marwolaethau. Gweler manylion pellach yn Nodyn 23;
- Asedau pensiwn – o ganlyniad i brisio eiddo, ecwiti preifat ac asedau cyfrwng buddsoddi cyfun nad ydynt yn cael eu masnachu mewn cyfnewid. Gweler manylion pellach ar ddiwedd Nodyn 23 am sensitifrwydd y prisiadau hyn.
- Costau staff – o ganlyniad i newidiadau mewn amcangyfrifon ar gyfer tâl gwyliau ac amser i ffwrdd yn gyfnewid am waith. Byddai unrhyw gynnydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer yr eitemau hyn yn cynyddu rhwymedigaethau a gwariant.

- Darpariaethau – o ganlyniad i ganlyniad ymglyfreitha yn y dyfodol, achosion, anghydfodau, ac adolygiadau rhent eraill. Byddai unrhyw gynnydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer yr eitemau hyn yn cynyddu rhwymedigaethau a gwariant.
- Amhariad ar symiau derbyniadwy gan ddefnyddio model colledion disgwylidig – o ganlyniad i newidiadau yn y posibilrwydd o adennill symiau derbyniadwy. Byddai unrhyw gynnydd yn yr amcangyfrif ar gyfer yr eitemau hyn yn lleihau asedau ac yn cynyddu gwariant.

5. Dadansoddiad cylchrannol

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel un dosbarth o fusnes, sef plismona'r rheilffyrdd ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, ac mae'n ymgymryd â'r dosbarth hwnnw o fusnes mewn un segment daearyddol, sef Prydain Fawr. Mae strwythur yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn seiliedig ar dri rhanbarth. Y tri rhanbarth yw Rhanbarth B (Dwyrain, De Lloegr a Transport for London), Rhanbarth C (Pennine, Canolbarth Lloegr, De-orllewin Lloegr a Chymru), a Rhanbarth D (Yr Alban). Mae Pencadlys yr Heddlu yn Camden yn cadw rheolaeth gyffredinol ar weithgarwch yr Heddlu ac yn gartref i adrannau a swyddogaethau canolog. Er bod costau uniongyrchol yn cael eu monitro ar sail ranbarthol, cynhyrchir cyfran fawr o'r gorbenion yn ganolog. Mae mwyafrif yr incwm hefyd yn cael ei gynhyrchu a'i fonitro'n ganolog yn hytrach nag ar sail ranbarthol. Ymhellach, ni chaiff asedau a rhwymedigaethau eu dadansoddi yn y modd hwn oherwydd nad ydynt yn cael eu hadrodd yn fewnol ar sail gylchrannol.

	2022/23	2021/22
	£'000	£'000
Rhanbarthau		
Rhanbarth B		74,556
Rhanbarth C		44,361
Rhanbarth D		10,410
Gorbenion sy'n weddill	299,515	290,922
Cyfanswm gwariant cyn costau cyllid	433,638	420,249

6. Incwm

	2022/23	2021/22
	£'000	£'000
Incwm Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu	249,167	234,228
Incwm arall		
Incwm Cytundeb London Underground	75,827	72,886
Incwm Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu Uwch*	14,383	13,800
Cytundebau ariannu llai	3,253	1,585
Incwm arall	6,892	8,247
Cyllid cyfalaf	1,140	377
Cyfanswm costau net	101,495	96,895
Cyfanswm	350,662	331,123

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gweithredu nifer o ffrydiau incwm gweithredol. Mae'r symiau a ddatgelir uchod yn cael eu hysgwyddo wrth i rwymedigaethau perfformiad gael eu bodloni. Gellir categorio'r ffrydiau incwm fel a ganlyn:

6.1 Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu

O dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003, mae'r Awdurdod yn llunio Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu gyda'i gwsmeriaid er mwyn darparu gwasanaeth plismona fel y nodir yn y cytundeb. Wrth bennu cyfraniad y cwsmeriaid, mae'r Awdurdod yn anelu at sicrhau bod ei gostau blynyddol llawn yn cael eu talu ac yn defnyddio mecanwaith codi tâl a bennwyd ymlaen llaw sy'n gyson â'r Ddeddf ac sy'n unol â Chytundeb Gwasanaeth yr Heddlu y cwsmer. Cyfeirir at y cwsmer fel arfer fel deiliad Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu.

6.2 Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu Uwch

Mae unrhyw wasanaethau ychwanegol y tu allan i gytundeb deiliad y Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu yn cael eu cyfeirio at Gytundeb Gwasanaeth yr Heddlu Uwch. Codir tâl llawn am y gwasanaeth ychwanegol yn unol â'r cytundeb cwsmer penodol.

6.3 Cytundeb London Underground

Mae incwm Cytundeb London Underground yn cael ei gyfrifo ar wahân i fodel codi tâl y Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn trafod gofynion plismona gyda London Underground ac maent yn cael eu codi ar gost lawn.

6.4 Incwm arall

Mae nifer o gytundebau contract llai gydag adrannau eraill y llywodraeth a chyrrff allanol. Mae'r incwm a geir gan gwsmeriaid o'r fath yn ariannu mentrau penodol sy'n ymwneud yn fras ag atal trosedd ac amddiffyn y gymdeithas ehangach ar y seilwaith rheilffyrdd. O'r cytundebau contract llai hyn, mae cyfranwyr yn cynnwys Network Rail, TfL, y Swyddfa Gartref, a chyfranwyr trydydd parti llai eraill.

Yn ogystal, mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig hefyd yn derbyn incwm o Gynllun Cymhelliant Adennill Asedau'r Swyddfa Gartref (ARIS), sy'n dosbarthu cyfran o enillion troseddau sydd wedi'u hadennill (POCA) i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig mewn achosion lle'r oedd yn awdurdod ymchwilio. Mae'r cyllid hwn yn cael ei drin o dan IAS 20.12 fel grant, a gydnabyddir fel incwm dros y cyfnod sy'n angenrheidiol i'w baru â'r costau cysylltiedig, y bwriedir iddynt eu digolledu, ar sail systematig.

7. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

Am niferoedd staff a chostau cysylltiedig, gweler yr Adroddiad Tâl.

	2022/23			2021/22
	Permanently employed staff £'000	Other staff £'000	Total £'000	Total £'000
Mae cyfanswm costau staff yn cynnwys y canlynol:				
Cyflogau	218,035	1,460	219,495	210,071
Costau nawdd cymdeithasol	22,863	–	22,863	20,357
Costau pensiwn eraill ¹	109,149	–	109,149	113,826
Cyfanswm costau net	350,047	1,460	351,507	344,254
Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol	(1,136)	–	(1,136)	(1,031)
Cyfanswm	348,911	1,460	350,371	343,223

¹ Mae costau pensiwn eraill wedi gostwng o ganlyniad i gost gwasanaeth cyfredol pensiwn IAS 19, gwerth £81.97 miliwn (£86.54 miliwn yn 2021/22). Mae gweddill y costau pensiwn yn cynnwys cyfraniadau cynllun pensiwn a thaliadau diffyg o £27.18 miliwn (£27.29 miliwn yn 2021/22)

8. Gwariant arall

Mae'r diffyg ar weithgareddau arferol cyn llog yn cael ei ddatgan ar ôl codi'r canlynol:

	Nodi- adau	2022/23	2021/22
		£'000	£'000
Costau cysylltiedig â staff		4,812	3,829
Cyfathrebu a chyfrifiaduron		18,404	17,885
Treuliau gweithredol		2,525	3,327
Treuliau gweinyddol		2,940	1,761
Gwasanaethau proffesiynol		3,442	2,090
Cyfreithiol ac yswiriant		1,105	3,363
Prynu offer		2,908	2,399
Rhenti o dan lesioedd gweithredu ²		(2,506)	5,460
Adeiladau (ac eithrio rhenti o dan lesioedd gweithredu)		13,343	12,031
Costau cludiant		7,125	6,759
Arall		(12)	(40)
Gwariant arall		54,086	58,864
Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer	9	15,813	12,325
Dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio ²	9	12,442	3,991
Amorteiddio asedau anniriaethol	10	926	1,846
Dibrisiant ac amorteiddiad		29,181	18,162
Costau cyllid		1,082	734
Cyfanswm		84,349	77,760

Yn ystod y flwyddyn, ni phrynodd yr Awdurdod unrhyw wasanaethau heblaw archwilio gan ei archwilydd, y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Yn gynwysedig yn "Gwasanaethau proffesiynol" mae'r ffi archwilio o £144,000 ar gyfer tâl yr archwilydd am waith archwilio sy'n ymwneud â 2022/23 (2021/22: £127,000).

² Mae rhent o dan lesioedd gweithredu wedi gostwng £8 miliwn ac mae dibrisiant ar asedau hawl i ddefnyddio wedi cynyddu £8.5 miliwn oherwydd ailasesu'r holl lesioedd yn erbyn meini prawf IFRS 16, a arweiniodd at ailasesu nifer o lesioedd i fod o fewn cwmipas IFRS 16 ac fel arall. Ar gyfer y lesioedd hynny a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2022, mae'r addasiadau ar gyfer taliadau rhent a dibrisiant blyneddod blaenorol wedi'u cyfrifo yn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r rhan fwyaf o'r addasiad o ganlyniad i'r newid yng nghwmpas y les ar gyfer Pencadlys Camden.

9. Eiddo, peiriannau ac offer

	Gwelliannau lesddaliad	Offer a pheiriannau	Cerbydau modur	Asedau sy'n cael eu hadeiladu – cerbydau modur	Asedau sy'n cael eu hadeiladu – arall	Asedau hawl i ddefnyddio ¹	Gosodia- dau a ffitiadau	Offer TG	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost									
Ar 1 Ebrill 2022	52,323	17,923	17,008	2,788	5,887	40,313	4,000	58,360	198,602
Ychwanegiadau ²	1,131	478	765	5,180	2,727	13,701	23	6,192	30,197
Gwarediadau ²	(66)	(17)	(2,017)	–	–	(259)	–	(510)	(2,869)
Dadgydnabod	–	–	–	(445)	(657)	–	–	(67)	(1,169)
Ailbrisiadau	4,227	250	960	–	–	–	78	2,853	8,368
Ailddosbarthiadau	3,769	98	2,032	(2,032)	(4,981)	–	10	1,104	–
Ar 31 Mawrth 2023	61,384	18,732	18,748	5,491	2,976	53,755	4,111	67,932	233,129
Dibrisiant									
Ar 1 Ebrill 2022	31,129	16,485	10,591	–	–	12,029	3,362	37,589	111,185
Tâl a godwyd yn y flwyddyn ³	4,168	700	2,464	–	–	12,624	178	7,283	27,417
Gwarediadau ³	(65)	(17)	(1,913)	–	–	(182)	(6)	(511)	(2,694)
Dadgydnabod	–	–	–	–	–	–	–	(4)	(4)
Ailbrisiadau	386	96	162	–	–	–	18	358	1,020
Ailddosbarthiadau	–	–	–	–	–	–	–	–	–
Ar 31 Mawrth 2023	35,618	17,264	11,304	–	–	24,471	3,552	44,715	136,924
Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2023	25,766	1,468	7,444	5,491	2,976	29,284	559	23,217	96,205

Ac eithrio asedau hawl i ddefnyddio, sy'n adlewyrchu'r buddion sy'n codi o dan lesioedd a ddelir gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, mae pob ased yn eiddo.

1 Ar ddiwedd 2022/23, cynhaliwyd ymarfer ailasesu lesioedd ar gyfer yr holl lesioedd parhaus i bennu statws IFRS 16, gan arwain at 20 newid i'r cwmphas blaenorol. Ar gyfer y lesioedd hynny a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2022, mae'r addasiadau ar gyfer asedau, rhwymedigaethau, llog, dibrisiant a thaliadau rhent y flwyddyn flaenorol wedi'u cyfrifo yn y flwyddyn ariannol hon.

2 Wedi'i gynnwys yn yr ychwanegiadau asedau hawl i ddefnyddio o £13.7 miliwn mae £13.6 miliwn o ychwanegiadau yn sgil ailasesu 17 o lesioedd fel rhai sydd yng nghwmpas IFRS 16, gyda'r £0.1 miliwn sy'n weddill yn ymwneud ag ychwanegiadau safonol ym flwyddyn ariannol 2023. Mae'r gwarediadau o £0.3 miliwn yn ymwneud â thair les a gafodd eu hailasesu fel rhai y tu allan i'r cwmphas.

3 Yn gynnwysedig o fewn y dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio a godwyd yn y flwyddyn o £12.6 miliwn mae dibrisiant ôl-ddyddiedig o £6.6 miliwn ar gyfer y lesioedd a gafodd eu hailasesu fel bod o fewn cwmphas ac a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2022; mae'r £6 miliwn sy'n weddill yn ymwneud â thaliadau dibrisiant safonol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Y gwarediad dibrisiant o £0.2 miliwn yw'r tair les a gafodd eu hailasesu fel rhai y tu allan i'r cwmphas.

9. Eiddo, peiriannau ac offer

	Gwelliannau lesddaliad	Offer a pheiriannau	Cerbydau modur	Asedau sy'n cael eu hadeiladu – cerbydau modur	Asedau sy'n cael eu hadeiladu – arall	Asedau hawl i ddefnyddio	Gosodia- dau a ffitiadau	Offer TG	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost									
Ar 1 Ebrill 2021	45,495	17,852	16,307	1,527	4,490	27,223	3,859	47,136	163,889
Ychwanegiadau	5,766	106	1,118	2,503	5,786	7,675	72	7,523	30,549
Addasiadau	–	–	–	–	–	5,741	–	–	5,741
Gwarediadau	(9)	(213)	(2,106)	–	–	(326)	–	(2)	(2,656)
Dadgydnabod	(2,712)	(1)	–	–	(75)	–	–	(3)	(2,791)
Ailbrisiadau	2,050	165	447	–	–	–	41	1,167	3,870
Ailddosbarthiadau	1,733	14	1,242	(1,242)	(4,314)	–	28	2,539	–
Ar 31 Mawrth 2022	52,323	17,923	17,008	2,788	5,887	40,313	4,000	58,360	198,602
Dibrisiant									
Ar 1 Ebrill 2021	30,350	15,825	10,572	–	–	8,038	3,189	31,746	99,720
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	3,209	747	1,956	–	–	3,991	161	5,693	15,757
Gwarediadau	(18)	(165)	(2,028)	–	–	–	–	(2)	(2,213)
Dadgydnabod	(2,636)	(1)	–	–	–	–	–	(3)	(2,640)
Ailbrisiadau	224	79	91	–	–	–	12	155	561
Ailddosbarthiadau	–	–	–	–	–	–	–	–	–
Ar 31 Mawrth 2022	31,129	16,485	10,591	–	–	12,029	3,362	37,589	111,185
Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2022	21,194	1,438	6,417	2,788	5,887	28,284	638	20,771	87,417

Ac eithrio asedau hawl i ddefnyddio, sy'n adlewyrchu'r buddion sy'n codi o dan lesioedd a ddelir gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, mae pob ased yn eiddo.

10. Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd, trwyddedau meddalwedd, y prosiect rhwydwaith ardal eang, a gwariant ar ddatblygu gwefannau.

	Trwyddedau	Meddalwedd	Rhwydwaith ardal eang	Gwefannau	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000

Cost

Ar 1 Ebrill 2022	7,547	14,782	4,251	348	67	26,995
Ychwanegiadau	275	16	–	–	6	297
Dadgydnabod	–	–	–	–	–	–
Ailbrisiadau	148	177	–	–	–	325
Ailddosbarthiadau	45	16	–	–	(61)	–
Ar 31 Mawrth 2023	8,015	14,991	4,251	348	12	27,617

Amortisation

Ar 1 Ebrill 2022	6,790	13,200	4,250	346	–	24,586
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	377	547	–	2	–	926
Dadgydnabod	–	–	–	–	–	–
Ailbrisiadau	–	–	–	–	–	–
Ailddosbarthiadau	–	–	–	–	–	–
Ar 31 Mawrth 2023	7,167	13,747	4,250	348	–	25,512

Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2023	848	1,244	1	–	12	2,105
---	------------	--------------	----------	----------	-----------	--------------

Ac eithrio asedau hawl i ddefnyddio, sy'n adlewyrchu'r buddion sy'n codi o dan lesioedd a ddelir gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, mae pob ased yn eiddo.

	Trwyddedau	Meddalwedd	Rhwydwaith ardal eang	Gwefannau	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000

Cost

Ar 1 Ebrill 2021	7,231	14,262	4,251	347	170	26,261
Ychwanegiadau	82	358	–	–	69	509
Dadgydnabod	–	–	–	–	–	–
Ailbrisiadau	75	149	–	1	–	225
Ailddosbarthiadau	159	13	–	–	(172)	–
Ar 31 Mawrth 2022	7,547	14,782	4,251	348	67	26,995

Amorteiddiad

Ar 1 Ebrill 2021	6,395	11,755	4,248	342	–	22,740
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	395	1,445	2	4	–	1,846
Dadgydnabod	–	–	–	–	–	–
Ailbrisiadau	–	–	–	–	–	–
Ailddosbarthiadau	–	–	–	–	–	–
Ar 31 Mawrth 2022	6,790	13,200	4,250	346	–	24,586

Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2022	757	1,582	1	2	67	2,409
---	------------	--------------	----------	----------	-----------	--------------

Ac eithrio asedau hawl i ddefnyddio, sy'n adlewyrchu'r buddion sy'n codi o dan lesioedd a ddelir gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, mae pob ased yn eiddo.

11. Offerynnau ariannol

Mae gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ddarpariaethau contractiol i dderbyn taliadau arian parod yn gyfnewid am ddarparu gwasanaeth plismona ac am adennill costau llawn gwariant yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae gwahanol ffrydiau incwm yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ymwneud â chytundebau a gwmpesir gan y Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu, Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu Uwch, TfL (cyllid gan London Underground), Network Rail, cyllid gan gcontractwyr gweithredu trafndiaeth eraill, cyllid incwm penodol gan y Swyddfa Gartref ac ARIS.

Oherwydd natur anfasnachol ei weithgareddau i raddau helaeth a'r ffordd y caiff yr Awdurdod ei ariannu, nid yw'r Awdurdod yn agored i'r graddau o risg ariannol a wynebwr gan endidau eraill. Mae gan yr Awdurdod bwerau cyfyngedig i fenthyg neu fuddsoddi arian dros ben. Cynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac nid ystyrir eu bod yn newid y risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wrth gyflawni ei weithgareddau.

Hylifedd a risg credyd

Ariennir incwm net yr Awdurdod a gofynion adnoddau cyfalaf gan adnoddau gan ddeiliaid y Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu, a chyrff eraill y llywodraeth. Felly nid yw'r Awdurdod yn agored i risgiau hylifedd sylweddol. Nid yw risg credyd wedi cynyddu'n sylweddol o'r trallod ariannol ar y gweithredwyr trenau o ganlyniad i COVID-19 oherwydd cytundebau mesurau brys sydd ar waith a oedd yn trosglwyddo risg cost a refeniw i'r mwyafrif o weithredwyr i'r Adran Drafnidiaeth. Nid oedd gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig unrhyw offerynnau ariannol hirdymor yn ystod y flwyddyn.

Risg cyfradd llog

Mae holl asedau ariannol yr Awdurdod a'i holl rhwymedigaethau ariannol yn cario dim cyfraddau llog neu gyfraddau llog sefydlog. Felly nid yw'r Awdurdod yn agored i risg sylweddol o ran cyfraddau llog.

Risg arian tramor

Nid yw amlygiad yr Awdurdod i risg arian tramor yn sylweddol. Mae incwm a gwariant arian tramor yn ddibwys.

Mabwysiadwyd IFRS 9 Offerynnau Ariannol am y tro cyntaf yn 2018-19. Nid yw mabwysiadu wedi cael unrhyw effaith ar y cyfrifon oherwydd, er bod dosbarthiadau wedi'u hailenwi, nid yw'r dulliau sylfaenol o fesur asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddelir gan y gronfa wedi newid. Heblaw am arian parod, mae'r rhain yn bennaf yn cynrychioli symiau derbyniadwy a thaladwy, y mae pob un ohonynt yn offerynnau tymor byr a ddelir yn ystod gweithrediadau arferol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gyda gwahaniaeth dibwys rhwng eu gwerthoedd cario ymlaen a'u gwerthoedd teg.

Gwerthoedd teg

Isod mae cymhariaeth fesul categori o werthoedd ar y llyfrau a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol yr Awdurdod.

	2022/23		2021/22	
	Gwerth ar y llyfrau	Gwerth teg	Gwerth ar y llyfrau	Gwerth teg
Offerynnau ariannol sylfaenol:	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol:				
Arian parod yn y banc	49,812	49,812	53,331	53,331
Derbyniadau masnach	2,812	2,812	3,186	3,186
Cyfanswm	52,624	52,624	56,517	56,517
Rhwymedigaethau ariannol:				
TAW sy'n daladwy	1,208	1,208	1,997	1,997
Symiau trethiant a nawdd cymdeithasol eraill sy'n daladwy	3,536	3,536	3,191	3,191
Symiau masnach taladwy	4,128	4,128	928	928
Cyfanswm	8,872	8,872	6,116	6,116

12. Stocrestri

	2022/23	2021/22
	£'000	£'000
Lifrai ac eitemau cysylltiedig		
Balans agoriadol	375	67
Ychwanegiadau	120	641
Defnyddiau	(381)	(719)
Darpariaeth	–	–
Addasiad	–	386
Balans cau	114	375

Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd gwerth stocrestri £262,000 i £114,000 (2021/22: £375,000), sy'n unol â chyfanswm balans gwirioneddol y stocrestri ar 31 Mawrth 2023 yn unol â'r Adroddiad Stocrestri a ddarparwyd gan DHL. Disgwylir gostyngiad mewn ychwanegiadau oherwydd bod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn symud tuag at system ar-alw lle mae ein cyflenwr stocrestri yn darparu eitemau sydd eu hangen arnom yn ôl yr angen, yn hytrach na'n bod yn prynu'r eitemau hyn a'u bod yn cael eu cadw mewn stoc. Wrth symud ymlaen, bydd ychwanegiadau ond yn cynrychioli stocrestri arbenigol nad oes gan ein cyflenwr stocrestri ar gael yn rhwydd. Roedd y balans addasiadau yn 2021/22 o £386,000 yn cynrychioli addasiad i wrthdroi darpariaeth hanesyddol, a ddefnyddiwyd yn llawn yn y flwyddyn flaenorol. Nid oes unrhyw addasiad yn 2022/23. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn cael ei chydabod yn 2022/23 a 2021/22.

13. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau eraill

	2022/23	2021/22
	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Symiau masnach derbyniadwy – contractau gyda chwsmeriaid	2,812	3,186
Symiau masnach derbyniadwy – eraill	–	–
Derbyniadau eraill	683	548
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	13,033	6,807
Llai: Amhariad ar symiau derbyniadwy gan ddefnyddio model colledion disgwyliedig	(24)	(24)
Cyfanswm	16,504	10,517

Symiau yn y ffigurau uchod sy'n ddyledus gan endidau eraill sydd wedi'u cynnwys yng nghyfrif y llywodraeth gyfan:		
Cyrff llywodraeth ganolog eraill	146	3,164
Awdurdodau lleol	1,915	1,359
Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	–	–
Dyledwyr rhynglywodraethol	2,061	4,523
Cyrff y tu allan i'r llywodraeth	14,443	5,994
Cyfanswm	16,504	10,517

Gwnaethpwyd darpariaeth o £24,000 yn 2021/22 yn erbyn elfen o ddyled lle mae adennill yn amheus.

14. Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod

	2022/23	2021/22
	£'000	£'000
Balans ar 01 Ebrill	53,331	36,571
Newid net mewn arian parod a balansau sy'n cyfateb i arian parod	(3,519)	16,760
Balans ar 31 Mawrth	49,812	53,331
Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn:		
Gwasanaeth bancio'r llywodraeth	104	105
Banciau masnachol ac arian mewn llaw	49,708	53,226
Balans ar 31 Mawrth	49,812	53,331

15. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau eraill

	2022/23	2021/22
	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
TAW yn daladwy	1,208	1,997
Symiau trethiant a nawdd cymdeithasol eraill sy'n daladwy	3,536	3,191
Symiau masnach taladwy	4,128	928
Symiau taladwy eraill	2,302	2,673
Rhwymedigaethau les – asedau hawl i ddefnyddio	4,682	3,596
Croniadau ¹	41,558	42,809
Incwm gohiriedig – contractau gyda chwsmeriaid	37	–
Cyfanswm	57,451	55,194
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:		
Symiau taladwy, croniadau ac incwm gohiriedig eraill	–	29
Rhwymedigaethau les – asedau hawl i ddefnyddio	25,709	25,481
Cyfanswm	83,160	80,704
Symiau yn y ffigurau uchod sy'n ddyledus i endidau eraill sydd wedi'u cynnwys yng nghyfrif y llywodraeth gyfan:		
Cyrff llywodraeth ganolog eraill	6,442	7,368
Awdurdodau lleol	6,183	3,676
Cyrff y GIG	636	220
Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	(3)	(3)
Symiau a rhwymedigaethau taladwy o fewn y llywodraeth	13,258	11,261
Cyrff y tu allan i'r llywodraeth	69,902	69,443
Cyfanswm	83,160	80,704

¹ Mae'r balans croniadau yn cynnwys croniad ar gyfer hawliau gwyliau blynyddol gweithwyr nad ydynt wedi'u defnyddio eto. O ganlyniad i bandemig COVID-19, caniatwyd i bob gweithiwr gario hyd at 20 diwrnod o wyliau drosodd ar gyfer blwyddyn galendr 2021 a 2022. Ailddechreuodd y polisi safonol o gario uchafswm o 5 diwrnod drosodd ar 1 Ionawr 2023.

16. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth bresennol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u dosbarthu fel rhai cyfredol gan y disgwylir iddynt gael eu gwireddu o fewn cyfnod ariannol 2021/22.

	Hawliadau yn erbyn yr Awdurdod	Tribiwnlysoedd cyflogaeth	Wedi'i addasu Dadfeiliadau	Wedi'i addasu Darpariaethau eraill	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill 2021	1,518	122	2,129	2,607	6,376
Darparwyd yn y flwyddyn	2,020	230	533	2,412	5,195
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(832)	(57)	-	(1,861)	(2,750)
Darpariaethau a adferwyd yn y flwyddyn	(877)	(210)	-	(382)	(1,469)
Balans ar 31 Mawrth 2022	1,829	85	2,662	2,776	7,352
Darparwyd yn y flwyddyn	1,863	567	804	990	4,224
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(536)	(240)	(136)	(604)	(1,516)
Darpariaethau a adferwyd yn ystod y flwyddyn	(1,321)	(120)	(101)	(593)	(2,135)
Balans ar 31 Mawrth 2023	1,835	292	3,229	2,569	7,925

Hawliadau yn erbyn yr Awdurdod

Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i hawliadau a wneir gan weithwyr Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac aelodau'r cyhoedd yr honnid iddynt gael eu hachosi gan esgeulustod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig neu Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac sy'n arwain at anaf, colled neu ddifrod. Crëir y ddarpariaeth yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir yn rheolaidd gan staff mewnol proffesiynol a chyfreithwyr a dyma amcangyfrif o gost y setliad, gan gynnwys costau cyfreithiol ar gyfer rhwymedigaethau heb eu talu.

Tribiwnlysoedd cyflogaeth

Sefydlir y ddarpariaeth hon ar sail achos unigol ar y cyd â chynghorwyr cyfreithiol allanol, ac mae'n ymwneud ag anghydfodau cyflogaeth, megis diswyddo annheg a gwahaniaethu. Mae'r ddarpariaeth yn cwmpasu costau amcangyfrifedig unrhyw setliad ac unrhyw gostau cyfreithiol.

Dadfeiliadau

Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i ddadfeiliadau eiddo lesddaliadol.

Darpariaethau eraill

Mae hyn yn ymwneud â'r holl ddarpariaethau eraill ac yn bennaf mae'n cynnwys costau sy'n ymwneud ag adolygiadau rhent a diswyddiadau.

17. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn bodoli mewn perthynas â chategorïau ychwanegol o hawliadau gan weithwyr mewn perthynas â chyfreitha hawliadau goramser yr heddlu, Categori 1, hawliadau gan drinwyr ffynonellau Cuddwybodaeth ddynol / Rheolwr DC KSO ac eraill v Comisiynydd yr Heddlu Metropolitanaidd ac eraill. Mae uchafswm y gost wedi'i amcangyfrif ar uchafswm o £0.75 miliwn. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a oedd yn bresennol ar y pryd, ac nad oes tystiolaeth o achosion wedi'u cwblhau ar gyfer y categorïau hyn o hawliadau yn bodoli o fewn yr Heddlu, mae'r Awdurdod wedi dod i'r casgliad yn ôl pwysau tebygolrwydd nad oes rhwymedigaeth ar gyfer setlo'r mathau hyn o hawliadau yn y dyfodol.

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn bodoli ynghylch hawliadau yn y dyfodol ar ôl i Ymchwiliad Arena Manceinion ddod i ben. Mae hawliadau posibl yn cael eu hatal tan ddiwedd yr ymchwiliad.

Mae rhwymedi wedi'i roi ar waith ar 1 Ebrill 2022 yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl bod y diogelwch trosiannol sy'n berthnasol i gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus yn wahaniaethol. Bydd heddluoedd y Swyddfa Gartref yn tapro'r holl swyddogion i gynllun 2015 a bydd swyddogion â budd-daliadau CARE cyn 1 Ebrill 2022 yn dangos buddion CARE fel y'u symudwyd yn ôl i gynlluniau etifeddol. Efallai y bydd y rhwymedi hwn yn gwneud rhai trosglwydddeion o luoedd y Swyddfa Gartref i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. O ganlyniad, efallai y bydd angen costau ôl-ddyddiedig ychwanegol i adlewyrchu'r rhwymedi hwn. Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar i gael amcangyfrif rhesymol o'r costau, ond mae amcangyfrifon cynnar yn rhagdybio cost o £0.65 miliwn.

Ar adeg llofnodi'r Datganiadau Ariannol, nid yw prisiad actiwaraid 2018 o Gronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (Cynllun Pensiwn Swyddogion) wedi'i gwblhau eto. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Adran Drafnidiaeth ynghylch rhagdybiaethau a wnaed gan yr ymddiriedolwr.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod hawliadau posibl yn y dyfodol yn ymwneud ag achos cyfreithiol parhaus ac achos cyfreithiol hanesyddol ar wahân. Amcangyfrifwyd uchafswm cost o £0.5 miliwn ar gyfer costau ac iawndal pellach.

18. Ymrwymïadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan yr Awdurdod yr ymrwymïadau cyfalaf a ganlyn:

	2022/23	2021/22
	£'000	£'000
Ystadau	104	64
Technoleg	625	355
Ffilyd	2,073	1,995
Arall	169	34
Cyfanswm ymrwymïadau cyfalaf yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	2,971	2,448

19. Ymrwymïadau o dan lesioedd

Rhoddir cyfanswm y taliadau les lleiaf yn y dyfodol o dan lesioedd tymor byr yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol¹:

1 Ar ddiwedd 2022/23, cynhaliwyd ymarfer ailasesu lesioedd ar gyfer yr holl lesioedd parhaus i bennu statws IFRS 16, gan arwain at 20 newid i'r cwmipas blaenorol. Ar gyfer y lesioedd hynny a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2022, mae'r addasiadau ar gyfer asedau, rhwymedigaethau, llog, dibrisiant a thaliadau rhent y flwyddyn flaenorol wedi'u cyfrifo yn y flwyddyn ariannol hon.

Lesoedd tymor byr heb eu cydnabod o dan IFRS 16:	2022/23	2021/22
	£'000	£'000
Adeiladau:		
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	1,448	3,844
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	4,050	9,603
Yn hwyrach na phum mlynedd	6,923	12,994
Cyfanswm lesoedd tymor byr	12,421	26,441

Rhoddir cyfanswm y taliadau les lleiaf yn y dyfodol o dan asedau hawl i ddefnyddio yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol:

